Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
69/2018

Dyddiad cyhoeddi:
13/12/2018

# Gwerthusiad o'r fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

## Adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-78964-578-1

Gwerthusiad o’r fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

Einir Burrowes, Dateb / OB3
Heledd Bebb, OB3

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Launa Anderson
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
**E-bost:** Launa.Anderson@llyw.cymru
**Ffôn:** 0300 025 9274

**Tabl Cynnwys**

Rhestr Tablau ... 3
Rhestr Ffigurau ... 4
Geirfa ... 5
**1. Cyflwyniad** ... 6
Y Dull ... 7
Strwythur yr adroddiad hwn ... 8
**2. Cyflwyniad i PaCE** ... 10
Cyflwyniad ... 10
Yr asiantaethau sy'n gysylltiedig ag ariannu a chyflawni ... 10
Cyfranogwyr targed PaCE ... 12
Y theori newid sylfaenol a'r model cyflawni a fwriadwyd ... 14
Targedau a chyllidebau'r rhaglen ... 19
**3. Datblygiadau Polisi sy'n effeithio ar PaCE** ... 23
Cyflwyniad ... 23
Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru (2018) ... 23
Y Cynnig Gofal Plant ... 26
Adolygiad o Gapasiti Gofal Plant yng Nghymru (2017) ... 27
Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru (2018) ... 28
**4. Strwythur y Rhaglen** ... 31
Cyflwyniad ... 31
Alinio gwasanaethau â'r ddarpariaeth cymorth i deuluoedd a chyflogadwyedd ehangach ... 31
Hybu PACE ... 34
Lleoliad Cynghorwyr PaCE ... 36
**5. Proffil y Cyfranogwyr a Gysylltwyd** ... 41
Cyflwyniad ... 41
Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu ... 41
Cysylltiadau yn ôl ardal awdurdod lleol ... 42
Cysylltiadau yn ôl grwpiau targed o gyfranogwyr ... 43
**6. Rhwystrau a Chymhelliant Cyfranogwyr** ... 48
Cyflwyniad ... 48
Y rhwystrau y mae'r cyfranogwyr yn eu hwynebu ... 48
Cymhelliant y cyfranogwyr ... 55

**7. Siwrnai'r Cyfranogwr** .......... 59
Cyflwyniad .......... 59
Ffynonellau cyfeirio .......... 59
Cymorth y cynghorwyr .......... 62
*Yr asesiad diagnostig* .......... 62
*Cynllunio gweithredu* .......... 63
*Cyfrifiadau Gwell eich Byd* .......... 65
*Mentora a hyfforddi* .......... 67
*Cymorth yn y gwaith* .......... 72
Ymyraethau cyflogadwyedd .......... 73
*Hyfforddiant* .......... 73
*Profiad gwaith neu wirfoddoli* .......... 79
*Y gronfa rwystrau* .......... 81
*Gofal plant* .......... 82
**8. Y Deilliannau sy'n dod i'r Amlwg** .......... 91
Cyflwyniad .......... 91
Symud ymlaen i gyflogaeth neu hunangyflogaeth .......... 91
Deilliannau o ran cymwysterau .......... 99
Deilliannau o ran profiad gwaith/gwirfoddoli .......... 99
Deilliannau addysg neu hyfforddiant .......... 100
Effeithiau amlwg eraill PaCE .......... 100
**9. Casgliadau ac Argymhellion** .......... 104
Cyflwyniad .......... 104
Gweithrediad y rhaglen hyd yn hyn .......... 104
Perfformiad o ran deilliannau hyd yn hyn .......... 114
Cywirdeb y Theori Newid .......... 117
Themâu Trawsbynciol .......... 123

**Rhestr Tablau**

Tabl 2.1 Targedau Deilliant Sylfaenol Diwygiedig Blaenoriaeth 1 2015-2020

Tabl 2.2 Targedau Deilliant Sylfaenol Diwygiedig Blaenoriaeth 3 2015-20

Tabl 2.3 Costau a Ffynonellau Cyllid Diwygiedig Blaenoriaeth 1 2015-20

Tabl 2.4 Costau a Ffynonellau Cyllid Diwygiedig Blaenoriaeth 3 2015-20

Tabl 7.1 Y gwariant a broffiliwyd a gwirioneddol ar hyfforddiant PaCE

Tabl 9.1 Asesiad o gywirdeb rhagdybiaethau'r Theori Newid

**Rhestr Ffigurau**

Ffigur 2.1 Y model cyflawni a fwriadwyd ar gyfer PaCE

Ffigur 5.1 Perfformiad hyd yn hyn: cysylltiadau

Ffigur 5.2 Dosbarthiad oedran y cyfranogwyr

Ffigur 5.3 Cyfranogwyr yn ôl eu cymwysterau uchaf adeg cychwyn

Ffigur 6.1 % y cyfranogwyr a gafodd gyfweliad oedd heb unrhyw gymwysterau uwch lefel 2 yn ôl oedran adeg geni eu plentyn cyntaf

Ffigur 6.2 Oedran y plentyn ieuengaf pan ddaeth y cyfranogwyr a gafodd gyfweliad i gysylltiad â PaCE

Ffigur 7.1 Cyfran y cyfranogwyr a gysylltwyd a gyfeiriwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith

Ffigur 7.2 Defnydd o'r hyfforddiant a gynigir gan ddarparydd Llywodraeth Cymru fesul chwarter

Ffigur 7.3 Defnydd o'r hyfforddiant a gynigir gan ddarparydd Llywodraeth Cymru fesul ardal

Ffigur 7.4 Gwerth y taliadau a wnaed o’r gronfa rwystrau fesul chwarter

Ffigur 7.5 Gwerth y taliadau gofal plant a wnaed fesul chwarter

Ffigur 8.1 Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi fesul blaenoriaeth

Ffigur 8.2 Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi o fewn amserlenni penodol

Ffigur 8.3 Cyfran y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau a symudodd i mewn i waith fesul categori galwedigaeth

Ffigur 8.4 Cyfran y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau a symudodd i mewn i waith fesul eu horiau gwaith wythnosol

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| B1 | Blaenoriaeth 1 |
| B3 | Blaenoriaeth 3 |
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| BOCs | Cyfrifiadau Gwell eich Byd |
| CAMH | Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc; |
| CaW | Cymunedau am Waith |
| CaW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| CCLD | Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant |
| CGS | Cynghorau Gwirfoddol Sirol |
| CV | Cwricwlwm Vitae |
| DBS | Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| DC | Dwyrain Cymru |
| DD | Dechrau'n Deg |
| DDA | Y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| EILA | Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| FF | Teuluoedd yn Gyntaf |
| FSF | Cronfa Gymorth Hyblyg |
| GCaC | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| GGD | Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| ICC | Canolfannau Plant Integredig |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith |
| LA | Awdurdod Lleol |
| MOU | Memorandwm Dealltwriaeth |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| PaCE | Gofal Plant a Chyflogaeth i Rieni |
| STLA | Cynorthwyydd Cefnogi Addysgu a Dysgu |
| ToC | Theori Newid |
| UC | Credyd Cynhwysol |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ionawr 2018, penododd Llywodraeth Cymru OB3, Dateb, a Phobl a Gwaith i gyflawni gwerthusiad o'r fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), sef darpariaeth marchnad lafur weithgar (ALMP) a gynorthwyir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

1.2 Lansiwyd PaCE yn 2015 a chyhoeddwyd adroddiad Gwerthuso Prosesau cychwynnol ym mis Rhagfyr 2016. Pennodd yr adroddiad gyd-destun y rhaglen, y Theori Newid sydd wrth wraidd PaCE a thrafododdd ganfyddiadau cynnar am brosesau'r rhaglen a phrofiadau'r cyfranogwyr. Mae'r astudiaeth hon yn adeiladu ar y gwerthusiad cynnar yna.

1.3 Gellir crynhoi nodau'r gwerthusiad hwn fel a ganlyn[1]:

- ystyried a yw'r rhaglen yn cael ei gweithredu yn ôl y disgwyl
- asesu effeithiolrwydd y rhaglen wrth helpu cyfranogwyr i gyflawni deilliannau cynaliadwy
- asesu cywirdeb y Theori Newid sydd wrth wraidd y rhaglen.

1.4 Amcan penodol y gwerthusiad hwn yw darparu dirnadaeth fanwl o natur a hyd siwrnai'r cyfranogwyr.

1.5 Mae'r gwerthusiad hwn yn cael ei gyflawni mewn dwy ran rhwng Mawrth 2018 ac Ionawr 2020. Mae'r adroddiad cyntaf yma'n ystyried a yw'r rhaglen yn cael ei chyflawni yn ôl y bwriad, nodweddion y cyfranogwyr, a natur y cymorth a ddarperir, yn ogystal â pherfformiad y rhaglen hyd yn hyn. Bydd adroddiad pellach (a gaiff ei gynhyrchu yn Ionawr 2020) yn archwilio effeithiau'r rhaglen ac yn ystyried y gwerth am arian y mae PaCE yn ei gynnig.

---

[1] Mynegwyd y nodau a bennwyd yn y fanyleb fel a ganlyn:

- ymchwilio i weithrediad cyfredol PaCE yn erbyn y theori newid a'r model rhesymeg sydd wrth wraidd y rhaglen
- asesu'r gwahaniaeth rhwng gweithrediad Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 gan ystyried sut y sefydlwyd y rhaglen, sut mae'n cael ei gweithredu a sut mae'r deilliannau a gofnodwyd yn cymharu â'r rhai a ddisgwyliwyd
- asesu effeithiolrwydd y rhaglen wrth (i) helpu rhieni dros 25 oed i gyflawni deilliannau cynaliadwy a (ii) lleihau nifer y rhieni ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth

**Y Dull**

1.6 Roedd y rhan yma o'r rhaglen werthuso (a gyflawnwyd rhwng Mawrth a Medi 2018) yn cwmpasu saith prif elfen o waith:

- elfen un: ymchwil pen desg i ddeall y cyd-destun polisi y mae PaCE yn gweithredu oddi mewn iddo
- elfen dau: dadansoddi'r gronfa ddata o gyfranogwyr y rhaglen
- elfen tri: cyflawni cyfweliadau wyneb yn wyneb â swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) fu ynghlwm â dylunio ac yn rheoli'r rhaglen. Cynhaliwyd cyfweliadau â chyfanswm o 10 o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a'r DWP.
- elfen pedwar: cyflawni cyfweliadau wyneb yn wyneb ag wyth rheolwr cyflawni DWP sy'n gyfrifol am weithredu PaCE ar draws Cymru
- elfen pump: cyflawni pecyn o waith maes llai manwl mewn 11 ardal awdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys:
    - cyfweliadau ffôn â 15 o gynghorwyr PaCE sy'n gweithio mewn 11 ardal awdurdod lleol
    - cyfweliadau ffôn ag 17 unigolyn sy’n rheoli a/neu’n darparu gwasanaethau i deuluoedd (e.e. staff Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg) ar draws 11 ardal awdurdod lleol.
- elfen chwech: cyflawni pecyn o waith maes ansoddol mwy manwl mewn 11 ardal awdurdod lleol arall. Cafodd yr ardaloedd awdurdod lleol hyn eu dethol yn ôl y pryd lansiwyd PaCE yno, eu perfformiad dangosol yn nhermau cysylltiadau a deilliannau, daearyddiaeth a nodweddion ieithyddol. Ni all y sampl gwmpasu holl amrywiaeth y rhaglen ledled Cymru, ond mae'n cynnig cipolwg pwysig ar weithrediad y rhaglen ar draws gwahanol rannau o Gymru. Roedd y gwaith maes a gyflawnwyd ar draws yr 11 ardal yn cynnwys:
    - cyfweliadau grŵp neu fesul un â 24 o gynghorwyr PaCE i drafod gweithrediad y rhaglen mewn ardaloedd penodol

- cyfweliadau â 12 unigolyn sydd ynghlwm wrth reoli a/neu gyflawni gwasanaethau i deuluoedd (e.e. staff Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg) ar draws 11 ardal awdurdod lleol
- cyfweliadau fesul un ag 83 o gyfranogwyr y rhaglen. Dewiswyd sampl o gyfranogwyr a oedd wedi ymuno â'r rhaglen rhwng Mawrth a Rhagfyr 2017 ar hap, ac estynnodd y tîm ymchwil wahoddiad iddynt gyfrannu at yr astudiaeth. Yn ogystal, cysylltodd cynghorwyr PaCE ag unigolion perthnasol i'w hannog i gysylltu â'r tîm ymchwil.
- adolygu sampl o 33 o bortffolios cyfranogwyr[2]
- drafftio 'papurau cyfranogwyr' mewnol a oedd yn dod a'r dystiolaeth a gasglwyd o'r gwahanol ffynonellau at eu gilydd
- cyfosod canfyddiadau'r gwaith maes a gyflawnwyd
- codio'r data a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau â chyfranogwyr a'i fewnbynnu i gronfa ddata o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau

- elfen saith: paratoi a chyflawni adolygiad cymar wrth gymar o'r adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn hwn.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.7 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn naw pennod fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: cyflwyniad i PaCE: nodau'r rhaglen, y model cyflawni y bwriadwyd ei ddefnyddio, y strwythurau staffio, y targedau a'r cyllidebau
- pennod tri: adolygiad o'r datblygiadau polisi sy'n effeithio ar PaCE
- pennod pedwar: asesiad o sut y mae PaCE yn alinio ag ymyraethau cymorth i deuluoedd a chyflogadwyedd ehangach
- pennod pump: y cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth weithredu'r rhaglen PaCE yn nhermau niferoedd, a nodweddion y cyfranogwyr a gofrestrwyd

[2] Sy'n gysylltiedig ag unigolion sy'n dal i gyfranogi

- pennod chwech: trafodaeth am y rhwystrau i waith sy’n wynebu cyfranogwyr PaCE a'r ffactorau sy'n eu cymell i gysylltu â'r rhaglen
- pennod saith: adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cyfranogwyr sy’n cysylltu â PaCE
- pennod wyth: asesiad o'r deilliannau sy'n dod i'r amlwg
- pennod naw: ein casgliadau a'n hargymhellion ar y cam interim yma.

## 2. Cyflwyniad i PaCE

### Cyflwyniad

2.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n cynnig cyflwyniad i PaCE ac yn disgrifio sut mae'r rhaglen yn gweithredu. Cyflwynir y bennod mewn pump adran fel a ganlyn:

- yr asiantaethau sy'n ariannu ac yn cyflawni'r rhaglen
- cyfranogwyr targed PaCE
- y theori newid sydd wrth wraidd y rhaglen a'r model cyflawni a fwriadwyd
- targedau a chyllidebau'r rhaglen
- perfformiad hyd yn hyn.

### Yr asiantaethau sy'n gysylltiedig ag ariannu a chyflawni

2.2 Ymyrraeth ym maes farchnad lafur dan nawdd Llywodraeth Cymru yw PaCE. Ei fwriad yw mynd i'r afael â thlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy. Ariennir PaCE trwy Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2014-20 ar gyfer Dwyrain Cymru (DC) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCaC), a hynny o dan ddwy flaenoriaeth wahanol:

- Echel Blaenoriaeth 1: 'trechu tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy'. Yn fwy manwl, bwriad PaCE yw mynd i'r afael ag Amcan Penodol 1.1 o fewn Rhaglen Dwyrain Cymru, ac Amcan Penodol 1.2 yn Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd,  sef 'cynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithredol a phobl ddi-waith tymor hir sydd dros 25 oed ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth'
- Blaenoriaeth 3: 'cyflogaeth ymhlith pobl ifanc' yn Rhaglen Dwyrain Cymru a 'chyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc' yn Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Yn fwy penodol, mae PaCE yn ymdrechu i fynd i'r afael ag Amcan Penodol 3.1 yn y ddwy raglen, sef 'lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)'.

2.3 Llywodraeth Cymru yw 'prif fuddiolwr' PaCE, ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn fuddiolwr hefyd. Ar hyn o bryd, mae PaCE yn gweithredu ochr yn ochr â darpariaethau eraill sy'n targedu pobl nad ydynt

mewn cyflogaeth, gan gynnwys Rhaglen Gwaith ac Iechyd DWP[3]. Darperir PaCE ar draws Cymru, ac eithrio yn yr ardaloedd hynny lle mae'r rhaglen Cymunedau am Waith (CaW) ar gael. Am hynny, disgwylir i PaCE weithio ochr yn ochr â CaW, ond heb orgyffwrdd na chystadlu â'r rhaglen honno.

2.4 Disgwylir i PaCE gydategu rhaglenni dan arweiniad awdurdodau lleol hefyd, fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, er mwyn darparu gwasanaeth integredig a di-dor ar gyfer darpar-gleientiaid. Dylid nodi, fodd bynnag, bod Dechrau'n Deg yn gweithredu’n bennaf yn yr ardaloedd lle'r oedd Cymunedau yn Gyntaf[4] yn arfer gweithredu, sy'n cael eu gwasanaethu gan CaW yn hytrach na PaCE erbyn hyn.

2.5 Er nad oes disgwyl i awdurdodau lleol wneud unrhyw gyfraniad ariannol at PaCE, mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) safonol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod gofyn iddynt ddarparu 'cymorth' mewn perthynas â:

- darparu cyfleusterau desg addas mewn canolfannau yn y gymuned, a hynny'n ddelfrydol ochr yn ochr â staff Dechrau'n Deg neu Deuluoedd yn Gyntaf[5]
- hyrwyddo PaCE, a gwelir staff Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fel 'ffynonellau cyfeirio allweddol' yn hynny o beth
- helpu cynghorwyr PaCE i ymgyfarwyddo a deall y ddarpariaeth gofal plant yn lleol
- cyfarfod â staff Llywodraeth Cymru a DWP i adolygu cyflawniad a chyflunio'r ddarpariaeth
- cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data[6].

[3] Ymyrraeth wirfoddol yw'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd. Fe’i dyluniwyd i helpu pobl ddi-waith tymor hir, yn ogystal â'r bobl hynny ag anabledd neu anhwylder iechyd, i ddod o hyd i gyflogaeth a'i chynnal. Lansiwyd y Rhaglen Gwaith ac Iechyd yn Rhagfyr 2017.

[4] Cymunedau yn Gyntaf oedd prif raglen Llywodraeth Cymru i drechu tlodi rhwng 2001 a Mawrth 2018. Roedd yn canolbwyntio ar y 52 ardal mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn ôl y Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru).

[5] Mae Dechrau'n Deg yn gweithredu mewn ardaloedd CaW yn bennaf, ac mae'n debygol o fod yn ffynhonnell cyfeiriadau llai pwysig nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

[6] Memorandwm Dealltwriaeth Safonol

2.6 Y bwriad yw y bydd y 'trefniadau cydweithio agos' â thimau cymorth i deuluoedd lleol yn golygu y bydd ‘rhieni’n gweld [cynghorwyr PaCE] fel rhan o dîm cymunedol' a bod atgyfeiriadau PaCE yn dod yn 'rhan o'r gwasanaeth cymorth i deuluoedd integredig'[7].

2.7 Lansiwyd PaCE mewn tair ardal awdurdod lleol yn wreiddiol cyn ehangu’r rhaglen ar draws Cymru fesul tipyn. Nid yw'r rhaglen yn rhedeg yn ardaloedd dau awdurdod lleol, sef Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, am fod CaW eisoes yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o'r wardiau yn yr ardaloedd hynny. Mae unigolion sy'n byw y tu hwnt i'r wardiau CaW yn yr ardaloedd awdurdod lleol hynny'n gallu manteisio ar y gwasanaethau PaCE sy’n cael eu darparu gan gynghorwyr sy’n gweithio mewn ardaloedd awdurdod lleol cyfagos.

2.8 DWP sy'n cyflogi’r cyfanswm o 43 o gynghorwyr PaCE a aseiniwyd yn benodol i'r rhaglen, gydag uchafswm o dri chynghorydd cyfateb ag amser llawn ym mhob ardal awdurdod lleol[8]. Pennwyd nifer y cynghorwyr i'w dyrannu i bob ardal trwy gymryd cyfuniad o ffactorau i ystyriaeth, fel cyfraddau anweithgarwch economaidd lleol, nifer y rhieni unigol sy'n byw yn yr ardaloedd, daearyddiaeth a phellteroedd teithio (a bennir yn seiliedig ar faint yr ardal o dan sylw).

2.9 Mae cynghorwyr PaCE yn adrodd i wyth rheolwr cyflawni (neu bedwar a hanner cyfateb ag amser llawn), sydd yng nghyflogaeth DWP hefyd. Mae gweithrediad pob dydd y rhaglen yn cael ei oruchwylio gan dîm o dri rheolwr cyfrif a gyflogir gan Lywodraeth Cymru ac un uwch reolwr gweithredol, eto o Lywodraeth Cymru. Mae uwch reolwyr o fewn DWP a Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo gweithrediad y rhaglen ac yn cyflawni swyddogaethau gweithredol a chyllid.

**Cyfranogwyr targed PaCE**

2.10 Nod PaCE yw darparu cymorth wedi ei deilwra ar gyfer rhieni sydd allan o waith sy'n teimlo taw gofal plant yw'r prif rwystr sy’n eu hatal rhag cyrchu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Yn fwy penodol, mae PaCE y targedu

[7] Cynllun Busnes GCaC B1, Atodiad 4: Siwrnai’r Cyfranogwyr PaCE, t.2

[8] Canllawiau Gweithredol, (2016) t.5

rhieni economaidd anweithgar dros 25 oed a rhieni ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt yn cymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET).

2.11 Rhagwelwyd y byddai tua 70 y cant o gyfranogwyr PaCE yn unig rieni, y byddai 20 y cant yn rhieni o aelwydydd dau riant lle mae'r naill a'r llall heb waith (a lle nad yw un rhiant yn gallu gofalu am y plant), a 10 y cant o aelwydydd dau riant ag un ohonynt yn gweithio, gyda PaCE yn helpu'r partner nad yw'n gweithio[9].

2.12 Eglurhawyd y meini prawf cymhwyster ar gyfer PaCE wrth baratoi ar gyfer cyflwyniad y Credyd Cynhwysol[10] (a'r anawsterau posibl a allai ddod yn sgil hynny). Ystyrir bod unigolion yn gymwys ar gyfer cymorth PaCE os:

1. mai gofal plant yw'r prif rwystr sy'n eu hatal rhag cyrchu cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (addasrwydd)
2. nad ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth
3. nad ydynt yn byw mewn ardal â chod post Cymunedau am Waith
4. na fydd cymryd rhan yn PaCE yn effeithio ar eu hawl i unrhyw fudd-dal
5. ydynt yn 25 oed neu'n hŷn ar y diwrnod cofrestru (Blaenoriaeth 1)
6. ydynt rhwng 16 a 24 oed ar y diwrnod cofrestru (Blaenoriaeth 3)[11].

2.13 Mae Atodiad 4 i Gynllun Busnes Blaenoriaeth 1 (B1) PaCE yn nodi'r 'rhwystrau cymhleth' ychwanegol hyn i gyflogaeth y disgwylir i rai o'r cyfranogwyr fod yn eu hwynebu:

- diffyg hyder yn DWP, ofn cysylltu â nhw am eu bod yn ofni colli budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag Incwm
- diffyg neu brinder sgiliau i fentro i'r farchnad lafur
- diffyg cymhelliant a dyheadau
- rhwystrau ariannol
- rhwystrau posibl i gynnal cyflogaeth e.e. chwalfa trefniadau gofal plant, problemau cludiant, diffyg sgiliau ariannol, agweddau cyflogwyr, a diffyg polisïau i gynorthwyo teuluoedd[12].

---

[9] Y fanyleb ymchwil, t.10
[10] Budd-dal lles yw'r Credyd Cynhwysol i gynorthwyo pobl sydd heb waith a'r rhai sydd mewn gwaith, ond ar incwm isel. Mae'n cymryd lle chwe math o fudd-dal lles a oedd yn arfer bod ar gael.
[11] Cyfarfod y Bwrdd Strategol, Chwefror 2018: Eitem 6b ar yr Agenda – Diweddariad PaCE , t.4

2.14 Y bwriad yw, trwy gymorth dwys a ddarperir gan gynghorwyr PaCE, y caiff rieni'r cymorth sydd ei hangen arnynt i gyrchu gofal plant a fydd, yn ei dro, yn eu galluogi i fanteisio ar opsiynau o ran hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r Cynllun Busnes yn nodi'n glir y bydd lefel a hyd y cymorth y bydd ei angen ar gyfranogwyr unigol yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol[13].

2.15 Y bwriad hefyd yw y bydd PaCE yn mynd i'r afael â themâu trawsbynciol yr ESF sef cyfleoedd cyfartal a prif-ffrydio rhywiol; datblygu cynaliadwy; a threchu tlodi a dieithrwch cymdeithasol. Er enghraifft, y bwriad yw y bydd PaCE:

- yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo arferion gwaith sy'n cynorthwyo teuluoedd ar gyfer dynion a menywod
- yn sicrhau bod gan gyflogwyr sy'n gysylltiedig â PaCE bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth
- yn cyfeirio cyflogwyr sydd heb bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth am gymorth
- yn annog cyflogwyr i osgoi rhagdybiaethau ystrydebol yn eu gofynion[14].

2.16 Nododd y canllawiau Interim ar ddarpariaeth hyfforddiant PaCE 'bydd angen i gynghorwyr helpu cyfranogwyr i ddeall sefyllfa'r farchnad lafur leol wrth ystyried amcanion o ran swyddi, ac annog cyfranogwyr i ystyried galwedigaethau a allai helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau. Er enghraifft, mae llai o ddynion yn gweithio yn y sector gofal plant, a llai o fenywod yn gweithio yn y diwydiant adeiladu'[15].

**Y theori newid sylfaenol a'r model cyflawni a fwriadwyd**

2.17 Y bwriad yw y caiff cyfranogwyr eu cyfeirio at PaCE trwy amrywiaeth o sefydliadau neu fentrau, fel Teuluoedd yn Gyntaf, Cychwyn Cadarn, swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith (JCP), llyfrgelloedd a grwpiau'r trydydd sector/cymunedol. Mae yna ddisgwyliad hefyd y bydd cynghorwyr PaCE yn

[12] Cynllun Busmes GCaC B1, Atodiad 4: Siwrnai Cyfranogwyr PaCE, t.1
[13] Ibid, t.2
[14] Y fanyleb ymchwil, t.10
[15] Canllawiau Gweithredol (2016) t.34

mynd ati'n ymarferol i geisio hyrwyddo'r rhaglen a chysylltu darpar gleientiaid[16].

2.18 Y cynghorwyr sydd wrth galon PaCE a'u nod yw darparu gwasanaeth di-dor trwy:

- fod mewn lleoliadau yn y gymuned sy'n hwylus i'r cyfranogwyr targed eu cyrraed
- meithrin perthnasau gwaith da â gweithwyr allweddol, gan gynnwys y rhai yn y timau cymorth i deuluoedd, a rhaglenni fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf er mwyn sicrhau bod proses gyfeirio ddidrafferth ar waith
- gweithio gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn deall y dirwedd gofal plant yn lleol a sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu cyrchu cyngor ar ofal plant
- gweithio gyda chyfranogwyr i ddod i 'ddiagnosis' am eu sefyllfaoedd, penderfynu sut i fynd i'r afael ag anghenion a rhwystrau i gyflogaeth a chytuno ar Gynlluniau Gweithredu Unigol gyda'r cyfranogwyr[17]
- pennu cwmpas a dod o hyd i 'atebion i oresgyn rhwystrau i ofal plant yn ôl anghenion unigol y rhiant a'u plentyn'[18]
- dod o hyd i a/neu ddarparu cymorth cyflogaeth, gan gynnwys dod o hyd i brofiad gwaith, cyfloedd i wirfoddoli, helpu gyda sgiliau chwilio am waith, diweddaru CVs, helpu cyfranogwyr i wella eu technegau cyfweliad a darparu 'broceriaeth cyflogaeth'[19]
- darparu 'cyngor ar fudd-daliadau yn y gwaith ac allan o waith a hawl i'r Credyd Cynhwysol trwy "Gyfrifiadau Gwell eich Byd", gan gynnwys yr hawl i gymorth gyda chostau gofal plant wrth gychwyn cyflogaeth'[20]
- helpu pobl nad ydynt yn barod am waith i gael hyfforddiant perthnasol, naill ai o ffynonellau'r brif ffrwd neu trwy wasanaeth a gaffaelir trwy Lywodraeth Cymru

[16] Ibid, t.9
[17] Canllawiau Gweithredol, (2016) t.6
[18] Ibid
[19] Ibid
[20] Ibid

- mentora cyfranogwyr sy'n cyflawni profiad gwaith neu hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn aros ar y trywydd iawn i gyflawni'r amcanion a bennwyd.

2.19 Fel y nodwyd eisoes, bwriedir i PaCE gydategu Rhaglen Gwaith ac Iechyd DWP trwy ddarparu rhagor o gymorth manwl wedi ei deilwra ar gyfer y bobl hynny y mae gofal plant yn rhwystr arwyddocaol i waith iddynt, a hynny er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau o ran gofal plant a mynd i'r afael â materion eraill a allai eu hatal rhag symud i mewn i waith.

2.20 Gall cyfranogwyr gyrchu 'cymorth ariannol i dalu cost gofal plant unrhyw blant dibynnol' wrth iddynt gyflawni 'gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith i'w symud yn agosach at y farchnad lafur'. Yn ogystal, ‘am gyfnod cyfyngedig o hyd at bythefnos ar ôl iddynt gychwyn gwaith (gan gynnwys hunangyflogaeth)’ gallant gael cymorth i dalu am ofal plant, ‘lle nad oes unrhyw ffynonellau cyllid eraill ar gael’[21].

2.21 Fodd bynnag, ni fwriedir i’r cynghorwyr PaCE ddylanwadu ar ddewisiadau gofal plant y cyfranogwyr[22], er eu bod yn gallu defnyddio eu gwybodaeth am y ddarpariaeth gofal plant lleol i helpu rhieni i ddod o hyd i ddarpariaeth briodol, yn ogystal â chyfeirio cyfranogwyr at Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yr Awdurdod Lleol i gael cymorth i wneud hyn yn ôl yr angen.

2.22 Gall cyfranogwyr gyrchu rhaglenni hyfforddiant hyblyg sy'n bodoli eisoes sy'n cael eu darparu'n lleol trwy ffynonellau'r brif ffrwd a ffynonellau eraill e.e. colegau lleol neu gymdeithasau tai. Yn ogystal, lle nad oes dim byd priodol ar gael trwy ffynonellau o'r fath, gall cynghorwyr ofyn am raglenni hyfforddiant sy'n cael eu caffael a'u rheoli'n ganolog, a'u darparu gan ddarparydd sydd ar gadw gan Lywodraeth Cymru yn unswydd i ddarparu hyfforddiant ar gyfer cyfranogwyr CaW a PaCE.

2.23 Mae cronfa rwystrau ar gael i helpu cyfranogwyr i oresgyn y rhwystrau olaf i gyflogaeth, trwy eu galluogi i brynu pethau fel dillad i'w gwisgo i gyfweliad neu offer i ddechrau gweithio, neu i dalu costau teithio neu gostau eraill fel cost sefyll profion/ennill trwyddedau lle nad oes angen hyfforddiant. Ffynhonnell

[21] Canllawiau Gweithredol, t. 30


[22] Ibid, t.31

pan fetho popeth arall yw'r gronfa rwystrau a dim ond pan nad oes unrhyw ffynhonnell bosibl arall e.e. Cronfa Cymorth Hyblyg (FSF) y Ganolfan Waith, ar gael y gellir ei chyrchu.

2.24 Mae'r cyfranogwr wedi cwblhau'r rhaglen pan fydd wedi cychwyn cyflogaeth, cychwyn addysg amser-llawn, neu pan fydd yn penderfynu nad yw'n dymuno cymryd rhan mwyach. Mae yna opsiwn hefyd i gynghorwyr derfynu rhaglen y cyfranogwr, er enghraifft os ystyrir bod y rhwystrau'n rhy fawr i'w goresgyn o fewn cymorth PaCE. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofynion penodol o ran am ba hyd y gall cynghorwyr weithio gyda'r cyfranogwyr: yn hytrach anghenion yr unigolyn a'i barodrwydd i gysylltu'n adeiladol sy'n bwydo hyn.

2.25 Nod Ffigur 2.1 yw darlunio'r siwrnai y disgwylir i gyfranogwyr ei dilyn i mewn i, a thrwy PaCE fel rheol.

**Ffigut 2.1: Y model cyflawni a fwriadwyd ar gyfer PaCE**



## Targedau a chyllidebau'r rhaglen

2.26 Lansiwyd PaCE ym mis Gorffennaf 2015, a’r bwriad oedd y byddai’n rhedeg tan o leiaf Mawrth 2018. Ers hynny, fodd bynnag, mae'r rhaglen wedi cael ei hymestyn er mwyn darparu’r gwasanaethau tan Fawrth 2020.

2.27 Ar y cychwyn, cyfranogwyr dros 25 oed yn unig oedd yn cael eu targedu gan PaCE (o dan Flaenoriaeth 1), ond o Ebrill 2016 ymlaen, ymestynnwyd y rhaglen i wasanaethu rhieni ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET) hefyd (o dan Flaenoriaeth 3).

2.28 Mae Tablau 2.1 a 2.2 yn crynhoi'r targedau deilliant sylfaenol a gymeradwywyd ar gyfer Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 yn y drefn honno dros oes pum mlynedd y rhaglen. Mae’r targedau gwreiddiol a'r rhai diwygiedig yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

Tabl 2.1: Targedau Deilliant Sylfaenol Diwygiedig Blaenoriaeth 1 2015-2020

| Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 1 | | Dwyrain Cymru[23] 2015-20 | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd[24] 2015-20 | Cymru Gyfan 2015-20 |
|---|---|---|---|---|
| **Pobl Economaidd Anweithgar** (dros 25 oed), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant lle gofal plant yw eu prif rwystr i gyflogaeth. | | | | |
| 1 | Cyfranogwyr | 2,457 | 4,309 | 6,766 |
| 2 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth ymadael | 491 | 862 | 1,353 |
| 3 | Deiliant: chwilio'n ymarferol am waith wrth ymadael | 614 | 1,077 | 1,691 |
| 4 | Deilliant: ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith wrth ymadael | 614 | 1,077 | 1,691 |
| 5 | Deilliant: cynyddu cyflogadwyedd trwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli | 737 | 1,293 | 2,030 |

[23] Daw'r ffigurau hyn o'r fanyleb ymchwil, t.12: Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer DC ychydig bach yn wahanol i'r rhai a nodwyd yn y Cynlluniau Busnes - Amcanestyniadau Cyflawni

[24] Daw'r ffigurau hyn o'r fanyleb ymchwil, t.12: Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer GCaC ychydig bach yn wahanol o'r rhai a nodwyd yn y Cynlluniau Busnes - Amcanestyniadau Cyflawni

Tabl 2.2: Targedau Deilliant Sylfaenol Diwygiedig Blaenoriaeth 3 2015-20

| Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 3 | | **Dwyrain Cymru** | **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | **Cymru Gyfan** |
|---|---|---|---|---|
| Pobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET | | | | |
| 1 | Cyfranogwyr | 567 | 945 | 1,512 |
| 2 | Deilliant: ennill cymwysterau wrth ymadael | 142 | 236 | 378 |
| 3 | Deilliant: mewn addysg neu hyfforddiant wrth ymadael | 170 | 284 | 454 |
| 4 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth wrth ymadael | 113 | 189 | 302 |

2.29 Mae'r tablau'n dangos bod disgwyl i 20 y cant o'r cyfranogwyr dros 25 oed gychwyn cyflogaeth neu hunangyflogaeth wrth ymadael â PaCE.

2.30 Disgwylir i ryw 20 y cant o'r cyfranogwyr 16-24 oed sy'n NEET gychwyn cyflogaeth ar ôl ymadael hefyd. Yn ogystal, disgwylir i 30 y cant o'r holl bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant.

2.31 Mae Tablau 2.3 a 2.4 yn pennu'r cyllidebau a gymeradwywyd ar gyfer Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 yn y drefn honno dros oes rhaglen PaCE.

Tabl 2.3: Costau a Ffynonellau Cyllid Diwygiedig Blaenoriaeth 1 2015-20

| Blaenoriaeth 1 | Dwyrain Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| Costau | | | |
| Costau gofal plant | £759,553 | £1,032,159 | £1,791,712 |
| Cyfanswm y costau gweithredu | £4,074,421 | £6,709,701 | £10,784,122 |
| Ffynhonnell y cyllid | | | |
| Llywodraeth Cymru | £2,037,210 | £4,815,280 | £6,852,490 |
| ESF | £2,037,210 | £1,975,421 | £4,012,631 |
| Cyfradd Ymyrraeth yr ESF | 50% | 29% | 37% |

Tabl 2.4: Costau a Ffynonellau Cyllid Diwygiedig Blaenoriaeth 3 2015-20

| Blaenoriaeth 3 | Dwyrain Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| Costau | | | |
| Costau gofal plant | £259,964 | £482,800 | £742,764 |
| Cyfanswm y costau gweithredu | £950,698 | £1,765,582 | £2,716,280 |
| Ffynhonnell y cyllid | | | |
| Llywodraeth Cymru | £475,349 | £1,253,564 | £1,728,913 |
| ESF | £475,349 | £512,018 | £987,368 |
| Cyfradd Ymyrraeth yr ESF | 50% | 29% | 36% |

2.32 Bu modd ymestyn PaCE hyd 2020 o fewn y gyllideb wreiddiol oherwydd lefel sylweddol o danwariant ar ofal plant yn ystod misoedd cynnar y rhaglen.

2.33 Er y bydd PaCE, ar ei ffurf bresennol, yn rhedeg tan 2020, mae Llywodraeth Cymru’n datblygu cynigion i ymestyn y rhaglen tan 2023, a fydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidogion a WEFO.

**Crynodeb o'r Bennod**

Rhaglen Llywodraeth Cymru yw PaCE a'i nod yw mynd i'r afael â thlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy. Fe'i darperir mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, a bwriedir iddo gydategu rhaglenni awdurdodau lleol i gynorthwyo teuluoedd. Mae PaCE yn cael ei ariannu'n rhannol trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Nod PaCE yw darparu cymorth unigol i rieni sydd allan o waith sy'n ystyried taw gofal plant yw'r prif rwystr sy'n eu hatal rhag cyrchu cyfleoedd cyflogaeth a/neu hyfforddiant. Trwy'r cymorth dwys y mae 43 o gynghorwyr PaCE yn ei ddarparu ar draws 20 ardal awdurdod lleol, y bwriad yw y caiff rieni'r cymorth sydd ei hangen arnynt i gyrchu gofal plant a fydd yn galluogi iddynt fanteisio ar opsiynau hyfforddiant a chyflogaeth. Y bwriad hefyd yw y bydd PaCE yn mynd i'r afael â themâu trawsbynciol ym maes cyfleoedd cyfartal a prif-ffrydio rhywiol; datblygu cynaliadwy; a threchu tlodi a dieithrwch cymdeithasol.

Y bwriad yw y caiff cyfranogwyr eu cyfeirio at PaCE trwy amrywiaeth o sefydliadau, ac y bydd cymorth y cynghorwyr yn integreiddio'n ddi-dor i wasanaethau cymorth ehangach ym maes teuluoedd a chyflogaeth.  Mae disgwyl i'r cynghorwyr asesu sefyllfaoedd cyfranogwyr, helpu i ddod o hyd i atebion i'r rhwystrau sy'n eu hwynebu o ran gofal plant, helpu'r bobl hynny nad ydynt yn barod ar gyfer gwaith i ddod o hyd i ffyrdd o ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith, darparu cymorth i chwilio am swyddi a chynghori cyfranogwyr am y budd-daliadau sydd ar gael iddynt yn y gwaith ac allan o waith.

Gall cyfranogwyr gyrchu rhaglenni hyfforddiant y brif ffrwd, neu lle nad oes dim byd priodol ar gael yn lleol, gall y cynghorwyr ofyn am iddynt ddilyn rhaglenni hyfforddi a ddarperir gan ddarparydd sydd ar gadw gyda Llywodraeth Cymru. Gall PaCE dalu costau gofal plant tra bod y cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i'w paratoi ar gyfer y byd gwaith, ac ar gyfer pythefnos cyntaf y cyfranogwyr yn y gwaith. Mewn achosion eithriadol, gall hefyd dalu costau eraill a allai atal cyfranogwyr rhag cymryd y cam olaf i mewn i gyflogaeth neu hyfforddiant.

Lansiwyd PaCE ym mis Gorffennaf 2015 a bydd yn rhedeg tan Fawrth 2020. Dros gyfnod o bum mlynedd, disgwylir i PaCE gynorthwyo 8,278 o unigolion, ac mae ganddo gyfanswm cyllideb o ryw £13.5 miliwn.

## 3. Datblygiadau Polisi sy'n effeithio ar PaCE

### Cyflwyniad

3.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried canfyddiadau gwaith ymchwil a datblygiadau polisi sy'n berthnasol i PaCE ers cyhoeddi adroddiad Gwerthuso Prosesau 2016, a bennodd y cyd-destun ar gyfer y rhaglen a'r Theori Newid sy'n sail iddi. Nid yw'r newidiadau polisi hyn wedi effeithio ar PaCE hyd yn hyn, ond maent yn newidiadau pwysig i'r cyd-destun ar gyfer darparu'r rhaglen yn y dyfodol. Cyflwynir y bennod hon mewn pedair adran fel a ganlyn:

- Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru
- Y Cynnig Gofal Plant
- Adolygiad o Gapasiti Gofal Plant yng Nghymru
- Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru

### Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru (2018)

3.2 Yn Ebrill 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Gynllun Cyflogadwyedd â gweledigaeth i wneud 'Cymru'n economi uwch-dechnoleg â chyflogaeth lawn a chyflogau uchel'. Disgrifir y cynllun fel blaenoriaeth i'r Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu gydol Oes ei chyflawni, ac mae'n pennu cynllun gweithredu deg mlynedd sy'n cynnig 'fframwaith cenedlaethol sy'n pennu cyfeiriad a safonau' gyda 'chyfres o nodau ymestynnol ac uchelgeisiol sy'n ymwneud â diweithdra, anweithgarwch economaidd a lefelau sgiliau'.

3.3 Er bod y gyfradd ddiweithdra yn uchel yng Nghymru, ac er bod rhaglenni cyflogadwyedd blaenorol wedi llwyddo yn nhermau beth roeddent yn ceisio ei gyflawni, mae'r Cynllun yn cydnabod bod yna amrywiadau daearyddol sy'n effeithio ar y cyfleoedd sydd ar gael o hyd, ac yn y cymoedd a chymunedau gwledig yn arbennig. Yn yr un modd, mae deilliannau rhai grwpiau, gan gynnwys menywod, grwpiau ethnig a phobl anabl, yn parhau i fod yn wannach o ran y farchnad lafur, ac mae'r bwlch cyflog sylweddol rhwng y rhywiau yn dal i fod yn broblem[25].

[25] Llywodraeth Cymru (2018), Cynllun Cyflogadwyedd, t.9

3.4 Sialens allweddol y mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn ceisio mynd i'r afael â hi yw tlodi mewn gwaith, sy’n aml o ganlyniad i dangyflogaeth neu swyddi tymor byr, ansicr â chyflogau isel. Mae'r cynllun yn cydnabod bod 'angen i Gymru wella ansawdd y gwaith sydd ar gael, a sicrhau bod cyfleoedd i bobl ddatblygu yn eu gwaith'[26]. Mae'r cynllun yn diffinio 'cyflogadwyedd' fel 'gallu neu addasrwydd unigolion ar gyfer gwaith' ac mae'n pwysleisio'r angen am sicrhau bod amgylchiadau unigolion a rhwystrau rhag cael gwaith yn cael eu hystyried hefyd, ac mae hyn yn cynnwys argaeledd gofal plant o safon uchel[27].

3.5 Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd wedi ei strwythuro o gylch pedair thema allweddol:

- darparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra i'r unigolyn
- pwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithwyr, cefnogi eu staff a darparu gwaith teg
- ymateb i'r bylchau sy’n bodoli o ran sgiliau a'r rhai a ragwelir
- paratoi ar gyfer newid sylfaenol yn y byd gwaith[28].

3.6 Mae'r thema gyntaf o berthnasedd uniongyrchol i'r rhaglen PaCE, ac mae'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu atebion sydd wedi eu teilwra'n benodol, ac â gwahanol lefelau o ddwyster ar gyfer y bobl hynny sydd â'r angen fwyaf[29]. Mae'r adran yma o'r Cynllun Cyflogadwyedd yn trafod sut y mae Llywodraeth Cymru am gynorthwyo pobl nad ydynt yn gweithio ‘gan roi pwyslais arbennig ar y rhai sy'n economaidd anweithgar ac sy'n llai tebygol o ddod i gysylltiad â chymorth cyflogaeth y brif ffrwd’[30].

3.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Porth Cyngor Cyflogaeth a fydd yn gallu cynnig cyngor ac arweiniad yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer pobl yng Nghymru. Bydd y Porth yn gweithredu fel 'brocer annibynnol' ar gyfer y

[26] Ibid, t.9
[27] Ibid, t.10
[28] Ibid., t.11
[29] Ibid., t.11
[30] Ibid., t.13

gwahanol ymyraethau a gwasanaethau sydd ar gael. Disgwylir lansio'r Porth yn Chwefror 2019[31].

3.8 Bwriedir i fenter cymorth cyflogaeth newydd Llywodraeth Cymru 'Cymru'n Gweithio' gychwyn yn Ebrill 2019 a'i nod fydd cynorthwyo pobl sy'n ddi-waith, yn economaidd anweithgar ac unigolion dros 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 'i gael gwaith parhaus, prentisiaeth neu hunangyflogaeth'. Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn pwysleisio pwysigrwydd cyfraniad Cymru'n Gweithio at y nod o 'gael gwared ar y bwlch rhwng cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd cyfartalog Cymru a'r DU ymhen 10 mlynedd'[32]. Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn amlinellu hefyd y bwriad i 'ddatblygu a gwella ymhellach' y dull o gynnig 'allgymorth cymunedol wedi ei deilwra, gan gefnogi'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur'[33]. Mae'r ddogfen yn enwi PaCE fel rhaglen allweddol yn y strwythur cymorth newydd hon, am ei bod yn gweithio ochr yn ochr â'r ddarpariaeth gofal plant. Mae'r cynllun yn disgrifio'r 'ymrwymiad parhaus yma i gynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio â'u gofal plant' fel ffordd o'i gwneud yn 'haws i rieni gychwyn swyddi cynaliadwy, a chynyddu eu hopsiynau o ran cyflogaeth'.

3.9 Mae'r cynllun yn amlinellu bwriad Llywodraeth Cymru i gyflawni adolygiad o gydraddoldeb Cymru'n Gweithio, PaCE a CaW er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon ymatebol i anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig.

3.10 Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn cydnabod y manteision cadarnhaol sy'n deillio o gydleoli gwasanaethau, sy'n gyson iawn â'r ethos a fwriedir ar gyfer y rhaglen PaCE, ac mae'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo cydleoli gwasanaethau lleol er mwyn symleiddio mynediad at gymorth cyflogadwyedd a sbarduno croesgyfeirio mwy effeithlon ar draws Gyrfa Cymru, Busnes Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith[34]. Yn yr un modd, mae'r cynllun yn clustnodi manteision cyd-leoli ag amrywiaeth o wasanaethau iechyd lleol er mwyn hybu cyflogaeth fel canlyniad clinigol cadarnhaol. Yn y cyswllt hwn, nod y cynllun yw hybu cyd-leoli gwasanaethau gofal sylfaenol a

---

[31] Datganiad Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Adroddiad ar Gynnydd y Cynllun Cyflogadwyedd - [cyrchwyd 19 Medi 2018]

[32] Ibid, t.4

[33] Ibid, t.4

[34] Ibid, t.17

chymunedol lle bo’r 'cyfleusterau’n addas at y diben ac yn briodol ar gyfer yr angen yn lleol'[35].

3.11 Mae'n amlinellu hefyd gynlluniau i ddarparu cymorth cyflogadwyedd lleol a rhanbarthol mewn ffordd fwy holistig, trwy gydlynu a monitro gweithgarwch amryw o bartneriaid sy'n darparu rhaglenni mewn ardal benodol fel bod y 'gwaith i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a diweithdra ... [yn] lleihau dyblygu gwaith ... [ac yn] dysgu o arfer gorau’[36].

**Y Cynnig Gofal Plant**

3.12 Yn ei gynllun strategol pum mlynedd ar gyfer 2016-21, *Symud Cymru Ymlaen*, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o ddarpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi ei ariannu gan y llywodraeth ar gyfer rhieni plant tair a phedair oed am hyd at 48 awr yr wythnos. Amcangyfrifir y bydd rhyw 40,000 o blant yn gymwys ar gyfer y cynnig ar draws Cymru bob blwyddyn. Y Cynnig Gofal Plant yw’r enw ar hyn. Bydd y cynnig hwn yn adeiladu ar hawl cyffredinol cyfredol pob plentyn tair a phedair oed i o leiaf 10 awr o addysg yr wythnos yn ystod y tymor ysgol am 39 wythnos y flwyddyn yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen.

3.13 Ym mis Medi 2017, dechreuodd saith awdurdod lleol[37], y cyfeirir atynt fel Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar (EILAs)[38] gynllun peilot y Cynnig Gofal Plant, gyda chronfa o £10m. Cyflwynwyd y Cynnig dros saith awdurdod lleol pellach ym mis Medi 2018[39], ac mae ehangiad pellach ar y gweill ar gyfer 2019[40]. I gynorthwyo'r ehangiad, mae cyllideb Llywodraeth Cymru'n cynnwys £25m ar gyfer 2018-19 a £40m ar gyfer 2019-20. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant a rhanddeiliaid eraill yn anelu at cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yn llwyr tua 2020.

[35] Ibid, t.17

[36] Ibid, t.4

[37] Y saith awdurdod lleol yw: Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, CBS Caerffili, CBS Blaenau Gwent, Cyngor Sir y Fflint a wardiau dethol yn CBS Rhondda Cynon Taf a Chyngor Abertawe.

[38] Yn rhan o’r astudiaeth, cyflawnwyd gwaith maes manwl mewn tri o'r ardaloedd awdurdod lleol yma: Gwynedd, Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf

[39] Wardiau dethol yng Nghyngor Caerdydd, Cyngor Casnewydd, CBS Castell-nedd Port Talbot, CBS Conwy, Cyngor Wrecsam a gweddill wardiau Cyngor Abertawe.

[40] Ceir rhagor o wybodaeth am y cynlluniau cyflwyno ar gyfer 2019 yn Natganiad Ysgrifenedig y Gweinidog:

3.14 Yn ogystal â pharhau i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant, yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhaglen grant cyfalaf baralel £60m dros y tair blynedd nesaf. Bydd y rhaglen grant yma'n galluogi Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth agos â'r awdurdodau lleol i 'sicrhau bod darpariaeth bresennol y Cyfnod Sylfaen a darpariaeth newydd y Cynnig Gofal Plant ar gael ar un safle, lle bynnag y bo'n bosibl'[41] fel bod digon o ofal plant ar gael yn yr ardaloedd lle mae angen. Bydd y rhaglen grant cyfalaf yn cynorthwyo datblygiad darpariaeth newydd yn yr ardaloedd hynny lle nad oes digon o wasanaethau gofal plant ar hyn o bryd hefyd, gyda ffocws arbennig ar ardaloedd gwledig a difreintiedig.

3.15 Hyd yn hyn, mae'r EILAs wedi cael dros 6,900 o geisiadau ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig, gyda dros 4,100 o blant yn derbyn gofal plant wedi ei ariannu. Cydnabyddir bod rhaglenni ar sail galw fel hyn yn cymryd amser i fwrw gwreiddiau, ac nid oes yna unrhyw dargedau defnydd penodol, ac ni ddisgwylir i'r holl rieni cymwys wneud cais.

3.16 Comisiynwyd gwerthusiad annibynnol o weithrediad cynnar y Cynnig Gofal plant a bydd yn adrodd yn Nhachwedd 2018. Mae'r gwerthusiad yn ystyried effeithlonrwydd gweithrediad y Cynnig, effaith y Cynnig ar gyflogadwyedd, lles ac incwm gwario pobl, ac effaith yr ymyrraeth gofal plant ar y sector gofal plant ei hun.

**Adolygiad o Gapasiti Gofal Plant yng Nghymru (2017)**

3.17 Mae'r adroddiad ar Gapasiti Gofal Plant yng Nghymru'n mapio'r cyflenwad o ofal plant sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd yn erbyn y galw posibl a ragwelir at y dyfodol, gan gymryd effaith y Cynnig Gofal Plant newydd i ystyriaeth yn benodol.

3.18 Mae'r adroddiad yn nodi’r anawsterau sydd ynghlwm wrth amcangyfrif y galw am ofal plant ac mae'n awgrymu hwyrach fod nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at y ffaith fod llai o ddarpariaeth gofal plant ar gael mewn rhai ardaloedd a bod angen cyflawni gwaith ymchwil pellach i ddeall ymddygiad rhieni er mwyn cael

[41] Datganiad Ysgrifenedig - Y Cynnig Gofal Plant – Blwyddyn wedi mynd heibio, a'r gwaith o gyflwyno'r cynnig yn cyflymu [cyrchwyd 29 Hydref 2018]

dealltwriaeth gliriach o'r gwir alw sy’n bodoli am ofal plant ffurfiol. Er hyn, mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod ychydig yn llai nag 80,000 lle gofal plant ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, a 45,000 o’r rhain yn lleoedd diwrnod llawn, ond mae tua 175,000 o blant o dan bedair oed yn byw yng Nghymru[42]. Mae'r adroddiad yn cwestiynu felly a oes yna ddigon o leoedd ar gael i ddarparu'n Cynnig Gofal plant yn ddigonol ar hyn o bryd.

3.19 Yn ei argymhellion, mae'n nodi bod y sector gofal plant wedi cael statws sector blaenoriaeth yn rhan o Gynllun Gweithlu Cymru, ac mae'n awgrymu y dylid targedu'r ardaloedd lle mae capasiti cyfyngedig o ran gofal plant â phecyn cymorth cyflogadwyedd a chymorth busnes. Ddiwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar, a oedd yn ymateb i'r argymhelliad hwn ac yn darparu cymorth ariannol[43] i gynorthwyo darparwyr yn ardaloedd EILA y cynllun peilot Cynnig Gofal Plant, a darparwyr a oedd am gychwyn neu ehangu busnes cyfredol mewn ymateb i'r Cynnig Gofal Plant[44].

**Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru (2018)**

3.20 Yn Ionawr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r sector gofal plant yng Nghymru ac fe’i comisiynwyd i ddarparu tystiolaeth i fwydo'r Cynnig Gofal Plant arfaethedig ar gyfer plant tair a phedair oed yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cynnig trosolwg o'r sector gofal plant yng Nghymru ac yn ceisio ystyried sut y gallai datblygiadau'r dyfodol effeithio arno.

3.21 Gan edrych ar y data diweddaraf sydd ar gael am y sector, nododd yr adolygiad bod yna 4,012 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yng Nghymru. Amcangyfrifodd bod y sector gofal plant yn cyflogi mwy na 17,000 o bobl yng Nghymru, ac y gwelwyd twf mewn blynyddoedd diweddar gyda'r potensial i ehangu eto fyth. Fodd bynnag, tynnodd darparwyr gofal plant sylw at nifer o 'rwystrau a risgiau i ehangu', yn enwedig am fod y ffaith nad yw darparwyr

[42] Ibid, t.2
[43] £100,000 i gwmpasu cyfnodau 2017/18; 2018/19 a 2019/20.
[44] Datganiad Ysgrifenedig - Cynllun y gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar [cyrchwyd 18 Medi 2018]

gofal plant yn gwneud llawer o elw’n eu gadael nhw'n 'fregus yn wyneb newidiadau sydyn i’r rheoliadau ac o ran cyllid'[45].

3.22 Mae'r adolygiad yn cyfeirio hefyd at bwysigrwydd a 'gwerth' ehangach y sector gofal plant wrth gynorthwyo twf economaidd a lleihau tlodi yng Nghymru am ei fod mewn sefyllfa i alluogi niferoedd mawr o rieni i weithio. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod y rhieni hyn yn cynhyrchu £1.2 biliwn o incwm y flwyddyn i gyd.

3.23 Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn amcangyfrif hefyd bod tua 61,000 o rieni plant dibynnol yng Nghymru (tua 20 y cant o'r holl rieni) yn teimlo nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd cyfrifoldebau gofalu - boed hynny am nad oes gofal plant ffurfiol ar gael ar gyfer y nifer priodol o oriau, neu am nad yw’n fforddiadwy cael faint o ofal plant sydd ei hangen arnynt[46]. Credir bod naw allan o 10 o'r bobl y mae hyn yn effeithio arnynt yn fenywod[47].

3.24 Er bod yr adolygiad o'r Sector Gofal Plant yn cynnig trosolwg cadarn o'r sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru, mae'r adolygiad yn argymell bod angen cyflawni gwaith ymchwil pellach er mwyn llwyr ddeall sut y gallai rhai newidiadau polisi sydd ar y gweill (fel y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol, a diwygiadau trethi a lles) a'r newidiadau rheoliadol effeithio ar benderfyniadau darparwyr gofal plant. Mae'n datgan hefyd bod angen rhagor o waith ymchwil er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r nifer o bobl sy'n cael eu hatal rhag gweithio ar hyn o bryd am nad ydynt yn gallu dod o hyd i ofal plant digonol[48].

**Crynodeb o'r Bennod**

Cyhoeddwyd sawl adroddiad ymchwil a datblygiad polisi ers cyhoeddi’r Gwerthusiad o Brosesau PaCE. Er nad yw llawer o'r newidiadau polisi wedi cael eu llwyr weithredu eto, mae'n bosibl y byddant yn newid y cyd-destun ar gyfer darparu'r rhaglen PaCE yn y dyfodol.

Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru'n pennu gweledigaeth deng

[45] Llywodraeth Cymru, Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru, t.7
[46] Ibid., t.46
[47] Ibid., t.46
[48] Ibid, t.107

mlynedd â thargedau uchelgeisiol mewn perthynas â lleihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd, a chynyddu lefelau sgiliau. Un o themâu allweddol y Cynllun yw 'darparu  cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra i'r unigolyn' gydag ymrwymiad i ddatblygu atebion penodol ar gyfer y bobl hynny â'r angen fwyaf.

Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu Porth Cyngor Cyflogaeth a fydd yn gweithredu fel gwasanaeth brocera ar gyfer amryw o ymyraethau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Disgwylir i raglen gyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru 'Cymru'n Gweithio' ddod i rym yn Ebrill 2019 â'r nod o gynorthwyo unigolion sy'n ddi-waith, yn economaidd anweithgar a dros 16 oed ac yn NEET i gychwyn cyflogaeth, ac enwyd PaCE fel rhaglen allweddol o fewn y strwythur cymorth newydd yma.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o addysg gynnar a darpariaeth gofal plant wedi ei ariannu ar gyfer plant tair i bedair oed (sef y Cynnig Gofal Plant) yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd hefyd, a'r nod yw ei gyflwyno'n llwyr erbyn 2020. Ochr yn ochr â'r Cynnig Gofal Plant, bydd rhaglen grant £60m a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynorthwyo'r broses o gyd-leoli darpariaeth bresennol y Cyfnod Sylfaen â'r Cynnig Gofal Plant ar un safle, a bydd yn cynorthwyo datblygiad gwasanaethau gofal plant newydd ac yn arbennig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig lle nad oes darpariaeth ddigonol ar hyn o bryd.

Wrth wraidd datblygiad y Cynnig Gofal plant mae adolygiad diweddar o'r capasiti gofal plant yng Nghymru, a argymhellodd bod y sector gofal plant yn cael pecyn o gymorth cyflogadwyedd a busnes a fyddai’n helpu i sicrhau y bydd digon o leoedd gofal plant ar gael i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant ar draws Cymru. Cyfeiriodd adolygiad o'r sector gofal plant yng Nghymru hefyd at bwysigrwydd a gwerth y sector gofal plant wrth alluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith, gan gynorthwyo twf economaidd a lleihau tlodi.

# 4. Strwythur y Rhaglen

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r bennod hon yn tynnu ar y theori newid ac yn ystyried a yw'r 'bensaernïaeth' o gylch PaCE wedi ei strwythurofel y bwriadwyd. Cyflwynir y bennod mewn tair prif adran fel a ganlyn:

- Alinio gwasanaethau â'r ddarpariaeth cymorth i deuluoedd a chyflogadwyedd ehangach
- Hybu PaCE
- Lleoliad cynghorwyr PaCE.

## Alinio gwasanaethau â'r ddarpariaeth cymorth i deuluoedd a chyflogadwyedd ehangach

*Alinio â'r trefniadau cymorth i deuluoedd*

4.2 Cyfeiriodd y theori newid at 'bwysigrwydd darpariaeth allgymorth mewn cymunedau targed er mwyn cysylltu â grwpiau targed a deall eu hanghenion'. Cyfeiriodd at yr 'angen i gynghorwyr gydweithio'n agos â phartneriaethau allweddol, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yr Awdurdodau Lleol a sefydliadau allweddol eraill yn eu cymunedau i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth wedi'i hintegreiddio'n effeithiol, a hybu atgyfeiriadau i'r prosiect a chan y prosiect'[49].

4.3 Yn nyddiau cynnar y rhaglen, ceisiodd rheolwyr PaCE gysylltu â thimau gwasanaethau i deuluoedd ar lefel strategol, gan feithrin dealltwriaeth darpar-bartneriaid am nodau'r rhaglen a sut y byddai'n cydategu'r dirwedd gwasanaethau i deuluoedd yn lleol. Lluniwyd cytundebau lefel gwasanaeth a oedd yn pennu rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid allweddol (yn enwedig awdurdodau lleol) a oedd ynghlwm wrth ddarparu PaCE. Ers hynny, fodd bynnag, mae'r cysylltiad rhwng rheolwyr y rhaglen PaCE a phartneriaid yn yr awdurdodau lleol wedi bod yn gyfyngedig, a galwodd rhai unigolion am adborth cyfnodol ar berfformiad PaCE yn eu hardaloedd. Nododd y gwerthusiad o brosesau yn 2016 bod perthnasau rhwng cynghorwyr PaCE a'r timau Teuluoedd yn Gyntaf, y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS)

[49] Wavehill (2016) Gwerthusiad o Brosesau'r Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), t.31

a darparwyr eraill 'yn cryfhau yn y rhan fwyaf o ardaloedd'[50]. Mae'r timau PaCE wedi parhau â'u hymdrechion i feithrin eu perthnasau â seilweithiau cymorth i deuluoedd ehangach yn eu hardaloedd. Er enghraifft, mae nifer o gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd lleol Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (neu debyg) a Theuluoedd yn Gyntaf/Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) er mwyn hybu PaCE a meithrin perthynas â'r partneriaid perthnasol. Yn wir, dadleuwyd 'bo yn rhaid ddal ati i hybu['r rhaglen] o hyd' er mwyn ei chadw ar radar y partneriaid.

4.4 Fodd bynnag, mae dyfnder y perthnasau sydd wedi cael eu meithrin yn amrywio'n helaeth o un ardal awdurdod lleol i'r llall, ac mae'r lefelau rhyngweithio'n amrywio hefyd ar draws gwahanol elfennau o'r seilwaith cymorth i deuluoedd o fewn ardaloedd awdurdod lleol penodol. Ar y cyfan, mae cynghorwyr PaCE yn cydweithio'n agosach â'r timau FIS, ac yn llai felly â Theuluoedd yn Gyntaf neu Dechrau'n Deg, sy'n adlewyrchu'n rhannol y ffaith fod PaCE yn gweithredu'n bennaf y tu hwnt i'r ardaloedd Dechrau'n Deg, sef prif ardaloedd ffocws y gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Er hynny, mae'n wir dweud nad yw PaCE wedi integreiddio i'r trefniadau cymorth i deuluoedd ehangach cystal ag a ddisgwyliwyd mewn llawer o ardaloedd o hyd.

4.5 Ar lefel fwy penodol, dywedwyd bod timau PaCE yn gweithio'n dda gyda'r timau FIS mewn nifer o ardaloedd, er enghraifft gyda staff FIS a PaCE yn trefnu neu'n mynychu achlysuron gyda'i gilydd, timau FIS yn hybu'r rhaglen PaCE neu staff FIS yn darparu gwybodaeth am opsiynau gofal plant posibl ar gyfer cynghorwyr PaCE, a'r rheiny weithiau wedi eu 'teilwra ar gyfer cleientiaid', sefyllfaoedd penodol ac yn aml yn mynd i'r afael ag anghenion gofal plant cymhleth. Mewn ardaloedd eraill, roedd y rhyngweithio'n fwy cyfyngedig, er bod FIS yn dal i fod yn ffynhonnell gwybodaeth bwysig o ran opsiynau gofal plant.

4.6 Lle mae'r berthynas yn gweithio'n dda, mae yna elfen o gydgyfnewid, gyda chynghorwyr PaCE yn cyfeirio unigolion at FIS, boed hynny trwy wefannau neu dros y ffôn, ac yn hysbysu staff FIS am y bylchau y maent yn eu canfod yn y ddarpariaeth gofal plant.

[50] Wavehill (2016) Gwerthusiad o Brosesau'r Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), t.43

4.7 Mewn rhai mannau, roedd timau FIS wedi cyfangu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn wyneb pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol. Ar y cyfan, roedd hyn wedi arwain at golli staff allgymorth a chanolbwyntio ffocws y gwasanaeth ar ddarparu gwybodaeth am ofal plant ar-lein, gan gynnwys trwy wefan Dewis Cymru[51].

*Alinio â rhaglenni cyflogadwyedd*

4.8 Mae'r ffaith fod ffocws PaCE ar ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan CaW yn golygu bod y ddwy raglen yn gweithio'n baralel â'i gilydd heb orgyffwrdd na chystadlu am gleientiaid. Mewn llawer o ardaloedd mae cynghorwyr PaCE a CaW yn cydweithio, ac mewn ambell un, mae cynghorwyr PaCE yn chwarae rhan yn y prosesau brysbennu ochr yn ochr â'u cydweithwyr o CaW/CaW+, gan ganiatáu ar gyfer cyfeirio darpar gleientiaid at y cymorth mwyaf priodol. Roedd y cynghorwyr hynny a oedd wedi cael profiad o'r rhaglen CaW+ a lansiwyd yn ddiweddar yn ei gweld fel rhywle lle gallent gyfeirio cyn-gyfranogwyr PaCE a oedd wedi symud i mewn i waith, ond a oedd angen ailgysylltu â chymorth am ba reswm bynnag.

4.9 Roedd rhai o'r bobl a gyfrannodd yn teimlo bod cael un rheolwr cyflawni o DWP yn gyfrifol am PaCE a CaW/CaW+ yn beth da, o ran ei bod yn caniatáu iddynt gadw trosolwg holistig ac integreiddio'r ddwy raglen yn well. Roedd eraill yn teimlo ei bod yn well i reolwyr cyflawni ganolbwyntio'n llwyr ar y naill raglen neu'r llall, am fod hyn yn caniatáu iddynt chwarae rhan ddyfnach yn y rhaglen y maent yn gyfrifol amdani ac am ei bod hi'n gallu bod yn anodd rheoli'r ddwy raglen.

4.10 Mae PaCE yn gweithredu ochr yn ochr â nifer o brosiectau cyflogadwyedd eraill hefyd, er enghraifft ADTRAK[52], Opus[53] a Workways[54]. Mewn rhai achosion, gwelwyd y rhain fel prosiectau 'partner' y gellid eu defnyddio i gynorthwyo cleientiaid ochr yn ochr â PaCE, tra bod eraill yn eu gweld fel

[51] Dewis Cymru
[52] Prosiect ESF sy'n cael ei noddi gan Goleg Menai ac sy'n targedu pobl ifanc 16-24 sy'n NEET ac sy'n byw y tu hwnt i ardaloedd CG. Mae ADTRACK yn cynnig cymorth gweithwyr Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMH) i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o iselder a gorbryder sydd yna ymysg pobl ifanc.
[53] Prosiect sy'n cael ei ariannu gan ESF dan nawdd Bwrdd Uchelgeisiau Economaidd Gogledd Cymru ac sy'n targedu pobl 25+ oed sy'n ddi-waith tymor hir ac yn economaidd anweithgar.
[54] Prosiect ESF dan nawdd partneriaeth o bump awdurdod lleol yn ne-orllewin Cymru i gynnig cyfleoedd hyfforddi a phrofiad gwaith cyflogedig ar gyfer pobl sy'n ddi-waith tymor hir.

cystadleuwyr. Dywedwyd ei bod hi'n anodd i hyfforddwyr gwaith JCP ac eraill a allai gyfeirio cleientiaid gadw i fyny â'r hyn sydd ar gael, a chofio cyfeirio pobl at PaCE, o ystyried y llu o raglenni eraill sydd ar gael. Roedd rhai o'r bobl a gyfrannodd yn teimlo y dylai proses brysbennu CaW gael ei hymestyn i gwmpasu/cynnwys yr holl ymyraethau cyflogadwyedd a ariennir gan yr ESF mewn ardal benodol, gydag unigolion yn sôn am yr angen am 'guddio'r gwifrau' a'i gwneud yn rhwydd i gleientiaid gyrchu'r cymorth sydd fwyaf priodol iddyn nhw.

4.11 Fodd bynnag, roedd yna ganfyddiad cyffredinol taw'r hyn sy'n gosod PaCE ar wahân i'r ymyraethau cyflogadwyedd eraill yma yw ei ffocws ar ofal plant a'i gallu i dalu am ofal plant - 'does gan neb arall yr arian yma y tu cefn iddynt'.

4.12 Datblygwyd PaCE i gydategu Rhaglen Gwaith ac Iechyd y DWP[55], a disgwyliwyd i hyfforddwyr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith (JCP) gyfeirio cleientiaid perthnasol at PaCE. Mae cynghorwyr PaCE yn ymdrechu i feithrin perthnasau â hyfforddwyr gwaith a sicrhau bod y rhaglen yn flaenllaw ym meddyliau'r hyfforddwyr gwaith wrth weithio gyda chleientiaid. Mae rhai cynghorwyr yn gwneud ymdrech arbennig i fwydo adborth yn ôl i'r hyfforddwyr gwaith am y cynnydd a wnaed, a rhannu 'straeon newyddion da' am y cleientiaid a gyfeiriwyd atynt.

**Hybu PACE**

4.13 Roedd y theori newid yn rhagweld y câi strategaeth farchnata ei rhoi ar waith, ac y byddai hynny'n helpu i gyfeirio gweithgareddau â'r nod o hybu PaCE. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad gwerthuso prosesau bod 'lansiad tawel' y rhaglen a'r 'marchnata cyfyngedig' wedi golygu 'lefelau isel o ymwybyddiaeth, a rhywfaint o gamddealltwriaeth' ynghylch PaCE ymysg y partneriaid allweddol. Aeth yr adroddiad ymlaen i argymell dwysáu'r ymdrechion i hybu PaCE.

4.14 Mae hi'n dal i fod yn wir taw gwybodaeth gyfyngedig yn unig sy'n cael ei ryddhau am PaCE trwy wefan Llywodraeth Cymru[56] ynghyd â thaflen PaCE

[55] A lansiwyd ers i PaCE ddod i fodolaeth
[56] Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

generig[57]. Yn yr un modd, mae gwybodaeth gyfyngedig am PaCE ar gael trwy wefannau sefydliadau partner e.e. gwefannau Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Cymru (AVOW), Family Point Cymru, Dewis Cymru a thrwy amryw o ffynonellau lleol.

4.15 Mae stondinau naid ar gael i gynghorwyr PaCE eu defnyddio mewn achlysuron fel diwrnodau hwyl i deuluoedd ac mae posteri a thaflenni PaCE ar gael i'w harddangos mewn mannau y mae rhieni a phlant yn mynd iddynt e.e. ysgolion, canolfannau Dechrau'n Deg, hybiau cymunedol, safleoedd sefydliadau partner ac ati. Mae cynghorwyr yn gallu cynhyrchu eu deunyddiau hyrwyddo eu hunain hefyd ar sail canllawiau dylunio, er na ddarperir cyllideb benodol ar gyfer hyn.

4.16 Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae hybu PaCE wedi bod yn weddol ddistadl ac mae hi wedi dibynnu llawn cymaint ar gysylltiadau personol â phartneriaid a darpar-gleientiaid ag y mae ar ddefnyddio deunyddiau a'r cyfryngau. Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oedd PaCE yn ddigon gweladwy, gyda sawl un yn dweud bod angen iddo gael ei hybu'n fwy a bod angen darparu gwybodaeth fanylach o ran pwy y mae PaCE yn ei dargedu a'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig. Yn benodol, dywedodd cynghorwyr a chyfranogwyr y gellid cryfhau presenoldeb ar-lein y rhaglen, a llwyddodd un cynghorydd i gyfleu teimlad nifer trwy ddweud bod 'angen i bobl wybod amdanom ni i ddod o hyd i ni ... dydyn ni ddim ar gael ar-lein, felly dydyn ni ddim yn ymddangos mewn unrhyw chwiliad'. Galwodd rhai cynghorwyr hefyd am fwy o ymreolaeth dros farchnata lleol.

Astudiaeth Achos: Angharad[58]

Mae Angharad yn fam i dri, a chyn cael ei thrydydd blentyn, roedd hi wedi bod yn gweithio fel athrawes gyflenwi. Ar ôl cyfnod hir o'r gwaith oherwydd salwch, roedd Angharad wedi colli ei hyder a fe'i cafodd hi'n anodd dychwelyd i'r gwaith. Roedd Angharad yn awyddus i ddilyn hyfforddiant er

[57] PaCE: A yw cost gofal plant yn eich atal chi rhag hyfforddi neu gweithio?

[58] Defnyddir ffug-enwau yn yr holl astudiaethau achos a gyflwynir yn yr adroddiad hwn

mwyn bod yn hunangyflogedig.

Clywodd Angharad am PaCE trwy sylw ffrind ar dudalen Facebook canolfan gymunedol leol. Aeth ati i 'Gŵglo' PaCE ond ni chafodd fawr o lwyddiant dod o hyd i wasanaethau y gallai eu cyrchu neu y gallai gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth. Galwodd ei hawdurdod lleol hefyd, ond doedd y staff yno ddim yn gallu dweud dim wrthi am y rhaglen.

Yn y pendraw, llwyddodd Angharad i ddod o hyd i fanylion cyswllt cynghorydd trwy chwilio nôl trwy Facebook a chysylltu â'r ganolfan gymunedol lle'r oedd y cynghorydd yn gweithio weithiau. Ni fyddai wedi gwneud hynny oni bai ei bod hi'n awyddus i ddod o hyd i ryw fodd o ariannu cwrs oedd o ddiddordeb iddi.

**Lleoliad Cynghorwyr PaCE**

4.17 Cyfeiriodd yr adroddiad gwerthuso prosesau yn 2016 at gynghorwyr yn gweithio o amrywiaeth o leoliadau fel gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, canolfannau Dechrau'n Deg a 'llyfrgelloedd, ysgolion, grwpiau chwarae, neu oddi mewn i wasanaethau gwirfoddol'[59]. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad nad oedd canolfannau o'r fath yn rhoi cyfle i'r cynghorwyr ddod i gysylltiad â darpar-gyfranogwyr yn y niferoedd a ragwelwyd adeg dylunio'r rhaglen. Roedd dau brif reswm am hyn:

- mae canolfannau Dechrau'n Deg yn dueddol o gael eu lleoli yn y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan CaW yn hytrach na PaCE, ac felly mae'r bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn yn dueddol o beidio â bod yn gymwys ar gyfer PaCE
- mae tueddiad i ganolfannau teulu gael eu defnyddio gan 'grŵp cymharol ddigyfnewid o rieni'[60] ac felly nid ydynt yn darparu llif o ddarpar-gleientiaid newydd.

[59] Wavehill (2016) Gwerthusiad o Brosesau'r Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), t.40
[60] Ibid

4.18 Mae cynghorwyr yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o leoliadau i gwrdd â chleientiaid, yn fwyaf cyffredin llyfrgelloedd, canolfannau cymuned/ hamdden/dysgu, canolfannau gwasanaeth integredig/hybiau, meithrinfeydd/ grwpiau chwarae a chymdeithasau tai. Lle nad oes yna gyfleusterau cyhoeddus o'r math yma, mae cynghorwyr yn defnyddio caffis a siopau coffi i gwrdd â chleientiaid, gan gynnwys caffis mewn canolfannau cymuned neu hamdden. Weithiau mae hyn yn golygu bod y cynghorwyr yn prynu diodydd i'w cleientiaid, sy'n golygu eu bod nhw ar eu colled yn ariannol wrth wneud eu gwaith.

4.19 Mae rhai cynghorwyr yn cyflawni ymweliadau cartref, ac ystyrir bod hyn yn ateb ymarferol i'r sialensiau o ran logisteg sydd ynghlwm wrth gwrdd ag unigolion â phlant ifanc iawn neu bobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell lle nad oes llawer o fannau cyfarfod hygyrch. Dywedodd bron i un o bob pump (15) o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau gyda ni eu bod wedi cyfarfod â'u cynghorwyr yn eu cartrefi (yn ogystal â lleoedd eraill), a dywedodd unigolion bod hyn 'yn gwneud bywyd yn haws' o ran ei bod hi'n haws diddanu plant ifanc, a'u bod yn teimlo'n fwy cyffyrddus ac yn gallu cysylltu'n well â'r cynghorwyr. Dywedwyd hefyd bod cwrdd â'r cleientiaid yn eu cartrefi yn rhoi gwell synnwyr o fywyd eu cleientiaid i'r cynghorwyr, ac am 'ble mewn nhw' yn nhermau eu parodrwydd am waith. Dadleuwyd bod cael dirnadaeth fel yn hyn gynnar yn gallu arbed llawer o amser, a chynorthwyo'r cynghorwyr i deilwra'r cymorth y maent yn ei ddarparu at anghenion unigolion.

4.20 Er bod gan gynghorwyr mewn rhai ardaloedd bresenoldeb mewn canolfannau integredig/hybiau, roedd yna deimlad o rwystredigaeth ar ran staff PaCE a chynrychiolwyr awdurdodau lleol nad oes mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o gyfleusterau o'r fath. Priodolwyd hyn yn rhannol i'r ffaith fod y canolfannau/ hybiau mewn ardaloedd a oedd yn cael eu gwasanaethu gan CaW yn hytrach na PaCE, ond roedd y ffaith fod mynediad at gynghorwyr yn cael ei atal neu ei ohirio gan yr angen am drefnu cyfraniad ariannol at gost 'lle desg' mewn cyfleusterau o'r fath yn ffactor hefyd. Roedd rhai cynghorwyr yn teimlo bod hyn wedi llesteirio eu gallu i ryngweithio â phartneriaid ac integreiddio PaCE i'r darlun o wasanaethau i deuluoedd yn lleol.

4.21 Cyfeiriodd yr adroddiad gwerthuso prosesau yn 2016 at ‘gam bwriadol i osgoi lleoli Cynghorwyr y prosiect mewn Canolfannau Gwaith er mwyn pwysleisio bod yr hyn sydd gan y prosiect i'w gynnig yn wahanol i ddarpariaeth lles y brif ffrwd’[61]. Roedd hi'n glir, fodd bynnag, bod cynghorwyr yn parhau i wneud defnydd helaeth o safleoedd JCP, gyda nifer yn ystyried taw'r JCP oedd eu 'prif leoliad' neu eu lleoliad ar gyfer slotiau rheolaidd yn y dyddiadur, er eu bod yn gweithio o leoliadau eraill hefyd. Dywedodd dros draean (28) o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni eu bod yn cwrdd â'u cynghorwyr ar safleoedd JCP, ac ar y cyfan roeddent yn teimlo bod y lleoliadau hyn yn gyfleus, a hynny'n aml am fod gan swyddfeydd JCP gyfleusterau parcio/bod cyfleusterau parcio gerllaw neu am eu bod o fewn pellter cerdded i gartrefi'r cyfranogwyr neu ysgolion eu plant. Roedd y rhai nad oedd yn hawlio Cymhorthdal Incwm, a'r unigolion a oedd wedi gweithio mewn swyddi lefel uwch yn y gorffennol, yn teimlo bod swyddfeydd JCP yn lle llai deniadol i gwrdd â chynghorwyr, gydag un cyfranogwr yn dweud bod JCP 'yn teimlo'n ofnadwy ... nid fi yw'r person yna sy'n mynd i mewn i'r Ganolfan Waith ... roeddwn i'n teimlo'n anghyffyrddus yn mynd yno ... mae e fel petai'ch bod chi'n cael eich labelu fel person di-waith sydd angen cymorth'.

4.22 Ond mae yna fanteision eraill i gynghorwyr dreulio amser mewn safleoedd JCP. Er enghraifft, gallant gyrchu cronfeydd data a chyfleusterau TG DWP i hwyluso tasgau gweinyddol, gallant ryngweithio a hybu PaCE gyda hyfforddwyr gwaith, a hefyd maent ar gael yn y fan a'r lle i’r hyfforddwyr gwaith eu cyflwyno i ddarpar-gleientiaid sy'n ymweld â swyddfeydd JCP. Fodd bynnag, roedd nifer o'r cyfranogwyr o awdurdodau lleol yn teimlo bod defnydd parhaus y cynghorwyr o safleoedd JCP yn eu hatal rhag integreiddio cymaint ag y gallent i rwydweithiau cymorth i deuluoedd lleol ac, o ganlyniad, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad yw PaCE yn ddigon gweladwy i sefydliadau partner ac i ddarpar gleientiaid. Roedd yna deimlad hefyd hwyrach fod cynghorwyr yn colli'r cyfle i gysylltu â rhieni nad ydynt yn hawlio budd-daliadau lles, sy'n fwy tebygol o ymweld â chanolfannau teulu/hybiau na safleoedd JCP.

---

[61] Wavehill (2016) Gwerthusiad o Brosesau'r Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), t.37

4.23 Er bod cynghorwyr yn dibynnu’n drymach ar safleoedd JCP nag a ragwelwyd adeg datblygu'r rhaglen, maent yn parhau i archwilio lleoliadau newydd ar gyfer gwaith allgymorth a dulliau o fynd ati. Mae esiamplau'n cynnwys mynd allan gyda fan llyfrgell sy'n ymweld â chymunedau anghysbell ar amserau penodol gan gynnig gwasanaeth cynghori ar fudd-daliadau yn y cymunedau targed, gweithio gyda meddygfeydd ymarferwyr cyffredinol a thargedu ysgolion ym mis Medi er mwyn estyn allan at rieni ar gyfnod o newid yn eu bywydau nhw, yn ogystal â bywydau eu plant.

**Crynodeb o'r Bennod**

Y bwriad oedd y byddai staff PaCE yn cydweithio'n agos â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a sefydliadau allweddol eraill i hybu PaCE ac estyn allan at gyfranogwyr targed. Mae rheolwyr a chynghorwyr PaCE wedi ymdrechu i feithrin perthnasau â seilweithiau cymorth i deuluoedd yn eu hardaloedd, er bod cryfder y perthnasau hynny a graddfa'r rhyngweithio'n amrywio o un ardal awdurdod lleol i'r llall.

Mae PaCE yn gweithredu'n baralel â CaW ac mae cynghorwyr mewn llawer o ardaloedd yn cydweithio'n agos â chydweithwyr o CaW. Yn ogystal, mae PaCE yn gweithredu ochr yn ochr â nifer o brosiectau cyflogadwyedd rhanbarthol, a gall fod yn anodd i'r asiantaethau cyfeirio gadw i fyny â'r gwahanol raglenni sydd ar gael. Mae PaCE yn unigryw ymysg y rhaglenni cyflogadwyedd, fodd bynnag, o ran hi yw'r unig raglen sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ofal plant.

Lansiwyd PaCE mewn ffordd gymharol dawel ac mae'r marchnata wedi bod yn gyfyngedig ers hynny gan ddibynnu'n bennaf ar gysylltiadau cynghorwyr â phartneriaid a darpar-gleientiaid.

Mae cynghorwyr PaCE yn gweithio o amrywiaeth o ganolfannau yn y gymuned, er na welwyd cymaint o ddefnydd ag a ddisgwyliwyd o gyfleusterau fel Teuluoedd yn Gyntaf neu'r canolfannau gwasanaeth integredig, gan greu teimlad o rwystredigaeth ymysg rhai nad yw PaCE wedi cael ei integreiddio cystal â'r disgwyl i'r dirwedd cymorth i deuluoedd. Fodd bynnag, maent yn parhau i ymchwilio i leoliadau newydd ar gyfer gwaith allgymorth ac i ddulliau newydd o fynd ati.

Mae cynghorwyr yn defnyddio safleoedd JCP yn helaeth. Mae yna fanteision i hyn o ran bod safleoedd JCP yn lleoliadau cyfleus i rai cleientiaid, eu bod yn cynnig mynediad hwylus i gronfeydd data DWP i'r cynghorwyr, eu bod yn caniatáu i'r cynghorwyr ryngweithio a hyrwyddo PaCE ymysg yr hyfforddwyr gwaith ac i fod ar gael yn y fan a'r lle i ddarpar-gleientiaid sy'n ymweld â safleoedd JCP. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod gorddibyniaeth ar eiddo JCP yn atal cynghorwyr rhag integreiddio cymaint ag y gallent â rhwydweithiau cymorth i deuluoedd, a rhag cyrraedd rhieni nad ydynt yn ymweld â JCP.

# 5. Proffil y Cyfranogwyr a Gysylltwyd

## Cyflwyniad


5.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried i ba raddau y mae PaCE wedi cysylltu'r cyfranogwyr a fwriadwyd, ac yn trafod perfformiad mewn perthynas â grwpiau penodol o gyfranogwyr. Cyflwynir y bennod mewn tair adran fel a ganlyn:

- Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu
- Cysylltiadau yn ôl ardal
- Cysylltiadau yn ôl grŵp cyfranogwyr targed/nodweddion gwarchodedig.

## Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu

5.2 Mae Ffigur 5.1 yn dangos niferoedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 sydd wedi cysylltu â PaCE ers cychwyn y rhaglen. Ar draws Cymru gyfan, mae cysylltiadau ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 wedi bod ychydig yn is na'r targed, ar 56 y cant o'r lefel a broffiliwyd hyd Gorffennaf 2018. Mae'r cysylltiadau Blaenoriaeth 1 wedi bod ychydig bach yn gryfach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn Nwyrain Cymru, ar lefel o 60 y cant o'r lefel a broffiliwyd, o gymharu â 36 y cant.

Ffigur 5.1: Perfformiad hyd yn hyn: cysylltiadau




Ffynhonnell: Crynodeb o'r Wybodaeth Rheoli am Gysylltiadau PaCE Gorffennaf 18

5.3 Mae'r cysylltiadau Blaenoriaeth 3 wedi bod yn fwy calonogol ar lefel o 104 y cant o'r targedau a bennwyd ar draws Cymru gyfan. Eto, mae perfformiad yng

Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (112 y cant o'r lefel a broffiliwyd) wedi bod yn gadarnach nag yn Nwyrain Cymru (47 y cant o'r lefel a broffiliwyd).

**Cysylltiadau yn ôl ardal awdurdod lleol**

5.4 Mae niferoedd y cyfranogwyr a gysylltwyd yn amrywio'n sylweddol o un ardal awdurdod lleol i'r llall, sy'n adlewyrchu i ryw raddau'r gwahaniaethau o ran pryd lansiwyd y rhaglen a phryd y penodwyd cynghorwyr mewn gwahanol rannau o Gymru. Fodd bynnag, hyd yn oed wrth ganiatáu ar gyfer y cyfnod o amser y mae'r cynghorwyr wedi bod yn eu swyddi ym mhob ardal, mae yna wahaniaethau clir yn y lefelau cysylltu rhwng un ardal a'r llall. Ar draws Cymru, nifer cyfartalog y cysylltiadau fesul cynghorydd y mis oedd 2.2, ond nifer cyfartalog y cysylltiadau fesul cynghorydd y mis[62] yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd oedd rhyw 2.8 o gymharu ag 1.2 yn Nwyrain Cymru.

5.5 Ni lwyddodd ein gwaith maes i ganfod yn bendant pam fod y gwahaniaethau hyn yn bodoli, ond maent yn debygol o fod oherwydd nifer o ffactorau, fel:

- **ansawdd y perthnasau y mae cynghorwyr yn eu datblygu gyda hyfforddwyr gwaith JCP**. Dadleuwyd yn y cyd-destun hwn ei bod yn haws i gynghorwyr (a PaCE) ddod yn gyfarwydd i hyfforddwyr gwaith mewn swyddfeydd JCP llai, a denu rhagor o gyfeiriadau trwy hynny. Yr un pryd, fodd bynnag, mae swyddfeydd JCP llai (e.e. y rhai mewn trefi bychain) yn dueddol o ddelio â llai o hawlwyr budd-daliadau, sy'n golygu ei bod hi'n anos cyrraedd at niferoedd mawr o bobl sy'n addas ar gyfer PaCE.
- **graddfa integreiddiad PaCE â seilweithiau ehangach cymorth i deuluoedd ac ansawdd perthnasau cynghorwyr â sefydliadau partner**. Mae argaeledd cyfleusterau allgymorth priodol a chysylltiadau â chydweithwyr o sefydliadau partner allweddol yn gallu bod o gymorth wrth gynhyrchu cyfeiriadau, er bod hynny ar y cyfan mewn niferoedd llai na thrwy JCP.

[62] Cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dyddiad y cychwynnodd pob cynghorydd yn ei swydd a'r dyddiad y gadawodd y cyfranogwyr unigol eu swyddi, neu 31 Mawrth 2018 (dyddiad y cyfrifiad a ddefnyddiwyd ar gyfer y gronfa ddata o gyfranogwyr) ar gyfer y rhai a oedd yn dal i fod yn eu swyddi

- **y cydbwysedd rhwng yr amser y mae cynghorwyr yn ei dreulio mewn swyddfeydd JCP ac mewn lleoliadau allgymorth**. Mae'r gofyniad am i hawlwyr budd-daliadau gwrdd â hyfforddwyr gwaith yn gyfnodol yn golygu bod cynghorwyr, ar y cyfan, yn gallu elwa ar lif parhaus o ddarpar-gyfranogwyr trwy JCP, ond mae'n gallu bod yn anos cyrraedd niferoedd tebyg o unigolion cymwys trwy leoliadau allgymorth lle mae nifer yr ymwelwyr o blith unigolion cymwys yn dueddol o fod yn is. Er y gallai gweithio yn y gymuned ddarparu cyfle i gynghorwyr gyrchu grwpiau gwahanol o ddarpar-gyfranogwyr (pobl nad ydynt yn hawlio budd-daliadau, er enghraifft), yn aml mae cyrraedd unigolion yn y modd yma'n cymryd mwy o amser ac ymdrech.
- **trosiant staff a'r diffyg parhad mewn perthnasau â'r asiantaethau cyfeirio a ddaw yn sgil hynny**. Amcangyfrifwyd ei bod hi'n cymryd rhyw dri i chwe mis i gynghorwyr ddod i delerau â'u rôl ar ôl eu penodi ac i fwrw gwreiddiau yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, hyd yn oed os ydynt yn cymryd yr awenau gan rywun arall. Yn wir, yng nghofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol yn Chwefror 2018, nodwyd bod 'cyfnod o newid staff wedi effeithio ar berfformiad yn Nwyrain Cymru'.

5.6 Er bod y ffactorau hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i esbonio’r amrywiadau yn niferoedd y cysylltiadau a gyflawnwyd ar draws y gwahanol ardaloedd, roedd yna awgrym cryf bod y gwahaniaethau i ryw raddau oherwydd y gwahaniaethau yn nulliau cynghorwyr unigol o weithio a'u gallu i 'gysylltu' â phartneriaid a darpar-gyfranogwyr. Nid oedd yr elfen yma o'r astudiaeth yn archwilio dulliau'r cynghorwyr unigol o gysylltu cleientiaid yn ddigon manwl i ganiatáu ar gyfer sylwadau pellach yn hyn o beth, ond mae'n debyg ei bod hi'n faes sy'n haeddu ystyriaeth bellach.

**Cysylltiadau yn ôl grwpiau targed o gyfranogwyr**


5.7 Y tu hwnt i'r ddau brif grŵp y mae PaCE am eu cynorthwyo (pobl dros 25 oed sy'n economaidd anweithgar neu bobl sy'n ddi-waith tymor hir a phobl ifanc sy'n NEET), ni phennwyd unrhyw dargedau cysylltu penodol ar gyfer is-grwpiau penodol o unigolion sydd dan anfantais yn y farchnad lafur. Er ein bod ni'n cynnig sylwebaeth am gyfranogaeth fesul grŵp demograffaidd

allweddol isod, dylid nodi bod proffil y cyfranogwyr ychydig yn wahanol i broffil y boblogaeth ar led yn nhermau rhyw ac oedran.

5.8 Mae bron i 96 y cant o'r cyfranogwyr yn PaCE wedi bod yn fenywaidd, a menywod sydd i gyfrif am bron i 95 y cant o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a 98 y cant o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3. Menywod sydd i gyfrif am gyfran ychydig bach yn uwch o'r cyfranogwyr yn Nwyrain Cymru, gyda 97 y cant (neu 572) nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, â lefel o 95 y cant (neu 2,196). Dynion dros 25 oed (Blaenoriaeth 1) oedd i gyfrif am gyfran ychydig bach yn uwch o'r cyfranogwyr mewn llond llaw o ardaloedd, ond hyn yn oed yn yr ardaloedd hyn, roedd y niferoedd yn dal i fod yn ddigon isel.

5.9 Mae Ffigur 5.2 yn dangos dosbarthiad cyfranogwyr PaCE ar draws gwahanol grwpiau oedran. Roedd gan gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd broffil oedran ychydig bach yn is na'u tebyg yn Nwyrain Cymru, er taw ychydig iawn o wahaniaeth oedd yna mewn gwirionedd. Yn gyferbyniol, roedd proffil oedran y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn Nwyrain Cymru ychydig bach yn is na'r rhai yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r mwyafrif o'r cyfranogwyr wedi bod yn 20-34 oed, gyda'r mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn disgyn i'r grŵp oedran 20-24.

Ffigur 5.2: Dosbarthiad oedran y cyfranogwyr




Ffynhonnell: Y Gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Mawrth 2018

5.10 Drwyddi draw, roedd dau y cant o'r cyfranogwyr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME), sydd ychydig bach yn is na'r pump y cant o boblogaeth Cymru sy'n dod o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn wyn[63]. Roedd y gyfran o gyfranogwyr o gefndiroedd BME yn uwch yn Nwyrain Cymru (pump y cant) nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (dau y cant), ond hyd yn oed yn Nwyrain Cymru, roedd y gyfran o gyfranogwyr BME yn is na'r 8 y cant sydd i gyfrif am boblogaeth y rhanbarth i gyd.

5.11 Mae'r mwyafrif helaeth (85 y cant) o'r cyfranogwyr yn dod o aelwydydd ag un oedolyn, er bod y gyfran sy'n disgyn i'r categori hwn wedi bod ychydig yn uwch ar draws y ddwy flaenoriaeth yn Nwyrain Cymru nac yng Ngorllewin Cymru'r a'r Cymoedd.

5.12 Drwyddi draw, roedd gan ryw 12 y cant o'r cyfranogwyr salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio wrth ymuno â PaCE, er bod y gyfran hon ychydig bach yn uwch ymysg cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (14 y cant) na chyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (8 y cant). Mae'r gyfran o gyfranogwyr â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn uwch yn y ddau ranbarth nag y mae hi ar draws y boblogaeth ar led (3.4 y cant[64]).

5.13 Mae Ffigur 5.3 isod yn dangos y gyfran o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 sydd â chymwysterau uwch a hyd at lefel 2[65] wrth gychwyn gyda PaCE. Mae'n dangos nad oedd gan 69 y cant o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 1, ac 84 y cant o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 unrhyw gymhwyster uwch na lefel 2, ac ystyrir felly bod ganddynt lefel isel o sgiliau yn ôl y diffiniad a fabwysiadwyd ar gyfer PaCE[66]. Ar draws y ddwy flaenoriaeth, roedd cyfran ychydig bach yn fwy o'r cyfranogwyr yn Nwyrain Cymru nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn disgyn i'r categori hwn.

---


[63] Stats Cymru, Arolwg o'r Gweithlu Lleol/Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Ethnigrwydd yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, Medi 2018

[64] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Niferoedd y bobl ag anableddau, gan ddefnyddio 'anabledd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio yn unig'

[65] Mae cymwysterau Lefel 2 gyfwerth â phedwar neu bump TGAU â graddau A*-C

[66] Mae'r Canllawiau Gweithredol yn datgan 'na fyddai gan berson â sgiliau isel gymhwyster dros lefel 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)', t. 19

Ffigur 5.3: Cyfranogwyr yn ôl lefel eu cymwysterau uchaf adeg cychwyn




Ffynhonnell: Y Gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Mawrth 2018

5.14 Drwyddi draw, mae 17 y cant o'r cyfranogwyr sy'n cysylltu â PaCE yn medru'r Gymraeg, er bod y gyfran hon yn amrywio o 20 y cant ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i saith y cant yn Nwyrain Cymru. Ar lefel fwy lleol, mae'r gyfran o gyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg yn codi mor uchel â 76 y cant yng Ngwynedd, a 68 y cant yn Ynys Môn, ac yn disgyn i ddau y cant yn Nhorfaen ac i sero yng Nghasnewydd.

**Crynodeb o'r Bennod**

Mae llai o unigolion dros 25 oed na'r disgwyl wedi cysylltu â PaCE, er bod ychydig bach yn fwy o unigolion 16-24 oed wedi cysylltu. Mae cysylltiadau ar draws y ddau grŵp oedran wedi bod ychydig bach yn gryfach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn Nwyrain Cymru.

Mae niferoedd y cyfranogwyr a gysylltwyd yn amrywio'n sylweddol o un ardal awdurdod lleol i'r llall. Byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod hyn oherwydd nifer o ffactorau, sef: ansawdd perthnasau'r cynghorwyr â hyfforddwyr gwaith JCP; integreiddiad PaCE â seilweithiau cymorth i deuluoedd ehangach; y cydbwysedd rhwng yr amser y mae cynghorwyr yn ei dreulio mewn swyddfeydd JCP a lleoliadau yn y gymuned; trosiant staff; a'r ffordd y mae cynghorwyr unigol yn gweithio a'u gallu i gysylltu â phartneriaid a darpar-gyfranogwyr.

Er na bennwyd unrhyw dargedau cysylltu y tu hwnt i'r rhai ar gyfer pobl dros 25 oed, a'r rhai 16-24 oed, mae hi'n nodedig:

- bod y mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr wedi bod yn fenywod
- bod y mwyafrif o'r cyfranogwyr wedi bod yn 20-34 oed
- bod nifer anghyfartal o isel o gyfranogwyr yn dod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- bod mwyafrif mawr o'r cyfranogwyr yn dod o aelwydydd un oedolyn
- bod gan gyfran uwch o'r cyfranogwyr na'r boblogaeth ar led salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
- nad oes gan y mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr unrhyw gymwysterau dros lefel 2
- bod siaradwyr Cymraeg i gyfrif am gyfran uwch o'r cyfranogwyr mewn rhai ardaloedd nac eraill.

## 6. Rhwystrau a Chymhelliant Cyfranogwyr

### Cyflwyniad

6.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried y ffactorau sy'n atal rhieni rhag cychwyn cyflogaeth a'r pethau sy'n cymell unigolion i gysylltu â PaCE a cheisio nesáu at waith. Bwriedir i'r bennod hon osod y cefndir ar gyfer ein trafodaeth am y cymorth a ddarperir ar gyfer cyfranogwyr ym mhennod saith. Cyflwynir y bennod mewn dwy adran fel a ganlyn:

- y rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu
- cymhelliant y cyfranogwyr.

### Y rhwystrau y mae'r cyfranogwyr yn eu hwynebu

6.2 Mae'r theori newid yn clustnodi nifer o ffactorau cyd-destunol neu strwythurol a allai ddylanwadu ar gysylltiad rhieni â'r farchnad lafur.

*Gofal plant*

6.3 Y ffactorau allweddol yn hyn o beth oedd diffyg gofal plant o ansawdd da o fewn cymunedau[67], a dyluniwyd y rhaglen PaCE yn benodol 'i ddarparu cymorth unigol i rieni sydd allan o waith sy'n ystyried taw gofal plant yw eu prif rwystr i gyrchu cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant'[68].

6.4 Ar y sail yma, mae dyluniad y rhaglen yn cymryd bod <u>holl</u> gyfranogwyr PaCE yn wynebu sialensiau wrth ddod o hyd i ofal plant a fydd yn caniatáu iddynt weithio neu gyflawni hyfforddiant, a'i defnyddio. Fodd bynnag, byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod natur a maint y sialensiau o ran gofal plant yn amrywio o un unigolyn i'r llall.

6.5 I rai, mae dod o hyd i ofal plant sy'n bodloni eu hanghenion yn gallu bod yn anodd. Er bod cynghorwyr a chynrychiolwyr awdurdodau lleol yn teimlo bod gofal plant ar gael ac yn hygyrch yn y rhan fwyaf o Gymru, cydnabyddir bod y ddarpariaeth yn fwy gwasgaredig mewn rhai ardaloedd nag eraill, gydag ardaloedd gwledig, llai poblog yn dueddol o fod â llai o gyfleusterau o'r fath. Mae hyn yn gyson iawn â chanfyddiadau adolygiad Llywodraeth Cymru o Gapasiti Gofal Plant yng Nghymru yn 2017. Mae yna fylchau hyd yn oed yn yr

[67] Wavehill (2016) Gwerthusiad o Brosesau'r Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), t. 27
[68] Canllawiau Gweithredol, t.5

ardaloedd mwy poblog, ond yn nhermau darpariaeth ar gyfer oriau estynedig fel rheol, sy'n arbennig o bwysig i rieni sydd am weithio mewn sectorau fel iechyd ac adwerthu, sy'n aml yn golygu gweithio gyda'r nos neu ar benwythnosau. Soniodd y cyfranogwyr hefyd am fylchau yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, ac yn y ddarpariaeth yn ystod cyfnodau o wyliau ysgol, gofal sesiynol (sy'n gallu bod yn bwysig i gyfranogwyr sydd am gyflawni hyfforddiant ar fyr-rybudd) ac yn y gofal ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Soniodd y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni ac a oedd yn ddibynnol ar gludiant cyhoeddus am anawsterau wrth ddod o hyd i ofal plant o fewn cyrraedd rhwydd i'w cartrefi a oedd yn darparu'r oriau gofal oedd eu hangen arnynt i'w galluogi i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ar y bws neu ar y trên.

6.6 Nid o reidrwydd argaeledd gofal plant (neu'r diffyg argaeledd) sy'n ei gwneud yn anodd i rieni ddefnyddio gofal plant fodd bynnag, ond diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am ba ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael, sut beth yw e, a beth y maen ei olygu, neu sut i fynd ati i gael gwybod am y dewisiadau gofal plant sydd ar gael. Mae rhieni wedi eu drysu gan gymhlethdodau logistaidd cael gwybodaeth am ofal cofleidiol ar gyfer plant sy'n mynychu ysgol feithrin neu ysgol, er enghraifft, a mynd ati i'w threfnu. Mae'r anawsterau logistaidd yma'n cael eu dwysáu wrth geisio trefnu gofal plant ar gyfer mwy nag un plentyn (yn enwedig plant o wahanol oedrannau), ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, neu ofal plant y tu hwnt i oriau swyddfa arferol.

6.7 Amlygodd rai fforddadwyedd gofal plant fel problem, yn enwedig lle bo angen gofal ar gyfer mwy nag un plentyn. Fel y dywedodd un cyfranogwr wrth gyfeirio at swydd flaenorol, 'roedd y feithrinfa ddydd yn rhy ddrud i'r ddau ohonyn nhw ... ar ôl y tâl ychwanegol roedd rhaid i mi ei dalu fy hun, roeddwn i'n gweithio am £20 ychwanegol yr wythnos yn y pen-draw'. Roedd fforddadwyedd y gofal yn cael ei ddwysáu mewn rhai ardaloedd gan y ffaith fod rhai darparwyr yn gofyn am ffioedd cymaint a chwech wythnos neu dymor ymlaen llaw.

Astudiaeth achos: Becky

Mae Becky, sy'n 32 oed, yn fam briod i ddau o blant. Mae gan un ohonynt ADHD ac mae gan y llall broblemau iechyd sydd angen triniaeth barhaus. Mae gan Becky gymhwyster ôl-radd ac mae hi wedi gweithio am y rhan fwyaf o'i bywyd fel oedolyn nes iddi golli ei swydd rhyw chwe mis cyn dod i gysylltiad â PaCE.

Yn dilyn cyfnod o ddiweithdra, cafodd Becky swydd a oedd yn cynnig rhagolygon da iddi o ran datblygiad proffesiynol dros amser. Fel y gallai weithio, roedd hi'n bwriadu defnyddio clwb ar ôl ysgol i ofalu am ei phlentyn hynaf, a ffeindiodd feithrinfa a allai ddarparu ar gyfer ei phlentyn ieuengaf er gwaetha'i broblemau iechyd.

Fodd bynnag, roedd angen talu ffioedd y mis cyntaf ymlaen llaw. Doedd dim arian gan Becky i dalu'r costau hyn cyn dechrau ennill cyflog, a byddai hyn wedi ei hatal rhag cymryd y swydd oni bai am gymorth PaCE.

6.8 Fodd bynnag, dywedodd sawl cynghorydd taw canfyddiad unigolion bod gofal plant ffurfiol yn ddrud ac yn anfforddiadwy (yn hytrach na gwirionedd y sefyllfa) yw'r peth sy'n atal llawer o rieni rhag defnyddio gwasanaethau o'r fath. Dadleuwyd bod gofal plant yn fwy fforddiadwy o lawer nag y mae rhieni'n ei ddychmygu, o ystyried y cymorth sydd ar gael trwy PaCE a'r Cynnig Gofal Plant, yn ogystal â'r Credyd Trethi Plant. Fel y dywedodd un cynghorydd 'dyw rhieni ddim yn sylweddoli'r costau... dydyn nhw ddim yn gwybod bod cymorth ar gael iddynt... y brif broblem yw nad ydyn nhw'n gwybod ble i ddechrau'.

6.9 O ystyried y cymhlethdodau hyn, nid yw'n syndod bod llawer o bobl yn teimlo wedi eu 'gorlethu' wrth feddwl am y syniad o ddod o hyd i ofal plant er mwyn caniatáu iddynt chwilio am waith.

6.10 Ochr yn ochr ag argaeledd neu fforddadwyedd gofal plant, clustnododd y theori newid 'gyfyngiadau ar lefel unigolion' o ran defnyddio gofal plant ffurfiol. Roedd hyn yn cydnabod bod rhai rhieni'n gwneud dewis gwybodus i ganolbwyntio ar gyfrifoldebau gofalu, ac yn derbyn y penderfyniad i aros adref

fel rhan o fod yn rhiant da. Dangosodd y theori newid bod agweddau rhieni sy'n aros adref at waith yn aml yn gadarnhaol, a bod gan unigolion ganfyddiad ei bod hi'n bwysig gweithio oherwydd y manteision personol y mae'n eu darparu, a'r esiampl gadarnhaol y mae'n ei gosod i'r plant[69]. Mewn achosion o'r fath, dadleuwyd taw'r penderfyniad allweddol i rieni yw 'pryd, yn hytrach nag os' yw hi'n briodol dychwelyd i'r gwaith[70].

6.11 Yn wir, dywedodd rhyw 45 y cant o'r cyfranogwyr (36) a gafodd gyfweliadau â ni eu bod wedi bod yn ystyried chwilio am waith ar yr adeg pan ddaethant at PaCE, ond nad oeddent yn gwneud hynny'n ymarferol. Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau'n blwmp ac yn blaen eu bod 'am fod yn fam amser-llawn', o leiaf nes bod eu plentyn ieuengaf yn dechrau ysgol neu'n cyrraedd oedran penodol/lefel benodol o hunanddibyniaeth .

Astudiaeth achos: Clarice

Mae Clarice yn fam sengl i ddau o blant. Mae gradd ganddi, ac mae hi wedi gweithio mewn rolau proffesiynol cyswllt yn y gorffennol.

Penderfynodd Clarice fod yn fam ar yr aelwyd pan ganed ei phlentyn cyntaf. Roedd hi'n teimlo mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud, ac roedd hi mewn sefyllfa i wneud y dewis yma am fod ei gŵr yn ennill 'jyst digon' i gadw'r teulu.

Roedd Clarice wedi meddwl y byddai'n dychwelyd i'r gwaith pan fyddai ei phlant wedi setlo yn yr ysgol ac 'ychydig bach yn fwy annibynnol'. Roedd hi'n ei gweld ei hun fel 'rhywun oedd yn gweithio' ac a fyddai, ar yr adeg briodol, yn cyfrannu at gyllideb yr aelwyd. Roedd hi'n credu hefyd ei bod hi'n bwysig sefydlu moeseg gwaith cadarn yn ei phlant, gan arwain trwy esiampl.

---

[69] Wavehill (2016) Gwerthusiad o Brosesau'r Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), t. 26

[70] Wavehill (2016) Gwerthusiad o Brosesau'r Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), yn dyfynnu Bashir et al. (2011) *Families and work: Revisiting barriers to employment*, Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

6.12 Roedd nifer fechan o rieni'n ddrwgdybus am ofal plant ffurfiol, gyda chynghorwyr yn cyfeirio at unigolion yn cael 'problemau ymwahanu' neu'n gyndyn i adael eu plant yng ngofal eraill, er nad oedd yna unrhyw awgrym fod y rhieni hyn yn anfodlon i'w plant ddechrau ysgol pan fyddai'r amser yn dod.

6.13 Fodd bynnag, byddai ein gwaith maes yn awgrymu taw prin iawn yw'r achosion lle problemau gofal plant yw'r unig rwystrau i waith y mae cyfranogwyr PaCE yn eu hwynebu. Cyfeiriodd y theori newid at ffactorau eraill 'yn seiliedig ar yr unigolyn', a chadarnhaodd ein gwaith maes bod y rhain yn rhwystrau allweddol i gyflogaeth. Yn eu plith mae diffyg cymwysterau, sgiliau neu brofiad gwaith.


*Cymwysterau a sgiliau*

6.14 Fel y nodwyd eisoes, nid oedd gan 73 y cant o holl gyfranogwyr PaCE gymwysterau uwch lefel 2 wrth ymuno â'r rhaglen. Fel y mae Ffigur 6.1 yn ei ddangos, roedd rhyw 62 y cant (50) o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni yn perthyn i'r categori hwn, ac roedd y rhai a oedd wedi cael eu plant pan oeddent yn iau hyd yn oed yn llai tebygol o fod â chymwysterau dros lefel 2 wrth ymuno â PaCE.

6.15 Hyd yn oed lle'r oedd cymwysterau uwch lefel 2 gan y cyfranogwyr, roedd y rhain weithiau wedi darfod, neu nid oeddent yn berthnasol i'r meysydd yr oedd y cyfranogwyr am weithio ynddynt bellach.

6.16 Roedd gan nifer o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni ddyhead i 'newid cyfeiriad', a hynny'n aml fel bod eu gwaith yn ffitio o gwmpas anghenion eu plant, neu er mwyn cyflawni dyheadau nad oeddent wedi eu gwireddu o'r blaen.

Ffigur 6.1: % y cyfranogwyr a gafodd gyfweliad oedd heb unrhyw gymwysterau uwch lefel 2 yn ôl oedran adeg geni eu plentyn cyntaf




Ffynhonnell: Y Gronfa ddata o gyfranogwyr a gyfwelwyd

6.17 Roedd sawl un yn gweld diffyg sgiliau sylfaenol neu sgiliau gwaith (yn hytrach na chymwysterau) yn rhwystr, ac felly hefyd diffyg sgiliau chwilio am waith a sgiliau ar gyfer cyfweliad.

6.18 Ochr yn ochr â hyn, nid oedd gan lawer o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni brofiad gwaith diweddar, ac o ganlyniad roedd eu curricula vitae yn wan, neu nid oedd un ganddynt o gwbl. Nid oedd rhyw 68 y cant o'r bobl a gafodd gyfweliadau (55) wedi gweithio yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac nid oedd 33 y cant (27) wedi gweithio yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Dim ond pedwar o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni oedd erioed wedi gweithio, ond dim ond swyddi penwythnos neu dymhorol wrth ddilyn addysg llawn amser yr oedd eraill wedi eu cyflawni cyn dod yn rhieni. Mae hyn yn awgrymu bod PaCE yn cyrraedd y bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur.

6.19 Roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau wedi cyflawni swyddi cymharol elfennol yn y gorffennol, gyda 37 y cant (30) wedi gweithio mewn swyddi gofalu, hamdden a galwedigaethau gwasanaethu eraill, a 32 y cant (26) mewn swyddi gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid. Dim ond 12 y cant (10) a oedd wedi gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol neu grefftau medrus neu fel rheolwyr, cyfarwyddwyr neu swyddogion uwch.

6.20 Roedd diffyg cymwysterau, sgiliau a phrofiad gwaith yn aml yn gydgysylltiedig ac roedden nhw'n aml yn gysylltiedig â diffyg hyder a ffydd yn eu hunain hefyd.

Astudiaeth Achos - Delyth

Mae Delyth yn 30 oed ac yn fam i un. Gadawodd yr ysgol yn gynnar heb unrhyw gymwysterau a threuliodd gyfnod byr yn gweithio fel cynorthwyydd domestig/cegin yn ei harddegau. Ers hynny, mae hi wedi gwneud ychydig o waith bar achlysurol, ond mae hi wedi bod yn anweithgar ar y cyfan.

Mae Delyth yn cael trafferthion gyda gorbryder ac mae'n cael pyliau achlysurol o banig. Mae ganddi 'broblemau hyder mewn grwpiau mawr', ac felly roedd y syniad o fynd i'r coleg i ennill cymwysterau'n rhywbeth hollol ddychrynllyd iddi, er ei bod hi'n cydnabod y byddai angen cymwysterau arni i symud ymlaen yn ei bywyd.

6.21 Cyfeiriodd cynghorwyr at ba mor gyffredin oedd problemau iechyd meddwl lefel isel a oedd yn effeithio ar gymhelliant y cyfranogwyr a'u gallu i weithio. Soniodd sawl un o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau am drafferthion gyda 'gorbryder' ac 'iselder'. Mewn ambell i achos, dywedwyd bod problemau iechyd meddwl yn gysylltiedig â hanes o berthnasau treisgar a diffyg rhwydweithiau teuluol neu gymdeithasol cefnogol.

6.22 Rhywbeth a oedd yn achosi pryder i lawer o gyfranogwyr oedd ofn bod ar eu colled yn ariannol o ganlyniad i roi'r gorau i'w budd-daliadau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos rhieni sengl oedd yn llwyr gyfrifol am ddarparu ar gyfer eu plant. Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr a siaradodd â ni eu bod wedi ei chael hi'n anodd deall budd-daliadau gwaith, a sut i symud o fudd-daliadau diweithdra i fudd-daliadau gwaith heb gyfaddawdu sefydlogrwydd ariannol eu teuluoedd. Fel y dywedodd un cyfranogwr, 'Mae gen i berson bach adref ... Rwy'n gwybod ble'r ydw i ar Gymhorthdal Incwm ... mae'n teimlo'n ddiogel'.

*Ffactorau eraill*

6.23 Cyfeiriodd y theori newid at ffactorau cyd-destunol neu strwythurol ehangach sy'n gallu effeithio ar gysylltiad unigolion â'r farchnad lafur. Eto, adleisiwyd y rhain trwy ein gwaith maes. Er enghraifft, soniodd cynghorwyr am ddiffyg cyfleoedd am swyddi â chyflogau rhesymol mewn rhai ardaloedd, a dadleuwyd bod hyn yn atal pobl rhag meddwl am symud i mewn i waith. Soniwyd hefyd am anawsterau teithio, ac yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig. Dadleuwyd hefyd bod angen gwrthbwyso cost teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, gan fynd i leoliad gofal plant ar y ffordd, yn erbyn unrhyw gynnydd mewn incwm a ddaw yn sgil i symud i mewn i waith.

6.24 Felly, nid oedd unrhyw amheuaeth bod cael gafael ar ofal plant fforddiadwy yn rhwystr yn llygaid y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni, ond prin iawn taw hyn oedd yr unig ffactor a oedd yn sefyll yn ffordd unigolion wrth symud i mewn i gyflogaeth. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn wynebu nifer o faterion a oedd yn aml yn mynd law yn llaw â'i gilydd, a oedd yn llethu eu huchelgeisiau.

**Cymhelliant y cyfranogwyr**

6.25 Roedd hi'n glir o'n sgyrsiau â'r cynghorwyr a chyfranogwyr fel ei gilydd bod cymhelliant pob unigolyn dros gymryd rhan yn PaCE yn wahanol, ond mae gan lawer ohonynt wir ddymuniad i ddod o hyd i waith. Roedd nifer o ffactorau yn bwydo hyn, a chlustnodwyd rhai ohonynt yn y theori newid:

- i fod yn esiampl dda neu'n fodel ar gyfer eu plant
- i fod yn well eu byd yn ariannol
- i gael gwell synnwyr o bwrpas a hunanwerth
- i fynd allan o'r tŷ a gwneud rhywbeth arall yn hytrach na dim ond gofalu am y plant.

6.26 Roedd y cynghorwyr yn gweld y pwynt y mae plentyn ieuengaf hawliwr Cymhorthdal Incwm yn troi'n bump oed fel catalydd ar gyfer ystyried chwilio am waith am ddwy brif reswm:


- Er y trafodwyd hyn eisoes, mae'n werth dweud eto bod DWP yn ceisio symud rhieni sy'n hawlio Cymhorthdal Incwm i'r Lwfans Ceisio Gwaith pan fo'u plentyn ifancaf yn troi'n bump oed. Canfyddiad y cynghorwyr oedd bod llawer o rieni'n 'neidio cyn iddynt gael eu gwthio', gyda rhai yn cysylltu â chynghorwyr pan fo newidiadau i'w budd-daliadau ar y gorwel a'u bod yn cyrraedd 'pwynt o banig'. Dywedodd ambell i gynghorydd hefyd bod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn eu hardaloedd wedi arwain at gynnydd yn nifer y rhieni a oedd yn chwilio am gymorth.
- Bod unigolion yn gweld eu plentyn ieuengaf yn cychwyn addysg lawn-amser fel cyfle i wneud rhywbeth positif eu hunain. Roedd pobl yn gweld y sialensiau logistaidd sy'n gysylltiedig â gweithio'n llai o broblem pan roedd eu plant yn yr ysgol, gan wneud gwaith yn bosibilrwydd go iawn. Yn y cyd-destun hwn, nododd sawl cynghorydd bod mis Medi yn gallu bod yn amser da i dargedu rhieni.

6.27 Soniodd cynghorwyr hefyd am rieni plant iau a oedd am hyfforddi neu ail-hyfforddi cyn i'w plant gyrraedd oedran ysgol fel eu bod wedi eu taclu â'r sgiliau a/neu'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i ddiogelu gwaith pan fyddai eu plant yn dechrau ysgol. Nodwyd bod nifer o rieni'n ymuno â PaCE â dymuniad i ddod yn gynorthwywyr dysgu am fod ganddynt ganfyddiad ei bod hi'n swydd y byddai modd ei chyflawni o gwmpas eu plant.

6.28 Mae Ffigur 6.2 yn dangos taw'r adeg pan fo'u plentyn ieuengaf yn bedair i bump oed oedd y pwynt pan ddaeth y ganran uchaf o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni i gysylltiad â PaCE, er i gyfran debyg iawn ddod i gysylltiad pan oedd eu plentyn lleiaf yn ddwy i dair oed. Mae hyn i'w gweld yn cadarnhau cred y cynghorwyr bod y syniad o gael eu symud ymlaen i Lwfans Ceisio Gwaith yn sbarduno rhai rhieni i chwilio am waith, ond mae'n awgrymu hefyd hwyrach bod y ffaith fod rhai plant yn gymwys am 10 awr o addysg gynnar drwy'r Cyfnod Sylfaen yn ddwy oed[71] yn cymell rhai hawlwyr i ystyried cyflogaeth.

[71] Sy'n rhan o'r Cynnig Gofal Plant

Ffigur 6.2: Oedran y plentyn ieuengaf pan ddaeth y cyfranogwyr a gafodd gyfweliad i gysylltiad â PaCE




Ffynhonnell: Y Gronfa ddata o gyfranogwyr a gyfwelwyd

6.29 Ar bwynt llai cadarnhaol, roedd y cynghorwyr yn teimlo bod rhai unigolion yn dod i gysylltiad â PaCE er mwyn 'cadw'r hyfforddwyr gwaith yn hapus'. Yn nodweddiadol, roedd unigolion o'r fath yn cysylltu mewn ffordd digon difater, gan fethu â dod i gyfarfodydd a methu ag ymateb i gysylltiadau cyn cael eu datgysylltu o'r rhaglen gan eu cynghorwyr. Roedd y cynghorwyr yn teimlo eu bod wedi dod yn fwy medrus wrth adnabod unigolion nad ydynt o ddifri am symud i mewn i waith, ond mae unigolion o'r fath yn dal i ffeindio'u ffordd i mewn i PaCE, dim ond i ddatgysylltu ymhen cyfnod byr wedyn.

6.30 Y teimlad oedd bod cyfranogwyr yn cael eu denu at PaCE gan lefel y cymorth sydd ar gael iddynt, ac yn benodol, lefel y cymorth sydd ar gael i dalu costau gofal plant.

**Crynodeb o'r Bennod**

Mae nifer o ffactorau cyd-destunol neu strwythurol yn dylanwadu ar gysylltiad rhieni â'r farchnad lafur. Mae'r rhain yn ymrannu'n dri phrif gategori: gofal plant; cymwysterau a sgiliau; a ffactorau fel diffyg cyfleoedd am swyddi sy'n talu cyflogau rhesymol o fewn pellter teithio rhesymol.

Mae'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â gofal plant yn cynnwys:

- anawsterau wrth ddod o hyd i ofal plant priodol
- y ffaith nad yw gofal plant ar gael yn gyfartal ar draws Cymru
- ei bod hi’n gallu bod yn anodd dod o hyd i ofal plant y tu hwnt i oriau gwaith safonol (e.e. gyda'r nos neu ar benwythnosau)
- ei bod hi’n gallu bod yn anodd dod o hyd i ofal plant cyfrwng Cymraeg
- ei bod hi’n gallu bod yn anodd dod o hyd i ofal ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
- diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am opsiynau gofal plant
- y sialensiau logistaidd sydd ynghlwm wrth drefnu gofal plant i gyd-fynd ag ymrwymiadau gwaith, yn arbennig i fwy nag un plentyn neu o blant ag anghenion ychwanegol
- y canfyddiad bod gofal plant yn ddrud, a diffyg ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael
- dewis unigolion i fod yn rhieni ar yr aelwyd, hyd yn oed os ydyn nhw'n credu y bydd hi'n bwysig iddyn nhw weithio pan fydd eu plant yn cyrraedd pwynt penodol.

Mae'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â chymwysterau/sgiliau yn cynnwys:

- diffyg cymwysterau neu gymwysterau diweddar perthnasol
- diffyg sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith
- diffyg profiad gwaith diweddar/hanes gwaith.

Mae cymhelliant y cyfranogwyr dros gysylltu â PaCE yn amrywio o un unigolyn i'r llall, ond mae gan lawer ohonynt wir ddymuniad i ddod o hyd i waith. Mae hi'n debyg taw'r pwynt pan fo plentyn ieuengaf yr unigolion yn troi'n dair ac yn bump oed yw'r sbardun i rai ymuno â PaCE, naill ai i baratoi ar gyfer gwaith neu i ddechrau chwilio am waith.

# 7. Siwrnai'r Cyfranogwr

## Cyflwyniad

7.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n edrych ar brofiadau'r cyfranogwyr o gymryd rhan yn PaCE, gan gynnwys sut y maent yn dod i gysylltiad â'r rhaglen a'r gwahanol fathau o gymorth y maent yn ei gael. Wrth gyflwyno'r bennod hon, rydyn ni'n cyffwrdd ar agweddau gweithgareddau ac allbwn y theori newid. Cyflwynir y bennod mewn tair prif adran fel a ganlyn:

- Ffynonellau cyfeirio
- Cymorth y cynghorwyr:
  - Yr asesiad diagnostig
  - Cynllunio gweithredu
  - Cyfrifiadau gwell eich byd
  - Mentora a hyfforddi
  - Cymorth yn y gwaith
- Ymyraethau cyflogadwyedd:
  - Hyfforddiant
  - Gwirfoddoli a phrofiad gwaith
  - Y gronfa rwystrau
  - Cymorth gofal plant


## Ffynonellau cyfeirio

7.2 Mae Ffigur 7.1 yn dangos sut y daeth y cyfranogwyr i gysylltiad â PaCE. Cafodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr (73 y cant) eu cyfeirio at PaCE gan JCP, er bod y gyfran hon yn amrywio o 75 y cant i'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 1, i 68 y cant i'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3. Roedd gwahaniaethau ym mhroffil y bobl a gyfeiriwyd ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru hefyd, gyda JCP i'w gweld yn chwarae rôl bwysicach wrth gyfeirio cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a rôl amlycach wrth gyfeirio cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn Nwyrain Cymru.

7.3 Roedd cyfran ychydig bach yn is o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau yn ystod ein gwaith maes wedi cael eu cyfeirio gan JCP (70 y cant). Roedd y 30 y cant sy'n weddill naill ai wedi eu cyfeirio eu hunain, neu roeddent wedi cael eu cyfeirio gan amrywiaeth o ffynonellau fel canolfannau i'r teulu, Dechrau'n

Deg, Canolfannau Plant Integredig (ICCs), ymwelwyr iechyd a thimau FIS, ac amrywiaeth o sefydliadau eraill.

Ffigur 7.1: Cyfran y cyfranogwyr a gysylltwyd a gyfeiriwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith




Ffynhonnell: Y Gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Mawrth 2018

7.4 Mae ein gwaith maes yn awgrymu bod y cyfranogwyr sy'n cael eu cyfeirio gan JCP yn cael eu cyfeirio gan eu hyfforddwyr gwaith fel rheol, neu'n llai cyffredin, trwy gymryd rhan mewn sesiynau grŵp a drefnir ar gyfer rhieni mewn swyddfeydd JCP. Mae rhai cynghorwyr mynd ati'n ymarferol i chwilio trwy gronfeydd data DWP i glustnodi'r rhieni sy'n disgwyl adolygiadau o Gymhorthdal Incwm, ac yn gadael nodiadau i'r hyfforddwyr gwaith i hysbysu eu cleientiaid am PaCE. Fel y nodwyd eisoes, mae cynghorwyr yn rhoi tipyn o ymdrech i gynnal perthnasau da â hyfforddwyr gwaith, a'u hatgoffa am PaCE fel opsiwn i gynorthwyo eu cleientiaid.

7.5 Yn y cyd-destun hwn, nododd sawl cynghorydd na fydd cofnodion hawlwyr y Credyd Cynhwysol ar gael iddynt yn yr un modd ag y maent wedi gallu cyrchu cofnodion hawlwyr Cymhorthdal Incwm hyd nawr. Yn amlwg, bydd hyn yn dwyn goblygiadau o ran gallu'r cynghorwyr i glustnodi darpar-gyfranogwyr.

7.6 Cafodd rhyw 91 y cant (43) o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni oedd â phlant pedair i bump oed adeg ymuno â PaCE eu cyfeirio at y rhaglen trwy JCP. Mae'n debyg bod hyn yn ategu dadl y cynghorwyr bod y pwynt pan fo'r

DWP yn edrych i symud hawlwyr Cymhorthdal Incwm sy'n rheini sengl i'r Lwfans Ceisio Gwaith yn dueddol o fod yn drobwynt pwysig i unigolion ac yn bwynt pan fônt yn fwy agored i ymyraethau fel PaCE hefyd.

7.7 Roedd nifer o gynghorwyr yn teimlo bod ffynonellau cyfeirio eraill wedi dod yn fwy amlwg dros amser hefyd, er bod y mwyafrif o'r cysylltiadau'n dal i ddod gan JCP[72]. Enwyd amrywiaeth eang o ffynonellau eraill, gan gynnwys Dechrau'n Deg, canolfannau/hybiau teulu, ymwelwyr iechyd, timau trais domestig, cymdeithasau tai ac amryw o sefydliadau'r trydydd sector. Roedd cyfeiriadau o ffynonellau o'r fath yn gysylltiedig â chynghorwyr yn cynnal presenoldeb rheolaidd mewn lleoliadau penodol, gan feithrin amlygrwydd y rhaglen yn y gymuned: defnyddiodd y cyfranogwyr y geiriau 'momentwm', 'presenoldeb' ac 'ymwreiddio' yn hyn o beth.

7.8 Byddai dadansoddiad o'r gronfa ddata o gyfranogwyr y rhaglen yn awgrymu bod cyfran uwch o unigolion sy’n dod o aelwydydd un oedolyn (sy’n hawlwyr Cymhorthdal Incwm fel rheol) na'r rhai a oedd yn byw ar aelwydydd â dau neu ragor o oedolion wedi cael eu cyfeirio at PaCE trwy JCP. Eto, mae hyn yn gyson â’r ddadl bod hyfforddwyr gwaith JCP yn cyfeirio cyfranogwyr at PaCE wrth iddynt fynychu adolygiadau cyfnodol. Yn yr un modd, roedd cyfran uwch o'r bobl hynny a oedd yn byw ar aelwydydd â dau neu ragor o oedolion (sy'n llai tebygol o fod yn hawlio budd-daliadau ac o ddod i gysylltiad â JCP) wedi cael eu cyfeirio trwy ffynonellau eraill, neu roeddent wedi eu cyfeirio eu hunain. Gellid dadlau bod y grŵp yma'n anos i PaCE ei gyrraedd am nad ydynt ar radar JCP. Yn wir, nododd un cynghorydd nad yw unigolion nad ydynt yn derbyn budd-daliadau'n dueddol o sylweddoli eu bod yn gymwys i gael cymorth.

7.9 Nid pawb o'r rhai sy'n cael eu cyfeirio gan JCP neu asiantaethau eraill sy'n cysylltu â PaCE. I rai unigolion, nid dyma'r adeg gywir i ddechrau meddwl am waith, er bod rhai o’r bobl sy'n methu â llwyr gysylltu wrth ddod i gysylltiad â'r cynghorwyr yn dychwelyd rhai misoedd yn ddiweddarach 'ar ôl cael amser i feddwl am y peth'.

---

[72] Er y byddai'r gronfa ddata o gyfranogwyr PaCE yn awgrymu na welwyd fawr o newid yn y gyfran o gyfranogwyr sy'n cael eu cyfeirio gan JCP neu ffynonellau eraill fesul chwarter ers lansio'r rhaglen.

**Cymorth y cynghorwyr**

7.10 Roedd hi'n glir o'n sgyrsiau gyda rheolwyr cyflawni, cynghorwyr a chyfranogwyr nad oes unrhyw ddau gynghorydd yn gweithio yn yr un ffordd yn union. Mae'r dull y mae pob cynghorydd yn ei arddel yn dibynnu ar eu profiad a'u hoffterau eu hunain, yn ogystal ag ar anghenion a chymhelliant y cleientiaid. Roedd yna wahaniaethau hyd yn oed yn y ffyrdd yr oedd cynghorwyr unigol sy'n gwasanaethu'r un ardal awdurdod lleol ac sy'n cael eu rheoli gan yr un rheolwr cyflawni yn gweithredu.

7.11 Wedi dweud hynny, fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau'n gorwedd yn y pwyslais a roddir ar agweddau gwahanol o'r gwasanaeth PaCE yn hytrach nag unrhyw beth mwy sylfaenol. Yn y paragraffau nesaf, rydyn ni'n trafod sut y cyflawnir gwahanol elfennau o wasanaeth y cynghorwyr.

*Yr asesiad diagnostig*

7.12 Fel rheol, mae cyfarfod cychwynnol y cynghorwyr â'r cleientiaid yn cynnwys dilysu cymhwyster ac addasrwydd unigolion ar gyfer PaCE, gan esbonio iddynt beth yw PaCE, a sut mae'r rhaglen yn gweithio. Mae nifer fechan o gynghorwyr yn troi at gronfeydd data DWP i 'sgrinio' cleientiaid cyn cyfarfod â nhw er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gymwys ar gyfer PaCE, a’u paratoi eu hunain â gwybodaeth allweddol am statws budd-daliadau'r cyfranogwyr a lefelau eu hincwm.

7.13 Yn ystod y cyfarfod cychwynnol, mae cynghorwyr yn dechrau'r broses o ddod i adnabod cyfranogwyr, deall eu hamgylchiadau a'u huchelgeisiau a chael teimlad o'r pethau sy'n eu hatal rhag gweithio. Yn ystod camau cynnar y cysylltiad, mae yna bwyslais cadarn ar feithrin perthynas gadarnhaol â'r cyfranogwyr a meithrin eu hymddiriedaeth. Proses yw hon sy'n parhau trwy gydol siwrnai pob cleient unigol trwy PaCE, gyda rhwystrau i waith sydd heb eu datgan o’r blaen weithiau’n dod i'r amlwg ar ôl cyfnod o weithio gyda chynghorydd, wrth i ffydd y cleientiaid yn y cynghorwyr dyfu.

7.14 Roedd hi'n glir o'n gwaith maes bod cynghorwyr yn ofalus i bwysleisio natur wirfoddol PaCE, ac i roi'r dewis a'r rheolaeth yn gadarn yn nwylo'r cyfranogwyr, gan gychwyn sgyrsiau gyda chwestiynau fel 'beth wyt ti am ei wneud?' Roedd y mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau’n deall

yn iawn bod PaCE yn rhaglen wirfoddol ac nad oeddent o dan unrhyw orfodaeth i gymryd rhan, er nad oedd hynny o reidrwydd yn hollol glir iddynt pan gawsant eu cyfeirio at PaCE yn wreiddiol.

7.15 Wrth gwrs, nid yw hynny'n golygu nad yw'r cynghorwyr yn herio'r cyfranogwyr. Pwysleisiodd y cynghorwyr bwysigrwydd rheoli disgwyliadau'r cyfranogwyr yn ystod cyfnod cynnar eu cysylltiad, a chadw rheolaeth ar uchelgeisiau a oedd weithiau'n afrealistaidd 'heb ddiffodd eu gobaith yn llwyr'. Yr un pryd, roedd hi'n glir bod cynghorwyr wedi ysbrydoli rhai o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau i fod yn fwy uchelgeisiol, i feddwl y tu hwnt i'w dyfodol uniongyrchol ac i gymryd rhan mewn hyfforddiant na fyddent wedi ei ystyried eu hunain.

7.16 Soniodd y cynghorwyr am yr angen am fod yn onest gyda chleientiaid bod rheoli cyfrifoldebau gofal plant ochr yn ochr â rhwymedigaethau gwaith yn gallu bod yn anodd, yn arbennig i rieni sengl. Yr un pryd, cyfeiriodd cynghorwyr at bwysigrwydd 'gwerthu manteision gwaith' i'r cyfranogwyr eu hunain ac i'w plant.

*Cynllunio gweithredu*

7.17 Mae Cynllun Busnes PaCE yn datgan y caiff 'cynllun gweithredu ei gymeradwyo ag amserlenni cymeradwy ar gyfer gweithgareddau, a hynny ar sail anghenion ac amgylchiadau unigol pob rhiant'[73] ac mae'r Canllawiau Gweithredol yn cyfeirio at ‘gymeradwyo cynlluniau gweithredu Unigol Personol: er mwyn darparu cyfeiriad a strwythur’[74]. Mae'r Canllawiau Gweithredol yn cyfeirio hefyd at ddefnyddio 'Portffolio'r Cyfranogwr i gofnodi trafodaethau a’r camau y cytunir arnynt gyda'r cyfranogwr'[75]. Mewn gwirionedd, mae'r broses o archwilio a chytuno ar ffordd ymlaen rhwng cynghorwyr a chyfranogwyr yn digwydd mewn ffordd sydd llawer yn fwy esblygol a chynyddol nag y mae'r ymadrodd 'cynllunio gweithredu' yn ei awgrymu. Er y gellid trafod nodau tymor hwy'r cyfranogwyr, camau bychain sy'n cael eu cytuno o un cyfarfod i'r nesaf fel rheol, ac mae'r portffolios yn fwy

[73] Gweler er enghraifft, Cynllun PaCE Gorllewin Cymru a'r Cymoedd B1, t.40

[74] Canllawiau Gweithredol PaCE  F2, Mai 2016, t.6

[75] Canllawiau Gweithredol PaCE F2, Mai 2016, t.15

o gofnod o ddialog sy'n esblygu na 'chynlluniau gweithredu' sy'n pennu man cychwyn a man gorffen a'r camau y mae angen eu cymryd ar hyd y ffordd.

7.18 Nid pawb o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau oedd yn ymwybodol o fod wedi datblygu cynllun gweithredu gyda'u cynghorwyr, ac roedd hi'n glir na ddaeth nodau rhai unigolion i'r amlwg nes eu bod wedi bod yn gweithio gyda'r cynghorwyr ers amser, neu ar ôl cymryd rhan yn y gweithgareddau a awgrymodd y cynghorwyr. Er nad oedd y syniad o gynllun gweithredu'n golygu dim i lawer o'r rhai a gafodd gyfweliadau, roedd nifer yn teimlo'n gliriach am eu cyfeiriad ar ôl gweithio gyda'u cynghorwyr. Fel y dywedodd un unigolyn, 'mae'n braf cael rhywun yno i helpu ... i fod yn gallu dweud pethau allan yn uchel ... i gynllunio gyda'ch gilydd... roedd [y cynghorydd] yn rhywun i siarad â nhw ... i eistedd i lawr â nhw a thrafod y camau nesaf... rhoddodd gweld pethau ar bapur rywbeth i mi afael ynddo'. Dywedodd un arall, 'ers i mi ddod i gysylltiad â PaCE, rwy'n teimlo bod cynllun gen i … rwy'n gweld hynny nawr, ac rydw i am wneud rhywbeth gyda fy mywyd'. Soniodd unigolion eraill am gynghorwyr yn eu cynorthwyo i dorri eu siwrneiau i lawr yn gamau hwylus, gan leddfu eu pryderon a chaniatáu iddynt weld y ffordd ymlaen.

7.19 Ar lefel fwy swyddogaethol, dywedodd un unigolyn y byddai hi wedi ei gweld hi'n ddefnyddiol cael rhestr ysgrifenedig o bethau i'w gwneud ar ôl pob cyfarfod fel y gallai fod yn glir ynghylch y tasgau yr oedd angen iddi eu cyflawni. Awgrymwyd felly y gellid e-bostio rhestr at gyfranogwyr yn syth ar ôl eu cyfarfodydd â chynghorwyr.

7.20 Fel y nodwyd eisoes, mae rhai cynghorwyr yn ceisio diweddaru hyfforddwyr gwaith JCP am y gweithgareddau/cynnydd y mae eu cyn-gleientiaid yn ei wneud. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir drwyddi draw ac roedd rhai cyfranogwyr yn synnu cyn lleied o gysylltiad yr oedd yna rhwng eu cynghorwyr a'u hyfforddwyr gwaith, gydag un yn dweud y bu angen iddi esbonio i'w hyfforddwr gwaith beth yr oedd hi wedi bod yn ei wneud gyda'i chynghorydd.

7.21 Roedd gorfod cofnodi nodiadau ar eu trafodaethau â chyfranogwyr â llaw mewn portffolios papur yn achos rhwystredigaeth i lawer o gynghorwyr, er bod pobl ar y cyfan yn deall bod y gofyniad hwn yn deillio o'r ffaith fod PaCE yn cael ei ariannu'n rhannol trwy'r ESF. Galwodd sawl un am gyflwyno e-

bortffolios, ac mae’n debyg y gallai hyn ei gwneud yn haws cyfathrebu â chyfranogwyr ac â hyfforddwyr gwaith JCP.

*Cyfrifiadau Gwell eich Byd*

7.22 Mae'r Cyfrifiadau Gwell eich Byd (BOC) yn arf bwysig i'r cynghorwyr, er bod cynghorwyr unigol yn cyflawni'r BOC ar wahanol adegau yn siwrneiau’r cleientiaid trwy PaCE. Mae rhai yn paratoi BOCs personol cychwynnol cyn iddynt gwrdd â'r cleientiaid fel bod modd iddynt gyfleu'r neges fod yr unigolion o dan sylw'n debygol o fod yn well eu byd mewn gwaith wrth iddynt gwrdd am y tro cyntaf. Mae cynghorwyr eraill yn rhannu BOCs enghreifftiol gyda'r cyfranogwyr er mwyn dangos amcangyfrifon o ran faint yn well eu byd y gallent fod pe baent yn gweithio, dyweder 16, 24 neu 32 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol. Nododd rhai cynghorwyr bod rhai cleientiaid wedi eu 'syfrdanu' gan faint yn well eu byd y gallent fod, a dadleuwyd bod cyflawni'r BOC yn gynnar yn siwrnai'r cyfranogwyr yn gallu bod yn ddarbwyllol a chael effaith gadarnhaol ar lefel eu cysylltiad â'r rhaglen.

Astudiaeth Achos - Ellie

Mam sengl i blentyn dwy oed yw Ellie. Roedd hi wedi gweithio yn y sector croeso yn y gorffennol.

Roedd Ellie am ddychwelyd i’r gwaith ond roedd hi'n 'poeni sut byddai'r arian yn gweithio … roeddwn i'n meddwl y byddai popeth yn dod i ben pan fydden i’n mynd nôl i'r gwaith … y byddai'r holl fudd-daliadau'n stopio … roeddwn i mewn panig llwyr am y peth’. Cyflawnodd y cynghorydd BOC gydag Ellie a rhoddodd hynny’r sicrwydd roedd ei angen arni iddi ddechrau chwilio am waith o ddifri - ‘aeth [y cynghorydd] trwy'r cyfan gyda fi … roedd hynny'n dda … felly roeddwn i'n gwybod y byddwn i'n well fy myd’.

7.23 Mae hi'n bosibl bod y BOCs yn llai darbwyllol yn achos rhieni nad ydynt yn derbyn budd-daliadau. Yn wir, roedd BOCs wedi dangos i rai cyfranogwyr na fyddent yn well eu byd yn y gwaith ar ôl talu costau gofal plant.

7.24 Tra bod BOCs yn tueddu i fod yn nodwedd o gyfarfodydd cynnar y rhan fwyaf o gynghorwyr a'u cleientiaid, nid yw hynny'n wir bob tro, ac mae rhai BOCs yn cael eu cyflawni'n ddiweddarach yn siwrnai'r cyfranogwyr. Hyd yn oed lle nad yw BOCs personol yn cael eu cyflawni yn ystod y sesiynau cyntaf, mae'r agweddau ariannol ar fywydau'r cyfranogwyr yn amlwg mewn trafodaethau rhwng cynghorwyr a chyfranogwyr, ac mae unigolion yn awyddus i sicrhau nad ydynt yn gwneud dim a fyddai’n cyfaddawdu eu diogelwch ariannol na diogelwch ariannol eu plant. Mewn ambell i achos, mae'r cynghorwyr yn eu ffeindio'u hunain yn helpu'r cleientiaid i ddelio â materion sy'n ymwneud â budd-daliadau neu faterion ariannol eraill cyn y gall yr unigolion gysylltu'n ystyrlon â PaCE.

Astudiaeth achos - Ffion

Mae Ffion yn fam sengl i blentyn dwy oed. Y tu hwnt i gyflawni cwpwl o leoliadau gwaith yn fuan ar ôl ymadael â'r ysgol, doedd hi erioed wedi gweithio. Mae Ffion yn cael anawsterau gydag iselder a gorbryder ac nid oedd fawr o hyder ganddi yn ei gallu ei hun i ddod o hyd i waith. Roedd y cymorth a'r anogaeth a gafodd Ffion gan ei chynghorydd yn bwysig wrth roi'r hyder iddi gymryd camau tuag at waith.

Pan ffeindiodd Ffion swydd, rhoddodd ei chynghorydd arweiniad iddi ar y broses o wneud cais am Gredyd Treth Gwaith yn lle Cymhorthdal Incwm. Doedd Ffion ddim yn gwybod dim am gredydau treth cyn hynny, ac roedd hi wedi bod yn poeni sut y byddai'n gallu talu costau gofal plant. Cafodd ei thywys trwy'r broses o newid ei hawl i'r Budd-dal Tai wrth symud i mewn i waith gan ei chynghorydd hefyd.

Roedd y cymorth yma, ynghyd â'r cymorth arall a gafodd gan y cynghorydd, wedi symud i Ffion i sefyllfa lle gallai symud i mewn i waith yn hyderus.

7.25 Mae rhai cynghorwyr yn casglu gwybodaeth am eu sefyllfa ariannol gan y cyfranogwyr ac yn cyflawni BOCs 'all-lein' cyn mynd nôl at y cleient gyda'r cyfrifiad. Roedd hyn i'w gweld yn digwydd am ddau reswm: yn gyntaf, am fod

cysylltiadau â'r rhyngrwyd yn wael mewn rhai ardaloedd, sy'n golygu nad yw'n rhwydd defnyddio'r offeryn BOC ar-lein, ac yn ail, am nad oedd rhai cynghorwyr yn teimlo'n hollol hyderus yn rhoi gwybodaeth a oedd wedi cael ei chyfrifo yn y fan a'r lle i'r cleientiaid heb gael amser i'w hystyried a'i dilysu. Mae rhai cynghorwyr yn cydgysylltu â chydweithwyr yn DWP hefyd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y maent yn ei chynnig ar gredydau trethi gwaith yn gywir. I ryw raddau, mae hyn yn adlewyrchu profiad cynghorwyr unigol a'u gwybodaeth am y system fudd-daliadau a sut i ddefnyddio offer BOC.

7.26 Roedd y cynghorwyr yn gweld BOCs o gymorth mawr wrth ddangos i gleientiaid sut y bydd costau gofal plant yn cael eu gwrthbwyso a mwy gan y Cynnig Gofal Plant ac elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith. Mae hyn yn allweddol wrth dawelu meddwl cyfranogwyr ei bod hi'n 'ddiogel' symud i mewn i waith ac y byddant yn well eu byd yn ariannol yn sgil hynny. Fel y dywedodd un cynghorydd 'Rwy'n dweud wrthyn nhw beth fydd yn digwydd .... y byddan nhw'n iawn pan fyddan nhw'n dechrau gwaith'.

*Mentora a hyfforddi*

7.27 Mae'r broses o ddod i nabod unigolion a dechrau'r siwrnai tuag at waith yn aml yn dechrau gyda chynghorwyr yn helpu'r cyfranogwyr i lunio curricula vitae (CVs) newydd, neu gywreinio'r rhai sydd ganddynt eisoes. Mae llawer o gyfranogwr yn dod â hen CVs ond nid oes fawr ddim perchnogaeth ganddynt dros eu cynnwys. Mae canolbwyntio ar ddatblygu CV yn galluogi'r cynghorwyr i gael rhagor o wybodaeth am brofiad, sgiliau, hanes gwaith a chymwysterau, ac mae hyn yn gosod sylfaen i drafod posibiliadau ar gyfer y dyfodol. Mae rhoi sicrwydd i gyfranogwyr y gallant ddod o hyd i swydd a'i chadw yn agwedd bwysig o'r dialog parhaus sy'n gysylltiedig â datblygu neu gywreinio CVs.

7.28 Mae arferion yn hyn o beth yn amrywio rhwng gwahanol gynghorwyr a rhwng y cleientiaid y mae'r cynghorwyr unigol yn gweithio gyda nhw. Mae rhai'n gofyn i gyfranogwyr lenwi templed CV i'r cynghorydd ei adolygu, tra bod eraill, i bob pwrpas, yn llunio CV drafft (yn seiliedig ar eu trafodaethau) i'r cleient ei adolygu. Mae hyn i'w gweld yn adlewyrchu dulliau cynghorwyr unigol o weithio yn ogystal ag anghenion y cleientiaid. Er bod y sefyllfa'n amrywio rhwng un

cleient a'r llall, nododd y cynghorwyr ei bod hi'n gallu cymryd sawl sesiwn i lunio CV y mae'r unigolyn yn gyffyrddus ag ef.

7.29 Mae'r gwaith o ddatblygu CVs y cyfranogwyr yn aml yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â'r broses o chwilio ac ymgeisio am swyddi. Eto, mae arferion yn amrywio, ond mae hyn fel arfer yn cynnwys cyflwyno cyfranogwyr i wefannau chwilio gwaith, eu cynorthwyo nhw i greu cyfrif *'Find a job'*[76], eu hannog i ddefnyddio Clybiau Gwaith, eu cynorthwyo i ddrafftio llythyrau esboniadol a'u paratoi ar gyfer cyfweliadau. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth ymarferol yr oeddent yn ei gael gan gynghorwyr yn hyn o beth yn hytrach na dim ond cael clywed am wefannau chwilio am swyddi, neu fod pobl yn dweud wrthynt i ymgeisio am swyddi.

Astudiaeth achos - Gwyneth

Mae Gwyneth yn fam i ddau blentyn. Roedd hi wedi gweithio yn y sectorau gofal ac adwerthu, ond doedd hi ddim wedi gweithio ers geni ei hail blentyn rhyw bum mlynedd yn ôl. Roedd hi wedi bod yn meddwl am ddychwelyd i'r gwaith adeg ei chyfarfod cyntaf â'r cynghorydd PaCE, ond doedd hi ddim wedi bod yn chwilio am waith yn ymarferol.

Trafododd Gwyneth a'i chynghorydd ei phrofiad gwaith a'r mathau o swyddi y gallai fod ganddi ddiddordeb ynddynt. Wedyn, cynorthwyodd y cynghorydd Gwyneth i lunio CV a chofrestru gyda gwefannau chwilio am swyddi. Dywedodd Gwyneth 'aeth hi allan o'i ffordd i fy helpu ... dwi ddim yn gwybod sut i greu CV ... dwi'n 35 a dwi ddim yn gwybod sut i wneud fy CV, ac fe helpodd hi fi o'r dechrau i'r diwedd, helpodd fi i gofrestru ar safleoedd swyddi a phopeth fel 'ny ... roedd hi'n llawer o help ... ffoniodd hi fi bob wythnos i ofyn sut roedd pethau'n mynd'. Aeth Gwyneth ymlaen i ddweud bod y cymorth a gafodd gan y cynghorydd 'filiwn gwaith yn well na beth oeddwn i'n ei gael gan y Ganolfan Waith .... pan oedd hi jyst, wel doedd neb byth yn ffonio ... dim ond "mae apwyntiad 'da ti" ... apwyntiad pum munud cyflym wedyn mas trwy'r drws'.

[76] Mae 'Find a Job' wedi cymryd lle'r Universal Jobmatch ers lansio PaCE.

7.30 Yn wir, yn yr un modd â Gwyneth, cyferbynnodd nifer o gyfranogwyr eu profiad o weithio gyda chynghorwyr PaCE â'u profiad o weithio gyda hyfforddwyr gwaith JCP. Gwelwyd yr amser sydd gan y cynghorwyr i'w dreulio gyda chyfranogwyr, a natur wirfoddol y gyfranogaeth fel cryfderau allweddol PaCE o ran eu bod yn caniatáu ar gyfer meithrin perthnasau mwy agored a chyfartal rhwng y cyfranogwyr a'r cynghorwyr na'r rhai sy'n bodoli rhwng hyfforddwyr gwaith a'u cleientiaid. Dywedodd sawl un o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n fwy cyffyrddus yn siarad â chynghorwyr am amrywiaeth o faterion, nid yn unig materion sy'n ymwneud â dod o hyd i waith, a bod hyn yn galluogi'r cynghorwyr i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o sefyllfaoedd y cyfranogwyr, a darparu cymorth ar lefel fwy personol nag y gall hyfforddwyr gwaith JCP ei chynnig.

7.31 Dywedodd nifer o gyfranogwyr eu bod yn cael yr amser i ddatblygu yn eu pwysau eu hunain yn hytrach na chael eu gorfodi i mewn i rywbeth cyn eu bod nhw'n barod. Fodd bynnag, nododd y cynghorwyr bod rhai cyfranogwyr yn 'diflannu' am eu bod yn delio â 'digwyddiadau bywyd' neu’n 'meddwl am bethau'. Mae rhai yn ailgydio yn y rhaglen ymhen ychydig wythnosau neu fisoedd, ac maent mewn sefyllfa well i symud ymlaen ar ôl cael amser i fyfyrio ar eu hopsiynau. Am y rheswm hwn, weithiau mae cynghorwyr yn gyndyn i ddatgysylltu cyfranogwyr sydd i'w gweld wedi colli cysylltiad â'r broses.

Astudiaeth Achos – Helen

Mae Helen yn fam i bedwar plentyn, gan gynnwys gefeilliaid pump oed. Cyn geni'r efeilliaid, roedd Helen wedi bod yn gweithio mewn rôl 'broffesiynol gyswllt' ers sawl blwyddyn. Ar ôl geni'r efeilliaid (y mae gan un ohonynt broblemau iechyd parhaus), dioddefodd Helen o iselder ôl-enedigol a gwahanodd wrth dad y plant yn sgil hynny. Aeth i ddyled, ‘collodd [ei] chartref, y car, popeth ... aeth y cyfan mas drwy'r ffenest’.

Ymunodd Helen â PaCE ar sal argymhelliad hyfforddwr gwaith JCP, ond nid oedd unrhyw syniadau clir ganddi am symud i mewn i waith ar y pwynt yna. Roedd hi'n ymwybodol, fodd bynnag, y byddai'n gorfod symud o Gymhorthdal Incwm i JSA pan fyddai'r efeilliaid yn troi'n bump oed, ac roedd

hi'n sylweddoli bod angen iddi wneud rhywbeth.

Ar ôl trafod ei phrofiad blaenorol a beth yr hoffai wneud yn y dyfodol gyda'r cynghorydd, ymgeisiodd Helen am swydd mewn maes a oedd yn gysylltiedig yn agos â'r gwaith roedd hi wedi ei wneud yn y gorffennol. O gymryd ei phrofiad blaenorol, roedd hi'n meddwl y byddai'n ddewis naturiol ar gyfer y swydd, a thorrodd ei chalon pan fethodd â chael gwahoddiad am gyfweliad hyd yn oed. Aeth Helen i'w chragen yn sgil hyn a rhoddodd y gorau i gysylltu â'i chynghorydd. Er i'r cynghorydd geisio gysylltu â hi trwy neges destun a dros y ffôn sawl gwaith, dywedodd Helen 'roedd hi'n anodd... fe droais i 'nghefn ar y cyfan ... doeddwn i ddim yn gallu ymdopi â'r syniad o ddychwelyd i'r gwaith ... roedd fy meddwl i dros y lle i gyd'.

Daliodd y cynghorydd ati i geisio cysylltu, ac ymhen hir a hwyr, penderfynodd Helen ailgydio ynddi. Roedd hi'n meddwl ei bod hi'n hynod 'na wnaeth [y cynghorydd] roi'r ffidil yn y to ... mae hi wir am fy helpu'. Ond roedd y cynghorydd yn dal yn ansicr a oedd Helen wir yn barod i gysylltu'n llwyr â PaCE hyd yn oed yn y pwynt yna.

7.32 Roedd lefel a dwyster y cymorth mentora a gafodd y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau'n amrywio, yn dibynnu ar anghenion pob unigolyn a'u gallu i gysylltu. I rai, roedd PaCE yn ymyrraeth gymharol fyr a oedd yn rhoi'r 'hwb' yr oedd ei angen arnynt i symud ymlaen. Cafodd eraill lefelau uwch o gymorth mentora (gwybodaeth, arweiniad, sicrwydd ac anogaeth) dros gyfnod estynedig. Soniodd rhai cyfranogwyr am 'ddod yn fwy hyderus' a theimlo'n 'gryfach', a bod angen llai o gymorth y cynghorydd arnynt wrth i amser fynd yn ei flaen, tra bod eraill yn digalonni pan oedd ceisiadau am swyddi'n aflwyddiannus ac yn troi at eu cynghorwyr am sicrwydd ac anogaeth barhaus.

7.33 Mae amledd y cyfarfodydd â chynghorwyr yn amrywio o un cyfranogwr i'r llall hefyd. Fodd bynnag, yn aml iawn bu angen aildrefnu cyfarfodydd rhwng cynghorwyr a chyfranogwyr ar fyr rybudd, weithiau am fod y cyfranogwyr neu eu plant yn sâl, weithiau am fod pethau wedi mynd yn drech na'r cyfranogwyr, ac weithiau am fod y cyfranogwyr wedi 'anghofio'. Roedd hyn yn amlwg yn achos rhwystredigaeth ac yn golygu amser segur i'r cynghorwyr, er bod rhai'n

trefnu mwy o apwyntiadau mewn diwrnod nag yr oedd modd iddynt eu cyflawni'n realistaidd o wybod na fyddai pob cyfranogwr yn dod.

7.34 Roedd rhai cynghorwyr yn anfon negeseuon testun at y cleientiaid naill ai'r diwrnod cyn yr apwyntiad neu ar y diwrnod i'w hatgoffa am yr apwyntiad. Roedd anfon negeseuon testun, e-bost a ffôn yn allweddol hefyd wrth gynnal cysylltiadau â'r cyfranogwyr rhwng cyfarfodydd, yn nhermau rhannu gwybodaeth gyda'r cyfranogwyr a gofyn iddynt sut roedd pethau'n mynd, a'u hatgoffa bod cymorth ar gael os oedd angen.

7.35 Roedd cynghorwyr mewn un ardal yn trefnu 'grwpiau rhieni' er mwyn tynnu cyfranogwyr PaCE ynghyd. Yn ogystal â rhoi cyfle i'r cyfranogwyr gwrdd a siarad â phobl yn yr un sefyllfa â nhw, roedd cynrychiolwyr y timau gwasanaethau i deuluoedd neu ysgolion lleol yn mynychu rhai cyfarfodydd, gan ganiatáu i'r rhieni ddysgu rhagor am y math o gymorth sydd ar gael a'r dewisiadau sy'n agored iddynt. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ryngweithio â rhieni eraill mewn sefyllfa debyg, ac roedden nhw'n mwynhau gweld eu plant yn chwarae gyda phlant eraill.

7.36 Roedd y cyfranogwyr yn llawn canmoliaeth am eu cynghorwyr, gyda'r sylwadau canlynol yn cyfleu'r teimlad ehangach:

- 'rwy'n gwybod ei bod hi yma i helpu'
- 'roedd y cymorth a gefais i'n wych ... roedd hi'n beth da bod [y cynghorydd] yn fy nghynorthwyo i edrych ar fy holl opsiynau a phenderfynu pa lwybr gyrfaol oedd yn iawn i fi'
- 'roedd jyst cael mynd i siarad â rhywun sy'n gwybod mwy, sy'n cynnig helpu, sy'n gallu dilysu pethau ... a chael rhywun i fy nghynorthwyo i'n ffab'
- 'mae hi'n gwybod sut i dawelu meddwl rhywun, a rhoddodd gyfle i fi siarad. Hi, yn sicr, yw'r person iawn am y job'.

7.37 Nododd lond llaw o gyfranogwyr eu bod wedi cael anawsterau wrth gysylltu â'u cynghorwyr, er, yn aml iawn mae'n debyg taw'r cyfranogwyr oedd ar fai llawn cymaint â'r cynghorwyr yn hynny o beth.

7.38 Byddai'n gronfa ddata o gyfranogwyr yn awgrymu bod yn well gan ddau y cant o'r cyfranogwyr gyfathrebu yn Gymraeg, er bod 17 y cant yn medru'r iaith. Byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod cynghorwyr sy'n medru'r Gymraeg yn defnyddio cymysgedd o Gymraeg a Saesneg wrth ddelio â chyfranogwyr sy'n medru'r Gymraeg, yn dibynnu ar ddewis y cyfranogwyr unigol. Ni chododd ein gwaith maes unrhyw achosion o gyfranogwyr yn methu â defnyddio'r Gymraeg pan roeddent am wneud hynny.

*Cymorth yn y gwaith*

7.39 Fel y nodwyd eisoes, lle bo cyfranogwyr yn diogelu cyflogaeth, mae cynghorwyr yn aml yn eu cynorthwyo i gwblhau’r gwaith papur am gredydau treth, a thrwy hynny, sicrhau eu bod yn cael y cymorth ariannol sydd ei hangen arnynt yn ystod y cyfnod pontio.

7.40 Awgrymodd nifer o gyfranogwyr a chyfranwyr y dylai PaCE gynnwys elfen ffurfiol o gymorth yn y gwaith a fyddai'n caniatáu i'r cynghorwyr gynorthwyo'r cyfranogwyr trwy'r broses o bontio i gyflogaeth, sy'n gallu bod yn ddigon cythryblus. Fel y dywedodd un cyfranogwr 'mae hi'n drueni ei bod hi'n hwyl fawr nawr fod gen i swydd ... mae gen i set newydd sbon o bryderon nawr ... [a] bydd fy sefyllfa mewn perthynas â gofal plant yr un fath'. Fodd bynnag, roedd hi'n glir bod cysylltiadau rhwng cynghorwyr a'u cleientiaid yn aml yn ymestyn y tu hwnt i ddatblygiad cyfranogwyr i mewn i waith, gyda'r unigolion sy'n gweithio’n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn gallu troi nôl at eu cynghorwyr pe bai angen.

7.41 Awgrymodd rhai y gallai cymorth yn y gwaith gynnwys cyllid i ariannu hyfforddiant parhaus hefyd er mwyn gwella cynaliadwyedd deilliannau o ran swyddi a chynorthwyo datblygiad yn y gweithle.

7.42 Yn ogystal, dadleuodd y cynghorwyr dros well cydnabyddiaeth i'r gwaith a wneir i helpu'r bobl hynny sy'n symud i mewn i waith ond sy'n methu â chynnal y swyddi hynny. Roedd y ffaith nad oedd deilliannau pellach o ran swyddi'n cael cydnabyddiaeth ar ôl adrodd ar y deilliant swydd cychwynnol yn siomedig i rai.

**Ymyraethau cyflogadwyedd**

*Hyfforddiant*

7.43 Wrth weithio gyda chyfranogwyr, mae cynghorwyr yn ystyried a fyddai'n fanteisiol i'r unigolyn o dan sylw ddilyn hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau, ennill cymwysterau a chael rhywbeth diweddar i'w ychwanegu at eu CV. Mae math, lefel a dwyster yr hyfforddiant a ddilynir yn amrywio'n sylweddol, o gyrsiau byr, generig neu anachrededig, i gyrsiau galwedigaethol hirach sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig.

7.44 Roedd y cynghorwyr yn gweld cyrsiau galwedigaethol byrion, fel hylendid bwyd/diogelwch bwyd sylfaenol, cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch a diogelu fel man cychwyn da i unigolion heb gymwysterau a/neu sydd wedi bod allan o waith neu addysg ers nifer o flynyddoedd. Daw cyrsiau o'r fath o dan adain rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a CaW+[77] ac fel rheol fe'u cynigir yn ystod oriau ysgol mewn lleoliadau fel ICCs, safleoedd hybiau cymunedol neu'r trydydd sector, sy'n golygu eu bod yn fwy hygyrch i rieni.

7.45 Dilynwyd cyrsiau â'r bwriad o ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd y cyfranogwyr hefyd. Darperir cyrsiau o'r fath gan ddarparwyr sydd dan gontract i JCP (DWP) yn ogystal â’r darparydd sydd ar gadw gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant ar gyfer cyfranogwyr PaCE a CaW yn benodol. Mewn rhai ardaloedd, roedd cyflogwyr a oedd yn awyddus i recriwtio’n cynnig hyfforddiant i ddilyn llwybrau galwedigaethol penodol. Mae cyfranogwyr sy’n cymryd rhan mewn cyrsiau o'r fath yn aml yn cael cyfweliad gwarantedig ar ddiwedd yr hyfforddiant.

7.46 Roedd cyfranogwyr a oedd am ennill cymwysterau mewn disgyblaethau ym meysydd gofal plant, cynorthwyo addysgu a dysgu, harddwch, busnes ac adeiladu’n dilyn amrywiaeth o raglenni hyfforddi mwy sylweddol. Roedd darpariaeth o'r fath yn dueddol o gael ei chynnig naill ai gan golegau Addysg Bellach neu gan ddarparydd Llywodraeth Cymru.

[77] Gynt, y Grant Cymorth Cyflogadwyedd a Chymunedau yn Gyntaf

7.47 I bob pwrpas, mae ein gwaith maes gyda'r cyfranogwyr yn awgrymu bod cyfranogwyr yn credu bod yr hyfforddiant a gawsant o ansawdd da ac yn berthnasol i'w huchelgeisiau gwaith.

7.48 Fodd bynnag, roedd y ffaith nad oeddent yn gallu cyrchu'r math o hyfforddiant roedd ei eisiau arnynt am nad oedd hyfforddiant addas ar gael yn lleol, ac am ei bod yn afrealistaidd disgwyl i gyfranogwyr deithio i leoliadau lle'r oedd y cyrsiau'n cael eu cynnal, yn destun rhwystredigaeth i rai. Roedd canfyddiad eraill am amharodrwydd eu cynghorwyr i'w cynorthwyo i gyflawni pecyn o gyrsiau cydgysylltiedig yn siomedig i rai cyfranogwyr.

7.49 Roedd y ffaith nad oeddent yn gallu cyrchu hyfforddiant uwch lefel 2 gan y darparydd sydd dan gontract i Lywodraeth Cymru'n achos rhwystredigaeth i rai cyfranogwyr. Fodd bynnag, mae Canllawiau Hyfforddi PaCE yn nodi'n glir, yn achos y cyrsiau a ddarperir gan ddarparydd Llywodraeth Cymru 'yr ystyrir cyfeiriadau hyfforddi ar gyfer lefel 3 ar sail achosion unigol, ond eithriad fyddai achosion o'r fath a byddai angen cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â hyn'[78]. Dadleuodd ambell i gyfranogwr bod arnynt angen cymwysterau lefel uwch i ddiogelu swyddi 'gwerth chweil' a'u 'cadw oddi ar fudd-daliadau', a gellir dadlau bod y polisi a bennir yn y Canllawiau Hyfforddi ychydig bach yn anghyson o'i ystyried yng nghyd-destun y diffiniad a roddir yn y Canllawiau Gweithredol am 'berson â sgiliau isel' fel unigolyn heb gymwysterau 'uwch lefel 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)'[79]

7.50 Roedd bylchau yn y ddarpariaeth hyfforddiant yn destun siom i'r cynghorwyr hefyd ac roedd rhai yn gyndyn i gyfeirio cleientiaid at ddarparydd hyfforddiant Llywodraeth Cymru am nifer o resymau, sef:

- nad oeddent yn credu y byddai'r darparydd yn darparu'r cyrsiau yr oeddent yn gofyn amdanynt yn eu hardaloedd lleol. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd gwledig lle mae'n anodd i'r darparydd ddenu grwpiau digon mawr o gyfranogwyr i wneud cyrsiau'n hyfyw.


[78] Canllawiau Hyfforddi Cymunedau am Waith a PaCE F2.0,Ebrill 2018 t.6
[79] Canllawiau Gweithredol PaCE (2016) t.19

- nid yw darparydd Llywodraeth Cymru'n is-gontractio i ddarparwyr lleol ym mhob ardal, sy'n golygu nad oes cyfle bob tro i gyfranogwyr PaCE adlenwi darpariaeth y talwyd amdano sy'n bodoli eisoes. Awgrymwyd bod darparwyr y brif ffrwd mewn rhai ardaloedd yn gyndyn i weithredu fel isgontractwyr i'r darparydd sydd ar gadw.
- mae trefniadau ar gyfer cyrsiau (o ran amseriad a lleoliad) wedi bod yn destun newid ar fyr rybudd gan ddarparydd Llywodraeth Cymru, sydd wedi tanseilio hyder y cynghorwyr yn y sefydliad.
- darperir llawer o'r cyrsiau yng nghanolfan hyfforddi darparydd Llywodraeth Cymru. Mae hyn mewn lleoliad anghyfleus ac anhygyrch i lawer o'r cyfranogwyr, o ystyried yr angen am wneud trefniadau gofal plant a theithio yno. Yn wir, roedd hi'n glir bod rhai cyfranogwyr a oedd wedi bod yn awyddus iawn i ddilyn cyrsiau penodol wedi teimlo bod yr her o gludo eu plant i leoliadau gofal plant a theithio ymhell i ganolfannau hyfforddi'n ormod iddynt mewn gwirionedd.
- mae'r broses o gymeradwyo ceisiadau a threfnu hyfforddiant yn gallu bod yn hirwyntog ac mae'r cyfranogwyr yn symud ymlaen cyn y gellir trefnu'r hyfforddiant.

7.51 Mae Tabl 7.2 yn dangos y gwelwyd twf cyson yn nifer y bobl sy'n elwa ar y cyrsiau y mae'r darparydd sydd dan gontract i Lywodraeth Cymru'n eu cynnig ers penodi'r darparydd yn Ebrill 2016, sy'n adlewyrchu'n rhannol y cynnydd yn y teitlau a gynigir; yn ogystal â'r cynnydd yn niferoedd y cyfranogwyr. Erbyn Mawrth 2018, roedd cyfranogwyr PaCE wedi cymryd rhan mewn 549 o sesiynau dysgu[80] ar draws 244 o gyrsiau a gyflwynwyd gan ddarparydd Llywodraeth Cymru.

[80] Mae hi'n bosibl i gyfranogwyr unigol gymryd rhan mewn mwy nag un cwrs.

Ffigur 7.2: Defnydd o'r hyfforddiant a gynigir gan ddarparydd Llywodraeth Cymru fesul chwarter[81]




Ffynhonnell: Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dadansoddiad o'r hyfforddiant a ddarparwyd


7.52 Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n derbyn yr hyfforddiant yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd, gyda rhai'n gwneud ychydig iawn o ddefnydd o'r ddarpariaeth hyd yn hyn. Fel y nodir yn ffigur 7.3, ardaloedd yn y de-orllewin sydd wedi gwneud y defnydd mwyaf o'r ddarpariaeth, tra bod y rhai yn y gogledd wedi gwneud llai o ddefnydd ohoni o lawer. Mae'r defnydd wedi bod yn is o lawer yn nwyrain Cymru nac yn ardaloedd de-orllewinol Cymru. I ryw raddau, mae hyn yn adlewyrchu lleoliad prif ganolfan hyfforddi darparydd Llywodraeth Cymru, sy'n fwy hygyrch i unigolion sy'n byw yn ardaloedd deheuol a gorllewinol Cymru. Mae'r darparydd wedi cael anawsterau dod o hyd i is-gontractwyr i ddarparu hyfforddiant mewn rhannau o'r gogledd a'r dwyrain, a berodd i reolwyr cyflawni PaCE drefnu achlysuron 'cwrdd â'r darparwyr' mewn ymdrech i sbarduno diddordeb darparwyr lleol[82]. Mae cynghorwyr mewn rhai ardaloedd wedi tynnu grwpiau o gyfranogwyr ynghyd fel bod modd cynnal cyrsiau'n lleol, gan weithio gyda chydweithwyr o CaW mewn un achos. Erbyn hyn, cynigir mwy o ddarpariaeth y tu hwnt i brif

[81] Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dadansoddiad o'r hyfforddiant a ddarparwyd

[82] Cyfarfod y Bwrdd Strategol, Hydref 2017: Eitemau 7d a 7e ar yr Agenda – ACT Training and Innovation Update, t.2

ganolfan hyfforddi'r darparydd, er bod y niferoedd sy'n manteisio arno'n dal i fod yn gymharol isel.

Ffigur 7.3: Defnydd o'r hyfforddiant a gynigir gan ddarparydd Llywodraeth Cymru fesul ardal[83]




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dadansoddiad o'r hyfforddiant a ddarparwyd

7.53 Nid yw'r gronfa ddata o gyfranogwyr PaCE yn cofnodi'r hyfforddiant a gyflawnwyd, felly nid oes modd pennu niferoedd y cyfranogwyr a ddilynodd yr hyfforddiant, ar wahân i'r hyfforddiant a gynigiwyd gan ddarparydd Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai ein gwaith maes gyda'r cyfranogwyr yn awgrymu y gwnaed mwy o ddefnydd o ddarparwyr lleol yn rhai o'r ardaloedd lle mae'r defnydd o gyrsiau darparydd Llywodraeth wedi bod yn is. Byddai ein gwaith maes yn awgrymu hefyd bod nifer o'r cyfranogwyr cyfredol yn bwriadu cychwyn hyfforddiant ym mis Medi, ar ôl i’w plant ddechrau/ dychwelyd i'r ysgol.  Fodd bynnag, o ystyried maint cymharol fach ein sampl o gyfranogwyr, dylid trin y canfyddiad hwn â rhywfaint o bwyll.

[83] Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dadansoddiad o'r hyfforddiant a ddarparwyd

7.54 Mae tabl 7.1 yn dangos y gwariant ar hyfforddiant o dan raglen PaCE yn ôl y sefyllfa ym Mawrth 2018.

Tabl 7.1: Y gwariant a broffiliwyd a'r gwir wariant ar hyfforddiant PaCE

| PaCE | GCaC B1 | GCaC B3 | DC B1 | DC B3 | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Gyllideb hyd 2020 | £450,000 | £117,509 | £274,350 | £65,770 | £907,629 |
| Proffil hyd Faw18 | £175,100 | £46,600 | £101,300 | £24,300 | £347,300 |
| Gwariant hyd Faw18 | £281,422 | £88,657 | £62,572 | £14,842 | £447,493 |
| Nifer y cyfranogwyr | 199 | 88 | 60 | 21 | 368 |
| Cost fesul cyfranogwr | £1,414 | £1,007 | £1,043 | £707 | £1,216 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

7.55 Cyfeiria'r ffigurau uchod at yr hyfforddiant a ddarperir gan ddarparydd Llywodraeth Cymru, ynghyd â nifer fach o ddarpariaethau 'pwrpasol' a ariannwyd yn nyddiau cynnar y rhaglen. Fodd bynnag, nid yw'n cynrychioli cyfanswm cost yr hyfforddiant a gyflawnwyd gan gyfranogwyr PaCE. Fel y nodwyd eisoes, mae rhai cyfranogwyr yn dilyn hyfforddiant a gyflawnir dan adain rhaglenni fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, yn ogystal â chyrsiau a drefnir gan JCP a cholegau Addysg Bellach. At hynny, mae cymorth ariannol ar gael ar gyfer hyfforddiant sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag uchelgeisiau gwaith realistaidd hawlwyr budd-daliadau trwy Gronfa Cymorth Ariannol DWP. Dywedodd rhai cynghorwyr yn blwmp ac yn blaen eu bod nhw'n troi at y ffynhonnell yma i ariannu hyfforddiant am ei bod hi'n syml i'w chyrchu trwy broses gaffael gwerth isel DWP, a lle bo angen cymorth ar gyfer pecyn o gyrsiau hyfforddi rhyng-gysylltiedig, mae'r broses o wneud cais yn symlach o lawer na'r un y mae darparydd Llywodraeth Cymru'n ei defnyddio, lle caniateir i gynghorwyr ofyn am un cwrs ar y tro yn unig.

7.56 O ystyried y ddrysfa o gylch y gwahanol ddarparwyr hyfforddiant, dosbarthiad y ddarpariaeth ar draws Cymru, a'r dulliau a ddefnyddir i dalu am hyfforddiant, dadleuodd rhai y dylai Llywodraeth Cymru ymddiried ym marn y cynghorwyr a rhoi'r disgresiwn iddynt dalu am ddarpariaeth hyfforddiant lleol na allant ei gyrchu yn rhad ac am ddim, na all gael ei ariannu trwy'r FSF neu nad yw ar gael trwy ddarparydd Llywodraeth Cymru.

*Profiad gwaith neu wirfoddoli*

7.57 Mae cynghorwyr yn annog cyfranogwyr i ystyried cyflawni lleoliadau gwaith er mwyn cael profiad o fathau penodol o waith, magu hyder, cael rhywbeth i'w roi ar eu CVs a chael tystlythyrau diweddar. Yn ogystal â bod yn ffordd o ddatblygu sgiliau gwaith, gwelir lleoliadau gwaith fel ffordd o alluogi cyfranogwyr i roi cynnig ar feysydd gwaith nad ydynt wedi gweithio ynddynt o'r blaen ac i dreialu'r defnydd o ofal plant ffurfiol wrth iddynt weithio neu wirfoddoli.

7.58 Mae'r Canllawiau Gweithredol yn gwahaniaethu rhwng dau gategori gwahanol o leoliadau gwaith: profiad gwaith, a ddiffinnir fel 'lleoliad byr neu o hyd penodol mewn gweithle gyda'r nod o wella cyflogadwyedd'; a gwirfoddoli, a ddiffinnir fel 'lleoliad neu weithgaredd digyflog lle mae cyfranogwr yn gweithio dros sefydliad heb dâl, gan helpu'r sefydliad hwnnw a gwella ei gyflogadwyedd' [84].

7.59 Byddai'r gronfa ddata o gyfranogwyr yn awgrymu nad oes unrhyw gyfranogwyr wedi cyflawni lleoliadau 'profiad gwaith' cyflogedig, a dim ond tri y cant o'r cyfranogwyr sydd wedi cyflawni lleoliadau 'gwirfoddol'. Fodd bynnag, mae ein gwaith maes yn cynnig darlun dipyn mwy cadarnhaol, gydag 20 y cant o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni (16) yn dweud eu bod wedi gwneud rhywfaint o waith gwirfoddol yn gysylltiedig â gwaith, a 15 y cant (12) yn dweud eu bod wedi gwneud hynny am gyfanswm o fwy na 50 awr. Er taw prin iawn yw nifer y lleoliadau profiad gwaith cyflogedig, mae gwirfoddoli digyflog sy'n gysylltiedig â gwaith yn nodwedd amlycach o'r rhaglen nag y byddai dadansoddiad o'r gronfa ddata yn ei awgrymu, sy'n adlewyrchu’n rhannol anfodlonrwydd y cynghorwyr i gofnodi lleoliadau gwirfoddol nes bod y cyfranogwyr wedi ymadael â'r rhaglen.

7.60 Bu’r cynghorwyr yn allweddol wrth drefnu rhai lleoliadau gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â gwaith. Wrth ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli a'u trefnu, mae'r cynghorwyr yn tueddu i gydweithio'n agos â chynghorwyr cyflogaeth JCP ac â Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS).

[84] Canllawiau Gweithredol PaCE t.22

7.61 Roedd rhai o'r bobl hynny a oedd wedi manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â gwaith wedi cael hyfforddiant i'r fargen hefyd, er enghraifft yn rhan o gynllun 'cronfa dalent' y GIG neu 'brosiect gwirfoddoli dros les' yn lleol. I eraill, roedd lleoliadau gwirfoddoli'n rhan annatod o'r hyfforddiant yr oedd y cyfranogwyr yn ei ddilyn wrth weithio tuag at gymwysterau penodol e.e. cymwysterau Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD) neu hyfforddiant i fod yn Gynorthwyydd Cefnogi Addysgu a Dysgu (STLA).

7.62 Roedd y cyfranogwyr hynny a oedd wedi cyflawni lleoliadau gwirfoddol yn gysylltiedig â gwaith yn gadarnhaol ynghylch y profiad, gyda nifer fechan yn cael cynnig swyddi gan y sefydliadau lle'r oedden nhw wedi bod yn gwirfoddoli yn sgil hynny.

Astudiaeth achos: India

Mae India'n fam i dri, a doedd hi ddim wedi gweithio ers 2011. Wrth i'w phlentyn lleiaf nesáu at oedran ysgol, roedd India wedi dechrau chwilio am waith ond heb unrhyw lwyddiant. Ar ôl bod allan o'r gweithle am dros chwe blynedd, sylweddolodd bod arni 'angen cefnogaeth a chymorth' i lunio CV - 'doeddwn i ddim yn gwybod ble i ddechrau' - ac i gyflawni gweithgareddau chwilio am swyddi.

Ar ôl drafftio CV i India ar sail sgwrs am ei hanes gwaith a beth roedd hi'n gobeithio'i wneud yn y dyfodol, cysylltodd y cynghorydd â nifer o gyflogwyr i ofyn a fyddent yn fodlon cynnig 'treial gwaith' i India. Cynigiodd un o'r cyflogwyr hyn wythnos o leoliad gwaith iddi. Yn ystod yr wythnos, tecstiodd y cynghorydd India bob dydd i ofyn sut roedd pethau'n mynd ac i gynnig cefnogaeth iddi os oedd angen. Ar ôl wythnos gyntaf lwyddiannus ar y lleoliad, cynigiwyd ail wythnos iddi.

Ar ddiwedd yr ail wythnos, cafodd India wahoddiad i wneud cais am swydd, a llwyddodd i gael swydd barhaol gyda'r cyflogwr. Yn ôl India, roedd 80 o bobl wedi ymgeisio am y swydd, ond roedd y ffaith fod ei chyflogwr wedi ei

gweld hi wrth ei gwaith, 'wedi rhoi’r fantais [iddi]'.

7.63 Soniodd cyfranogwyr eraill am leoliadau gwaith gwirfoddol yn rhoi'r 'hyder' iddynt y gallent gadw swydd, ac yn rhoi’r sicrwydd iddynt fod y gwaith o dan sylw 'yn sicr yn rhywbeth [roeddent] am barhau ag ef ... ei fod e'n iawn'.

7.64 Ystyriwyd taw un o gryfderau allweddol y rhaglen PaCE oedd y cwmpas y mae'n ei ganiatáu i gyfranogwyr wirfoddoli am ychydig oriau'r wythnos i gychwyn cyn adeiladu i 16 awr (isafswm y DWP) neu ragor wrth iddynt ddysgu, datblygu rwtîn, magu hyder a dechrau teimlo mwy o sicrwydd bod y trefniadau gofal plant a sefydlwyd yn gweithio.


*Y gronfa rwystrau*

7.65 Cyfyngedig yw'r defnydd o gronfa rwystrau PaCE, a hynny'n syml am y gellir talu'r rhan fwyaf o'r costau trwy FSF y DWP. Mae'r cynghorwyr yn gweld y gronfa rwystrau fel cronfa pan fetho popeth arall (yn unol â'r bwriad) ac fel rheol fe'i defnyddir i dalu costau na all yr FSF eu talu, er enghraifft costau archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), costau dros ben terfyn £300 yr FSF a chostau sy'n ymwneud â phobl nad ydynt yn hawlio budd-daliadau.

7.66 Roedd lleiafrif o'r cynghorwyr yn osgoi defnyddio'r gronfa rwystrau am fod y broses yn feichus ac yn gymhleth, a soniodd eraill am anawsterau'n codi o'r polisi o ad-dalu cyfranogwyr am y costau a dynnwyd, er y cydnabuwyd bod yna gyfleuster i ad-dalu'r un diwrnod.

7.67 Erbyn 31 Mawrth 2018, cyfanswm y gwariant ar y gronfa rwystrau oedd £11,983. Mae Ffigur 7.4 yn dangos y twf cyson yn y gwariant ar y gronfa rwystrau ers lansio PaCE, er bod nifer y bobl a oedd yn manteisio ar gymorth y gronfa rwystrau'n is na'r disgwyl, ar lefel o ryw 16 y cant o'r proffil hyd Fawrth 2018.

Ffigur 7.4: Gwerth y taliadau a wnaed o'r gronfa rwystrau fesul chwarter




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dadansoddiad o'r taliadau o'r gronfa rwystrau

*Gofal plant*

7.68 Lle bo modd, mae'r cynghorwyr yn ymdrechu i drefnu cyfarfodydd â chyfranogwyr yn ystod oriau meithrin neu ysgol, gan roi cyfle iddynt siarad â'u cleientiaid heb fod neb yn tarfu arnynt. Yn wir, mae hyn yn effeithio rhywfaint ar ddiwrnod gwaith y cynghorwyr, o ran eu bod yn cyflawni cyfran deg o'u gwaith gyda chleientiaid yn ystod oriau ysgol. Fel y nodwyd eisoes, mae cynghorwyr yn cyflawni nifer o ymweliadau cartref hefyd, er y byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod y defnydd o ymweliadau cartref yn amrywio'n sylweddol o un ardal i'r llall. Ystyriwyd bod ymweliadau cartref yn arbennig o ddefnyddiol pan nad yw plant y cyfranogwyr wedi dechrau meithrin neu ysgol. Dywedodd y cynghorwyr a'r cyfranogwyr bod ymweliadau cartref yn ei gwneud yn haws ymdopi â phlant 'am y gallwch eu gosod o flaen y teledu neu gallant chwarae â'u teganau eu hunain', sy'n achosi llai o straen i bawb.

7.69 Lle bo'r cynghorwyr yn gweld y cyfranogwyr y tu hwnt i'r cartref, fel rheol maent yn ceisio cwrdd yn swyddfeydd y JCP neu mewn man ag ardal chwarae fel canolfan Dechrau'n Deg, hyb cymunedol neu lyfrgell. Mae rhai cynghorwyr yn gwneud pwynt o gario teganau, papur, creons a ffrwythau gyda nhw i ddiddanu'r plant wrth iddynt siarad â'r rhieni. Y cynghorwyr eu hunain sy'n talu am yr adnoddau hyn yn aml.

7.70 Cyfyngedig yw’r defnydd o ofal plant sesiynol wrth i'r cynghorwyr gyfarfod â'r cyfranogwyr. Lle defnyddir gofal sesiynol, mae hynny'n digwydd fel rheol pan ei bod hi'n glir bod y rhieni'n cysylltu â'r rhaglen o ddifri (sy’n gyson â chanllawiau'r rhaglen) a lle bo angen i'r cynghorwyr a'r cyfranogwr drafod pethau'n fanwl heb fod plant yn tarfu arnynt. Mae rhai cynghorwyr yn annog cyfranogwyr i ymweld â nifer o ddarparwyr gofal plant yn gynnar yn y broses, gyda golwg ar drefnu 'sesiynau blasu' gyda darparwyr unigol er mwyn caniatáu i'r rhiant weithio gyda'r cynghorydd heb ymyrraeth, a dod yn ddigon hyderus i ddefnyddio darparydd penodol pan fyddant yn cychwyn hyfforddiant, gwirfoddoli neu waith.

7.71 Gwneir ychydig bach yn fwy o ddefnydd o ofal plant i ganiatáu i'r cyfranogwyr ddilyn hyfforddiant, cael lleoliad gwaith/gwirfoddoli neu fynychu cyfweliadau, er bod gweithgareddau o'r fath yn cael eu trefnu'n aml i gyd-fynd ag oriau ysgol neu feithrin gan ddileu'r angen am iddynt drefnu gofal plant i ddarparu'n benodol ar eu cyfer. Nododd y cynghorwyr hefyd bod perthnasau a ffrindiau'n aml yn camu i mewn i ofalu am blant er mwyn caniatáu i'r rieni fynychu achlysuron untro.

7.72 Pan fo cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi estynedig neu'n gwirfoddoli'n gyson, mae yna fwy o alw am gymorth gyda gofal plant, boed hynny i gwmpasu'r holl amser y mae'r cyfranogwyr yn ei dreulio'n hyfforddi neu ran ohono, gyda ffrindiau a pherthnasau'n aml yn helpu hefyd. Yn wir, er bod cyfrifoldebau gofal plant wedi atal nifer o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni rhag cyflawni hyfforddiant neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y gorffennol, roedd cymryd rhan yn PaCE i'w weld yn gatalydd iddynt archwilio a dod o hyd i atebion gofal plant anffurfiol nad oeddent wedi ei ystyried o'r blaen.

7.73 Mae gan lawer o gyfranogwyr brofiad o ddefnyddio gofal plant ffurfiol erbyn iddynt ddod i gysylltiad â PaCE, ond lle nad oes profiad ganddynt, mae'r cynghorwyr naill ai'n darparu rhestr o ddarparwyr gofal plant lleol ar eu cyfer (gan y FIS) neu maent yn cyfeirio cleientiaid at FIS am wybodaeth. Mae cynghorwyr weithiau’n ei chael hi'n angenrheidiol amlinellu manteision ac anfanteision gwahanol fathau o ddarpariaeth wrth ofalu i ganiatáu i'r cyfranogwyr wneud eu penderfyniadau eu hunain am y darparwyr. Er bod y

cynghorwyr, ar y cyfan, yn annog i'r rhieni wneud y 'gwaith caib a rhaw' yn nhermau dod o hyd i ddarpariaeth gofal plant, mae rhai yn mynd gyda'r cyfranogwyr i leoliadau gofal plant er mwyn tawelu eu meddwl a sicrhau eu bod yn gyffyrddus â'r dewisiadau y maent yn eu gwneud.

7.74 Mae ymweld â darparwyr gofal plant gyda'r cyfranogwyr yn rhoi cyfle hefyd i'r cynghorwyr hyrwyddo PaCE, esbonio sut mae cyllid PaCE yn gweithio, trefnu'r gwaith papur a chael teimlad o sut leoedd yw'r canolfannau penodol yma. Mae rhai cynghorwyr yn helpu'r darparwyr i lenwi'r gwaith papur hefyd er mwyn osgoi oedi gyda thaliadau, ar y sail y gall oedi gael effaith andwyol ar safbwynt y darparwyr am PaCE a'u parodrwydd i gysylltu â'r rhaglen. Cafodd hyn ei fwydo'n rhannol gan brofiad o ddarparwyr gofal plant yn cyflwyno hawliadau anghyflawn (amcangyfrifwyd bod hyn yn digwydd mewn rhyw 50 y cant o'r achosion ym Mehefin 2017[85]), gan arwain at yr angen am wneud cysylltiadau pellach â'r darparwyr cyn y gellir talu'r hawliadau, a gosod straen ariannol ar rai darparwyr bychain. Nid yw cynghorwyr eraill yn cael unrhyw gysylltiadau uniongyrchol â darparwyr gofal plant ac maent yn dibynnu'n llwyr ar dimau FIS i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar gyfranogwyr i ddod o hyd i ofal plant priodol.

7.75 Mae PaCE yn cynnig cyllid i dalu costau gofal plant ar gyfer cyfnod o bythefnos hyd at y pwynt y mae'r cyfranogwyr yn dechrau gwaith, a'u pythefnos cyntaf yn y gwaith. Y bwriad yw y dylai hyn ganiatáu i'r plant setlo i mewn i'r lleoliadau gofal plant, ac amddiffyn y cyfranogwyr rhag effeithiau gorfod talu costau gofal plant o'r bron wrth ddechrau ennill cyflog, a allai eu hatal rhag cymryd swydd yn y lle cyntaf.

Astudiaeth Achos – Kerry

Mae Kerry'n fam sengl i un plentyn. Ar ôl cyfnod o ddwy flynedd yn gofalu am ei phlentyn, penderfynodd Kerry ei bod am ddychwelyd i'r gwaith.

Gwelodd Kerry boster yn hysbysebu PaCE, a chysylltodd â'i chynghorydd. Er ei bod hi'n hyderus y byddai'n gallu dod o hyd i swydd ei hun, doedd

[85] Cyfarfod y Bwrdd Strategol, Mehefin 2017: Cofnodion, Eitem 3.6, t.4

Kerry 'ddim yn gwybod sut i wneud i'r peth ddigwydd' yn nhermau rheoli goblygiadau ariannol symud oddi ar Gymhorthdal Incwm. Roedd hi'n poeni na fyddai'n gallu fforddio talu am ofal plant yn ystod ei mis cyntaf yn y gwaith, cyn iddi gael ei thalu ond ar ôl i'w budd-daliadau stopio - 'Byddai angen i mi fod wedi cynilo arian i dalu am ofal plant ... rwy'n talu £1,000 y mis ... Rwy'n cael 80 y cant yn ôl, felly rwy'n talu £200 mewn gwirionedd ... byddai hynny wedi bod yn anodd o hyd'.

Ffeindiodd Kerry ei swydd ddelfrydol bythefnos yn ddiweddarach, ac roedd hi'n awyddus i'w derbyn. Dywedodd y cynghorydd wrthi y gallai PaCE helpu gyda chostau gofal plant am y pythefnos cyntaf ac awgrymodd ei bod hi'n ymweld â dau neu dri darparydd gofal plant. Pan oedd Kerry wedi dewis meithrinfa, aeth y cynghorydd i ymweld â'r feithrinfa i esbonio taw PaCE fyddai'n talu'r costau cychwynnol a sut y dylai'r feithrinfa fynd ati i hawlio'r ffioedd gan Lywodraeth Cymru.

Cyflawnodd y cynghorydd BOC gyda Kerry ac yn y broses, cynghorodd hi i wneud cais i barhau â'r budd-dal tai am ei mis cyntaf yn y gwaith. Fe drafodon nhw'r broses o symud o Gymhorthdal Incwm i gredydau treth gwaith hefyd.

Er bod Kerry wedi meddwl y byddai'n dychwelyd i'r gwaith ar ryw bwynt, doedd hi ddim yn meddwl y byddai hi wedi bod mewn sefyllfa i wneud hynny mor fuan ag y gwnaeth hi heb y cyngor a'r cymorth ariannol a gafodd gan PaCE. Roedd hi'n teimlo bod y cymorth a gafodd wedi esmwytháu ei siwrnai i gyflogaeth.

7.76 Mewn gwirionedd, fodd bynnag, bu llai o alw na'r disgwyl am gyllid gofal plant i gynorthwyo cyfranogwyr i symud i mewn i waith, ac roedd nifer o ffactorau i gyfrif am hynny:

- am fod cyfranogwyr yn cymryd swyddi sy'n gweithio o gwmpas 'oriau ysgol', gan ddileu'r angen am ofal plant

- am fod rhai sy'n gweithio y tu hwnt i oriau ysgol yn cyrchu darpariaeth gofleidiol, gyda rhai yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant i helpu i dalu am hyn
- am taw ychydig iawn sydd angen setlo'u plant i mewn i leoliadau gofal plant am fod y rhieni'n parhau â'r trefniadau gofal plant sy'n bodoli eisoes fel rheol. Mae hyn yn golygu nad oes fawr neb yn cymryd y cyllid ar gyfer y cyfnod o bythefnos cyn i'r cyfranogwyr ddechrau gwaith
- am fod cyfranogwyr yn trefnu gofal plant gyda pherthnasau a ffrindiau. Mae hynny'n arbennig o wir i bobl sy'n gweithio gyda'r nos neu ar benwythnosau pan fo'n anos dod o hyd i ofal plant ffurfiol.

Astudiaeth Achos – Linda

Mae Linda'n fam sengl i ddau. Roedd ganddi gymwysterau lefel 3 a phrofiad gwaith helaeth yn y sector gwallt a harddwch. Doedd hi ddim wedi mwynhau'r math yma o waith ac roedd hi'n awyddus i ailhyfforddi i fod yn yrrwr Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV).

Ar ôl dilyn hyfforddiant trwy PaCE, llwyddodd Linda i gael trwydded yrru HGV Dosbarth 1 a 2. Wedyn aeth ati i chwilio am waith.

Cafodd Linda gynnig gwaith fel gyrrwr lori hunangyflogedig, ond byddai'r gwaith yn golygu sifftiau hir a oedd yn dechrau am 1am. Roedd hi'n amhosibl dod o hyd i ofal plant addas. Ar y sail honno, roedd ei mam wedi cytuno i aros yn nhŷ Linda dros nos pan fyddai angen iddi ddechrau gwaith yn gynnar. Byddai ei mam yn mynd â'r plant i'r ysgol ac i'r feithrinfa.

7.77 Er bod cynghorwyr yn annog cyfranogwyr i ystyried defnyddio perthnasau a ffrindiau i ofalu am eu plant yn ystor eu horiau gwaith, maent yn herio'r cyfranogwyr sydd â disgwyliadau afrealistaidd neu anghynaladwy o'u teulu hefyd. Mewn achosion o'r fath, gall y cynghorwyr awgrymu i'r cyfranogwyr eu bod yn defnyddio cymysgedd o ofal plant y maent yn talu amdano a pherthnasau a ffrindiau. Yn wir, mae nifer o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni, ac yn arbennig y rhai â mwy nag un plentyn, yn defnyddio


cyfuniad o feithrinfa/ysgol, darpariaeth gofleidiol ffurfiol a pherthnasau a ffrindiau i reoli eu cyfrifoldebau gofal plant.

7.78 Fel rheol mae’r cynghorwyr yn troi yn gyntaf at FSF y DWP wrth gyrchu cymorth ariannol i dalu costau ofal plant, tra bod unigolion yn cymryd rhan mewn PaCE ac wrth iddynt symud i mewn i waith. Gwneir cais am gyllid PaCE pan nad yw'r cyfranogwyr yn gymwys am gymorth DWP (am nad ydynt yn hawlio budd-daliadau) a lle nad oes cymorth ar gael gan DWP (e.e. lle bo'r cyfranogwyr yn cyflawni lleoliadau gwirfoddoli am lai nag 16 awr yr wythnos).

7.79 Erbyn 31 Mawrth 2018, cyfanswm gwariant PaCE ar gostau gofal plant oedd £276,063, sydd gyfwerth â rhyw draean o'r gyllideb a broffiliwyd hyd at y pwynt yna yn oes y rhaglen, a 18% o gyfanswm cyllideb y rhaglen.

7.80 Mae Ffigur 6.4 yn dangos gwerth y taliadau a wnaed mewn perthynas â chostau gofal plant ym mhob chwarter. Ar y cyfan, mae hyn yn awgrymu cynnydd yn nifer y bobl sy'n manteisio ar y cymorth, er y gellir priodoli hyn yn rhannol i gynnydd yn nifer y cyfranogwyr dros amser, a gellir ei briodoli i gynnydd yn nifer y cyfranogwyr sy'n defnyddio gofal plant y maent yn talu amdano. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n cael cymorth ariannol am ofal plant trwy PaCE wedi bod yn weddol gymedrol ar lefel o ryw 12 y cant o'r holl gyfranogwyr. Rhyw £791 yw gwerth cyfartalog y dyfarniadau.

Ffigur 7.4: Gwerth y taliadau gofal plant a wnaed fesul chwarter[86]




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dadansoddiad o'r taliadau a wnaed am ofal plant

86 Taliadau untro a wnaed am ofal plant

7.81 Mae'r siart yn awgrymu y gallai'r niferoedd sy'n manteisio ar gymorth gofal plant fod yn destun rhywfaint o amrywiadau tymhorol, a diddorol yw nodi bod costau yn 2017/18 ar eu huchaf yn ystod yr ail chwarter (sy'n cwmpasu cyfnod gwyliau haf yr ysgolion) ac iddynt ddisgyn rhywfaint yn y trydydd chwarter (sef pan mae'r flwyddyn ysgol yn dechrau).

7.82 Nododd nifer o gynghorwyr bod y cyfranogwyr yn teimlo bod gofal plant yn broblem fawr wrth ddod i gysylltiad â PaCE, ond mae hyn yn aml yn adlewyrchu diffyg gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i rieni. Ni all unigolion weld beth sydd o'u blaenau trwy'r dryswch ac maent yn 'mynd i banig' wrth feddwl am y syniad o geisio cadw swydd, ymdopi'n ariannol a gofalu am eu plant. Ar ben hynny, mae hi'n anodd deall pa fath o ofal plant yn union sydd ei angen pan fo pethau'n haniaethol, heb fod yn glir o ran pryd y byddai disgwyl i'r rhiant weithio. Nid yw'n syndod felly bod llawer o bobl yn teimlo wedi eu 'gorlethu' wrth feddwl am y syniad o ddod o hyd i ofal plant i ganiatáu iddynt chwilio am waith.

7.83 Er nad oes unrhyw amheuaeth fod bylchau yn y ddarpariaeth mewn rhannau o Gymru, byddai ein sgyrsiau gyda chynghorwyr a chyfranogwyr yn awgrymu'n gadarn bod y ffordd y mae 'gofal plant' yn gweithredu fel rhwystr i gyflogaeth yn fwy cymhleth na dim ond argaeledd neu fforddiadwyedd gofal plant ffurfiol. Er mwyn i unigolion deimlo eu bod yn gallu defnyddio gofal plant ffurfiol (yn unrhyw un o'r llu o ffyrdd y mae'n cael ei ddefnyddio), mae angen iddynt ddeall yn gyntaf beth sydd ar gael, sut mae'n gweithio, beth yw'r gost, pa gymorth y gellir ei gael i dalu'r costau, a sut i fynd ati i drefnu pethau gyda darparwyr gofal plant.

7.84 Hyd yn oed os yw'r cyfranogwyr yn dewis peidio â manteisio ar ofal plant ffurfiol wrth gymryd rhan yn y rhaglen neu ar ôl symud i mewn i waith, roedd llawer o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni'n teimlo bod trafod opsiynau gofal plant gyda'r cynghorwyr wedi bod yn ddefnyddiol. Fel y trafodwyd uchod, mae'r cyfranogwyr yn aml yn dod i atebion nad ydynt yn ymwneud â gofal plant ffurfiol neu sy'n cynnwys cymysgedd o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol, gyda PaCE yn darparu'r wybodaeth, y cymorth a'r hyder angenrheidiol i wneud trefniadau sy'n addas ar gyfer cyfranogwyr unigol a'u plant.

**Crynodeb o'r Bennod**

Cafodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr eu cyfeirio at PaCE gan JCP, ac roedd y pwynt pan oedd JCP am symud rhieni sengl a oedd yn hawlio Cymhorthdal Incwm i'r Lwfans Ceisio Gwaith yn drobwynt pwysig yn hyn o beth.

Mae'r holl gynghorwyr yn gweithio mewn ffordd sydd ychydig bach yn wahanol, er bod elfennau craidd y gwasanaeth a ddarperir gan bob cynghorydd yn cynnwys:

- Asesiad diagnostig: sy'n cynnwys cynghorwyr yn dilysu cymhwyster unigolion ac yn dod i adnabod y cyfranogwyr a deall eu hamgylchiadau, eu huchelgeisiau a'r ffactorau sy'n eu hatal rhag gweithio.
- Cynllunio gweithredu: sy'n cynnwys archwilio a chytuno ar y ffordd ymlaen gyda'r cyfranogwyr yn gynyddol.
- Cyfrifiadau gwell eich byd: sy'n cynnwys cynghorwyr yn dangos i'r cyfranogwyr faint yn well eu byd y byddent yn ariannol pe baent yn y gwaith, gan gymryd i ystyriaeth eu hincwm tebygol, yr effaith ar eu budd-daliadau a'r costau y byddent yn eu tynnu e.e. gofal plant.
- Mentora a hyfforddi: sy'n cynnwys gweithio gyda chyfranogwyr i lunio CVs a chwilio am swyddi. Mae'n cynnwys annog a rhoi sicrwydd i'r cyfranogwyr mewn ffyrdd sydd wedi eu teilwra at anghenion pob unigolyn.
- Cymorth yn y gwaith: sy'n cynnwys cynghorwyr yn helpu cyfranogwyr i ddelio â'r holl fiwrocratiaeth a'r sialensiau emosiynol sydd ynghlwm wrth symud i mewn i waith.

Mae'r ymyraethau cyflogadwyedd sy'n cael eu hwyluso gan PaCE yn cynnwys:

- Hyfforddiant: sy'n amrywio o gyrsiau byr i ddarpariaeth sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig. Er bod y cyfranogwyr yn fodlon ar yr hyfforddiant a gawsant ar y cyfan, mae hi'n amlwg nad yw'r ddarpariaeth yr un mor hygyrch ym mhob rhan o Gymru, ac nid oedd rhai cyfranogwyr yn gallu cyrchu'r math neu'r lefel o hyfforddiant oedd ei angen arnynt.
- Lleoliadau gwaith: mae lleiafswm o'r cyfranogwyr wedi cyflawni lleoliadau gwaith i ennill profiad a chael rhywbeth i'w nodi yn eu CV. Roedd y rhai a oedd wedi gwneud hynny'n gadarnhaol iawn am y profiad.
- Y Gronfa Rwystrau: gwnaed defnydd cyfyngedig o'r gronfa rwystrau er mwyn

helpu i oresgyn rhwystrau olaf ariannol i waith.

- Cymorth gofal plant: gwnaed llai o ddefnydd na'r disgwyl o'r cymorth i dalu costau gofal plant, a hynny'n bennaf am fod rhieni wedi gallu dibynnu ar ffynonellau cymorth eraill neu ffitio gweithgareddau PaCE o gwmpas oriau ysgol/meithrin.

# 8. Y Deilliannau sy'n dod i'r Amlwg

### Cyflwyniad

8.1 Yn y bennod hon rydyn ni'n ystyried i ba raddau y mae PaCE wedi cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd hyd yn hyn. Cyflwynir y bennod hon mewn pump adran fel a ganlyn:


- symud ymlaen i gyflogaeth neu hunangyflogaeth
- deilliannau o ran cymwysterau
- deilliannau profiad gwaith/gwirfoddoli
- symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant
- effeithiau ehangach PaCE.

## Symud ymlaen i gyflogaeth neu hunangyflogaeth

8.2 Erbyn Mawrth 2018, roedd cyfanswm o 989 o gyfranogwyr PaCE wedi symud ymlaen i waith, 741 ohonynt yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 248 yn Nwyrain Cymru. Mae hyn gyfwerth â 34 y cant o'r holl gyfranogwyr, ac mae'n sylweddol uwch na'r meincnod o ran deilliannau swyddi a bennwyd yng nghynlluniau busnes PaCE, sef 20 y cant. Dim ond mewn dwy ardal y disgynnodd perfformiad o ran deilliannau swyddi'n brin o'r ffigur meincnod.

8.3 Mae Ffigur 8.1 yn dangos y bu perfformiad o ran deilliannau swyddi ychydig bach yn gadarnach mewn perthynas â chyfranogwyr 25 oed a throsodd (Blaenoriaeth 1) na'r rhai 16-24 oed (Blaenoriaeth 3). Roedd perfformiad mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 yn Nwyrain Cymru dipyn yn wannach nag yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Drwyddi draw, roedd cyfran debyg o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni wedi symud ymlaen i gyflogaeth neu hunangyflogaeth, ond roedd cyfran ychydig bach yn uwch o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 wedi gwneud hynny na chyfranogwyr Blaenoriaeth 1.

Ffigur 8.1: Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi fesul blaenoriaeth




Ffynhonnell: Y gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Mawrth 2018

8.4 Mae yna wahaniaethau yn y gyfran o gyfranogwyr sy'n symud ymlaen i swyddi rhwng un ardal a'r llall. I ryw raddau, gallai fod hynny oherwydd y pwynt y lansiwyd y rhaglen mewn gwahanol rannau o Gymru, a faint o amser y mae'r cynghorwyr wedi ei gael i weithio gyda'r cyfranogwyr a'u cynorthwyo i symud ymlaen i waith felly. Fodd bynnag, nid yw hyn yn esbonio'r gwahaniaeth i gyd, gyda niferoedd y deilliannau swyddi a gynhyrchir fesul cynghorydd y mis[87] yn amrywio o 1.5 mewn un ardal i lai na 0.5 mewn sawl un arall. At hynny, byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod yna wahaniaethau o ran i ba raddau y mae cynghorwyr yn yr un ardal yn llwyddo i gynhyrchu deilliannau swyddi.

8.5 Mewn rhai ardaloedd, roedd yna wahaniaethau nodedig rhwng y gyfran o gyfranogwyr y cofnodwyd eu bod wedi ymadael â'r rhaglen a oedd yn symud ymlaen i swyddi a'r gyfran o'r holl gyfranogwyr a oedd yn symud ymlaen i swyddi. Gellir cynnig yr esboniadau canlynol am hyn:

- bod niferoedd y cyfranogwyr yn cael eu datblygu a bod cyfran gymharol fach o'r holl gyfranogwyr wedi bod yn rhan o'r rhaglen am yn ddigon hir i fod wedi ennill swyddi. Dros amser, gellir disgwyl i'r ddau fetrics uno

[87] Cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dyddiad y cychwynnodd pob cynghorydd yn ei swydd, a'r dyddiad y gadawodd y cynghorwyr unigol eu swyddi neu 31 Mawrth 2018 (dyddiad y cyfrifiad a ddefnyddiwyd ar gyfer y gronfa ddata o gyfranogwyr) yn achos y rhai sy'n dal i fod yn eu swyddi

- bod cynghorwyr wedi dod yn fwy medrus wrth glustnodi a chyfeirio unigolion sy'n annhebygol o symud ymlaen i gyflogaeth gyda chymorth PaCE (e.e. am nad ydynt wedi ymrwymo go iawn i ddod o hyd i waith neu am fod eu hanghenion yn rhy gymhleth) at ymyraethau eraill, mwy addas
- bod y cynghorwyr yn anghyson yn nhermau datgysylltu cyfranogwyr sy'n annhebygol o symud ymlaen i swyddi neu nad ydynt yn cysylltu'n ymarferol â'r rhaglen
- bod cynghorwyr weithiau'n gyndyn i ddatgysylltu cyfranogwyr sy'n rhoi'r gorau i gysylltu â'r rhaglen, ond y mae'r cynghorwyr yn credu eu bod yn debygol o ailgysylltu ar ôl cyfnod.

8.6 Hwyrach ei bod yn nodedig yng nghyd-destun y ddau bwynt olaf yma bod rhyw 43 y cant o'r cyfranogwyr 'byw', yn ôl ffigurau Mawrth 2018, wedi bod yn gysylltiedig â PaCE ers dros 12 mis, a bod 15 y cant wedi bod yn gysylltiedig â'r rhaglen ers dros ddwy flynedd.

8.7 Wrth gydnabod y gallai digwyddiadau bywyd dorri ar draws siwrneiau unigolion trwy PaCE, mae anghysonderau yn y ffordd y mae cynghorwyr yn delio â chleientiaid 'segur' sy'n ymadael â'r rhaglen yn golygu ei bod hi'n edrych fel petai gan rai cynghorwyr mewn rhai ardaloedd feichiau achos mwy nag eraill. Ar gyfartaledd, mae'n debyg fod beichiau achos y cynghorwyr yn cynnwys tua 22 o gleientiaid, ond byddai gwybodaeth o'r gronfa ddata o gyfranogwyr yn awgrymu bod y beichiau achos yn amrywio o 57 yn ardal un awdurdod lleol i ychydig dros 10 mewn un arall. Gellid cymryd camau i sicrhau bod cynghorwyr yn glynu'n gyson wrth y canllawiau a roddir mewn perthynas â chleientiaid cyfredol nad ydynt mewn cysylltiad rheolaidd â nhw[88], gan ganiatáu i reolwyr y rhaglen feithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o feichiau achos gweithredol y cynghorwyr.

8.8 Nid yw'n syndod efallai bod y rhan fwyaf o gynghorwyr yn meddwl bod eu hardaloedd yn gwneud yn rhesymol o dda yn nhermau deilliannau swyddi, er i rai sôn am ddechrau tawel, neu adegau prysur a rhai mwy tawel. I bob pwrpas, nid oedd y cynghorwyr yn poeni am y targedau o ran deilliannau


[88] Canllawiau Gweithredol, t.38

swyddi, ac roeddent yn derbyn mantra rheolwyr y rhaglen y dylai'r ffocws fod ar 'wneud y peth iawn dros y cleientiaid' ac y bydd y 'deilliannau'n dilyn' wedyn.

8.9 Mae yna rywfaint o gysylltiad rhwng y cysylltiadau a wnaed fesul cynghorydd y mis, a'r deilliannau a gyflawnwyd fesul cynghorydd y mis, er bod y gyfradd drosi rhwng cysylltiadau a deilliannau swyddi'n amrywio o un ardal i'r llall. Ni fu modd i'n gwaith maes ganfod yn union pam fod y gwahaniaethau hyn yn bodoli, ond roedd yna awgrym cadarn bod perfformiad cynghorwyr unigol, yn nhermau cysylltiadau a deilliannau swyddi, yn gallu cael effaith amlwg ar berfformiad ar lefel awdurdod lleol.

8.10 Gwnaeth bron i hanner (49 y cant) o'r 989 o gyfranogwyr a symudodd ymlaen i swyddi hynny ar ôl bod yn gysylltiedig â PaCE am dri mis neu lai. Symudodd 21 y cant pellach i mewn i swyddi ar ôl bod yn gysylltiedig â PaCE am rhwng tri a chwe mis. Mae Ffigur 8.2 yn dangos y gyfran o gyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi o fewn cyfnod o dri mis. Er taw ychydig iawn o wahaniaeth sydd yna rhwng y gyfran o gyfranogwyr o Orllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru a gyflawnodd ddeilliannau swyddi o fewn tri mis cyntaf eu cysylltiad â PaCE, roedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 ychydig bach yn fwy tebygol o symud i mewn i swyddi o fewn y tri mis cyntaf na'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 1.

Ffigur 8.2: Cyfran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi o fewn amserlenni penodol (n=989)




Ffynhonnell: Y gronfa ddata o gyfranogwyr hyd 31 Mawrth 2018

8.11 Byddai dadansoddiad o'r gronfa ddata o gyfranogwyr yn awgrymu bod y cyfranogwyr yn y grŵp oedran 16-19 a'r rhai dros 50 oed dipyn yn llai tebygol o symud ymlaen i waith na'r grwpiau oedran eraill.

8.12 Cafodd y cynghorwyr drafferth clustnodi nodweddion penodol y gellir eu priodoli i gyfranogwyr sy'n symud ymlaen i waith oedd yn eu gwahaniaethu wrth y rai nad oeddent yn gwneud hynny. Fodd bynnag, ystyriwyd y gallai'r canlynol fod yn ffactorau posibl a oedd yn cyfrannu at lwyddiant o ran deilliannau swyddi, yn ôl canfyddiadau ein gwaith maes gyda'r cyfranogwyr:

- bod â gwir gymhelliant i ddod o hyd i waith
- bod yn glir ynghylch y mathau o swyddi yr oeddent am eu gwneud
- bod ag uchelgeisiau realistaidd o ran swyddi
- cysylltu'n ymarferol â'r rhaglen e.e. cadw apwyntiadau ac ati
- dilyn hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd 54 y cant o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni (44) wedi symud i mewn i waith heb ddilyn unrhyw hyfforddiant yn rhan o'u cysylltiad â PaCE, o'i gymharu â 41 y cant o'r holl bobl a gafodd gyfweliadau â ni
- y ffaith eu bod wedi bod mewn swydd yn y gorffennol.

8.13 Roedd hi'n haws i'r cynghorwyr glustnodi nodweddion cyfranogwyr sy'n llai tebygol o symud ymlaen i waith, o leiaf yn y dyfodol rhagweladwy:

- nad ydynt erioed wedi gweithio, er nad yw dadansoddiad o'r data o'r cyfweliadau â'r cyfranogwyr yn awgrymu bod y nifer o flynyddoedd ers i unigolion weithio ddiwethaf (os o gwbl) yn gwneud gwahaniaeth amlwg o ran eu datblygiad i mewn i gyflogaeth
- cyrhaeddiad addysgol isel, er nad yw dadansoddiad o'r data o'r cyfweliadau â'r cyfranogwyr yn awgrymu fawr ddim gwahaniaeth yn y gyfran o'r holl rai â chymwysterau dros lefel 2 a'r holl gyfranogwyr a gafodd gyfweliadau a symudodd ymlaen i swyddi
- bod â mwy nag un plentyn, er eto, nid yw dadansoddiad o'r data o'r cyfweliadau'n awgrymu unrhyw wahaniaeth materol
- problemau cyffuriau neu alcohol
- problemau iechyd meddwl, gan gynnwys iselder a gorbryder
- bod â chynbartneriaid treisgar
- hanes teuluol o ddiweithdra.


8.14 Nid yw'r cynghorwyr PaCE o reidrwydd yn y lle gorau i helpu unigolion i fynd i'r afael â rhai o'r ffactorau hyn sydd, i bob pwrpas, yn rhwystrau i waith. Mewn achosion o'r fath, gall y cynghorwyr ddewis cyfeirio cleientiaid at asiantaethau arbenigol e.e. am gymorth i fynd i'r afael â phroblemau cam-drin cyffuriau neu alcohol.

8.15 Byddai ein gwaith maes yn awgrymu’n amlach na pheidio taw cyfuniad o ffactorau sy'n atal cyfranogwyr rhag symud i mewn i gyflogaeth, neu, yn wir, rhag elwa ar PaCE mewn ffyrdd eraill. Er bod gofal plant yn ffactor a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i'r unigolion a gafodd gyfweliadau â ni weithio, roedd hi'n amlwg bod rhwystrau eraill yn chwarae rhan, a bod y rhain yn aml llawn cymaint o rwystr, neu hyd yn oed yn fwy o rwystr na gofal plant wrth eu hatal rhag dod o hyd i gyflogaeth.

8.16 Mae Ffigur 8.3 yn dangos y gyfran o gyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni a symudodd i mewn i waith fesul categori galwedigaethol. Cafodd y mwyafrif (19) eu cyflogi mewn dwy sector, gan symud i mewn i swyddi lefel mynediad a oedd gyfyngedig yn eu gofynion o ran profiad, sgiliau neu gymwysterau fel rheol. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn derbyn swyddi lleol, a hynny'n

rhannol oherwydd y costau teithio a gofal plant a fyddai'n gysylltiedig â theithio ymhellach.

Ffigur 8.3: Cyfran y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau a symudodd i mewn i waith fesul categori galwedigaeth (n=29)





Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r data o gyfweliadau'r cyfranogwyr

8.17 Roedd dau o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau wedi symud ymlaen i hunan-gyflogaeth, gyda dau arall yn bwriadu cymryd y cam yna yn y dyfodol. Yn hynny o beth, nododd y cynghorwyr bod rhai cyfranogwyr, ac yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig, wedi dod yn hunangyflogedig oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth yn lleol, ac oherwydd yr hyblygrwydd yr oedd yn ei gynnig iddynt i weithio o gwmpas anghenion eu plant.

8.18 Roedd y mwyafrif (79 y cant neu 23) o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau a symudodd ymlaen i waith wedi llwyddo i ddiogelu contractau cyflogaeth parhaol, ac roedd y 21 y cant sy'n weddill (6) wedi diogelu contractau dros dro, rhai am gyfnod penodedig ac eraill yn rhai penagored. Mae Ffigur 8.4 yn dangos bod 52 y cant (15) o'r rhai a gafodd gyfweliadau a oedd mewn cyflogaeth yn gweithio rhwng 16 a 23 awr yr wythnos, ond mewn gwirionedd, roedd y rhan fwyaf yn gweithio tua 16 awr yr wythnos.  Roedd 31 y cant pellach (9) yn gweithio 32 awr neu ragor.

Ffigur 8.4 Cyfran y cyfranogwyr a gafodd gyfweliad a symudodd i mewn i waith fesul nifer yr oriau gwaith wythnosol (n=29)




Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r data o gyfweliadau'r cyfranogwyr

8.19 Roedd llawer o'r rhai a gafodd gyfweliadau wedi cymryd swyddi rhan amser am fod gweithio rhyw 16 awr yr wythnos yn taro cydbwysedd da rhwng ennill mwy o arian, ymdopi â threfniadau gofal plant (yn enwedig y tu hwnt i oriau ysgol) a chael amser i'w dreulio gyda'u plant. Dadleuodd un cynghorydd taw bach iawn yw'r buddion ariannol o weithio llawn amser, a bod y pris, yn nhermau'r amser y maent yn ei dreulio gyda'u plant, yn ormod i lawer. Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni'n fodlon ar eu henillion, gydag un yn cofleidio'r teimlad ehangach trwy ddweud, 'mae'n well na Chymhorthdal Incwm'. Roedd gan rai obeithion o ddatblygu, naill ai o fewn eu rolau cyfredol, neu i swyddi mwy ymestynnol, a chynyddu eu cyflogau dros amser. Roedd lond llaw o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau'n gweld eu swyddi cyfredol fel rhywbeth dros dro a oedd yn cyd-fynd â'u hamgylchiadau cyfredol, ond na fyddai'n bodloni eu dyheadau yn y tymor hwy. Fel y dywedodd un cyfranogwr, 'Dydw i ddim am wneud hyn am byth, ond ar hyn o bryd mae'n rhoi'r amser i mi i fod gyda fy mhlentyn yn ystod y dydd a gwneud pethau eraill'.

8.20 Roedd yna rywfaint o rwystredigaeth nad yw PaCE yn cydnabod symud ymlaen i waith am lai nag 16 awr yr wythnos fel deilliant o ran swyddi. Dadleuwyd bod rhai cyfranogwyr yn dechrau gweithio llai o oriau gyda'r bwriad o gynyddu eu horiau wrth iddynt dyfu i mewn i'w swyddi, neu wrth i'w plant fynd yn hŷn. Roedd lond llaw o'r cyfranogwr a gafodd gyfweliadau â ni’n perthyn i'r categori hwn, gyda rhai yn raddol ffeindio'u ffordd yn ôl i waith.

### Deilliannau o ran cymwysterau

8.21 Roedd cyfanswm o 77 o gyfranogwyr PaCE (neu ychydig yn llai na thri y cant) wedi ennill cymwysterau adeg ymadael â PaCE, a'r rhan fwyaf ar lefel 2. Roedd 124 unigolyn pellach (neu ychydig dros bedwar y cant) wedi ennill ardystiadau a oedd yn berthnasol i waith na chydnabuwyd o dan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Roedd cyfran ychydig bach yn uwch o gyfranogwyr o Orllewin Cymru a'r Cymoedd na Dwyrain Cymru wedi ennill cymwysterau, er bod y niferoedd yn isel yn y ddwy ardal. Ychydig iawn o wahaniaeth oedd yna yn y gyfran o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 a oedd wedi ennill cymwysterau neu ardystiadau a oedd yn berthnasol i waith.

8.22 O ystyried y gyfran o’r cyfranogwyr yr oedd diffyg cymwysterau'n rhwystr sylweddol i gyflogaeth iddynt, mae'n syndod bod cyn lleied yn dewis mynd ar drywydd rhyw fath o ardystiad. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith fod yna fylchau yn y ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael ac sy'n hygyrch yn lleol, ond roedd yna awgrym hefyd hwyrach bod rhai cynghorwyr yn gwneud mwy nag eraill i annog cyfranogwyr i ystyried hyfforddiant, gyda rhai cynghorwyr i'w gweld â gwell dirnadaeth nag eraill o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol.

### Deilliannau o ran profiad gwaith/gwirfoddoli

8.23 Fel y nodwyd eisoes, byddai'r gronfa ddata o gyfranogwyr yn awgrymu bod ychydig dros dri y cant o'r cyfranogwyr (90) wedi cwblhau lleoliadau gwaith neu wirfoddoli, gydag ychydig iawn o wahaniaeth ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, neu ar draws y gwahanol flaenoriaethau. Roedd cyfran sylweddol uwch (20 y cant neu 16) o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau wedi cyflawni lleoliadau gwirfoddol neu wrthi ar hyn o bryd.

8.24 Roedd hi'n debyg bod cyflawni cyfleoedd gwirfoddoli wedi gwneud tipyn o argraff ar nifer o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau â ni, wrth iddynt sôn am ddatblygu sgiliau, magu hyder, datblygu cysylltiadau proffesiynol, ehangu eu gorwelion a gweld gwelliannau mewn iechyd meddwl o ganlyniad.

8.25 Roedd rhai cyfranogwyr eisoes yn gwirfoddoli cyn dod i gysylltiad â PaCE, ond llwyddodd y rhaglen i gynorthwyo rhai ohonynt i ddatblygu eu gweithgareddau gwirfoddol, a meithrin sgiliau a hyder yn gynt oherwydd hynny.

**Deilliannau addysg neu hyfforddiant**

8.26 Y bwriad oedd y byddai rhyw 30 y cant o'r cyfranogwyr 16-24 oed (Blaenoriaeth 3) yn symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant wrth ymadael â PaCE. Fodd bynnag, hyd yn hyn, dim ond 17 (dau y cant) o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 sydd wedi ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant, gyda chyfran debyg o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn gwneud hynny eisoes, er na phennwyd unrhyw darged yn hynny o beth.

**Effeithiau amlwg eraill PaCE**

8.27 Byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod PaCE yn cael effaith ehangach ar gyfranogwyr a'u teuluoedd y tu hwnt i'w galluogi i symud ymlaen i waith, addysg neu hyfforddiant neu i ennill cymwysterau. Roedd hynny'n arbennig o wir lle'r oedd cyfranogwyr wedi dod o hyd i swyddi neu symud ymlaen i ddysgu pellach. Roedd yr effeithiau ehangach hyn yn cynnwys:

- Magu hyder: gyda chyfranogwyr unigol yn dweud, er enghraifft, eu bod:
  - yn teimlo eu bod yn gallu 'cymryd yr awenau ... a gwneud rhywbeth gyda fy mywyd'
  - ‘yn teimlo nad dim ond mam i rywun ydw i nawr. Rwy'n fwy hyderus o lawer’.
- Cael gwell ymdeimlad o bwrpas a boddhad, gyda'r cyfranogwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n 'fwy tawel eu meddwl', yn 'fwy digyffro' neu'n 'llai drwg eu tymer' o ganlyniad i gysylltu â PaCE. Soniodd rhai hefyd am welliannau i'w iechyd meddwl am eu bod yn teimlo eu bod yn 'symud ymlaen' yn eu bywydau. Gwelwyd hyn fel rhywbeth sy'n 'llesol i'r teulu cyfan'.

- Meddwl am y tymor hwy ag optimistiaeth am y dyfodol, gydag unigolion yn dweud bod y cymorth yr oeddent wedi ei gael wedi rhoi cyfeiriad iddynt 'a'r hyder bod dyfodol disglair o'u blaenau.'
- Datblygu bywyd cymdeithasol a lleihau'r ymdeimlad o unigedd: gyda chyfranogwyr unigol yn nodi eu bod:
  - yn teimlo bod gweithio 'yn cyfoethogi fy mywyd' i ganlyniad o fod yn rhan o 'dîm da'
  - 'rwy’n cael lâff yn y gwaith ac rydw i wedi gwneud ffrindiau da iawn yno'
  - yn mwynhau 'ychydig bach o amser gydag oedolion ar ôl bod gyda dau blentyn yn siarad am ddeinosoriaid o hyd ... ychydig bach o sgwrs oedolion’.
- Bod â mwy o arian ers dechrau gwaith, a phoeni'n llai am broblemau arian felly. Roedd hyn yn cael effaith bositif ar fywyd teuluol. Dywedodd cyfranogwyr unigol:
  - bod ei gŵr wedi gallu lleihau ei oriau gwaith diolch i'r cyfraniad yr oedd hi’n gallu ei wneud at goffrau'r aelwyd. Roedd hyn yn golygu bod ei gŵr dan lai o straen a bod hyn yn cael effaith bositif ar y teulu - ‘yn ei hanfod mae ein bywyd teuluol wedi gwella’.
  - eu bod yn gallu fforddio mwy a bod eu plant yn cael 'ychydig mwy o bethau da'
- Gosod esiampl dda ar gyfer eu plant a'u cynorthwyo i ddatblygu moeseg gwaith cadarn. Dywedodd cyfranogwyr unigol:
  - 'rwy'n gosod esiampl dda i'r plant ac maen nhw'n dweud wrtha'i fy mod i'n hapusach nawr fy mod i yn y gwaith'
  - bod y plant yn 'falch o mam'.

8.28 Nododd ambell i gyfranogwr eu bod yn difaru eu bod yn treulio llai o amser gyda'u plant am eu bod wedi symud i mewn i waith, ond roedden nhw'n teimlo hefyd taw gweithio oedd y peth iawn i'w wneud a bod y manteision yn drech na’r ffactorau negyddol. Llwyddodd un cynghorydd i gyfleu'r teimlad trwy ddweud 'yn yr holl flynyddoedd rydw i wedi bod yn gwneud gwaith fel hyn, does neb erioed wedi dod nôl ata'i i ddweud eu bod yn difaru dechrau gwaith, neu taw dyna oedd y peth anghywir i'w wneud'.

8.29 Soniodd cyfranogwyr am y manteision i blant wrth i'w rhieni gymryd rhan yn PaCE, gan gynnwys:

- paratoi eu plant ar gyfer mynd i'r ysgol lle nad oedd unrhyw brofiad neu fawr ddim profiad ganddynt o fod i ffwrdd oddi wrth eu rhiant/rhieni
- cael profiad o ofal plant ffurfiol gan ganiatáu i'r plant flaguro, gydag unigolion yn sôn am bersonoliaethau plant yn dechrau disgleirio
- sgiliau ieithyddol plant yn gwella o ganlyniad i gymryd rhan mewn gofal plant ffurfiol
- hyder ac annibyniaeth plant yn cynyddu o ganlyniad i ddod i gysylltiad â phlant eraill o'r un oedran ac â phobl y tu hwnt i'w cylch uniongyrchol
- plant hŷn yn cael cyfle i gael ychydig bach o annibyniaeth a chymryd ychydig bach o gyfrifoldeb e.e. pobl ifanc yn eu harddedgau'n gofalu am anifeiliaid y teulu tra bod eu rhiant yn y gwaith
- plant hŷn yn gwneud yn well yn yr ysgol, naill ai am fod mwy o strwythur i'w bywydau, neu am eu bod yn gweld eu rhieni'n mynd ati i ddysgu.

**Crynodeb o'r Bennod**

Mae dros draean o'r holl gyfranogwyr wedi symud ymlaen i waith, sy'n sylweddol uwch na'r 20 y cant a ddisgwyliwyd.

Mae yna wahaniaethau yn y gyfran o gyfranogwyr a symudodd i mewn i swyddi o un ardal i'r llall, sy'n adlewyrchu pryd y lansiwyd y rhaglen mewn gwahanol rannau o Gymru ac amrywiadau yn y canlyniadau swyddi a gynhyrchir gan gynghorwyr unigol..

Gwnaeth bron i hanner y cyfranogwyr a symudodd i mewn i swyddi hynny ar ôl bod yn gysylltiedig â PaCE am dri mis neu lai, a symudodd y pumed i mewn i swyddi ar ôl bod mewn cysylltiad â PaCE am rhwng tri a chwe mis.

Mae'r bobl sy'n symud i mewn i waith yn dueddol o fynd i swyddi lefel mynediad mewn dau gategori galwedigaethol: 'gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid' a 'gofal, hamdden a gwasanaethau eraill'.

Mae'r bobl hynny sy'n symud i mewn i waith yn dueddol o gael contractau parhaol, gyda'r rhan fwyaf yn gweithio tua 16 awr yr wythnos.

Ychydig o gyfranogwyr yn unig sydd wedi ennill cymwysterau wrth ymadael â PaCE.

Yn yr un modd, ychydig sydd wedi symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant wrth ymadael â PaCE.

Byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod PaCE wedi cael effeithiau ehangach ar gyfranogwyr a'u teuluoedd y tu hwnt i alluogi iddynt symud i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant, neu ennill cymwysterau.

# 9. Casgliadau ac Argymhellion

## Cyflwyniad

9.1 Yn y bennod hon, byddwn ni'n dychwelyd at amcanion y gwerthusiad ac yn cyflwyno ein casgliadau a'n hargymhellion mewn perthynas â:

- gweithrediad y rhaglen hyd yn hyn
- arwyddion cynnar mewn perthynas â deilliannau
- cywirdeb y theori newid.

9.2 Trafododd yr adroddiad Gwerthuso Prosesau cychwynnol[89] lansiad PaCE, a thynnodd sylw at y materion a gododd yn nyddiau cynnar y rhaglen. Nid yw'n fwriad gennym edrych ar y materion hynny eto.

## Gweithrediad y rhaglen hyd yn hyn

9.3 I raddau helaeth iawn, mae PaCE wedi cael ei weithredu yn ôl y bwriad. Yn ystod y ddwy flynedd cyntaf ers cyhoeddi'r adroddiad Gwerthuso Prosesau cychwynnol, mae PaCE wedi cynnal momentwm, mae'r systemau rheolaeth a gweinyddol sy'n ategu'r rhaglen wedi cael eu cywreinio, ac erbyn hyn maent i'w gweld yn gweithio'n dda ar y cyfan, er bod yna rhywfaint o gwmpas ar gyfer gwella prosesau o hyd.

> Argymhelliad 1
>
> Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda chydweithwyr o DWP, cynghorwyr a rheolwyr cyflawni PaCE er mwyn parhau i wella prosesau PaCE a’u gwneud yn rhai 'LEAN'[90].

9.4 Er bod y model a fabwysiadwyd ar gyfer cyflawni PaCE yn gyson ar draws Cymru, mae gweithrediad ar lawr gwlad yn amrywio ychydig bach o un ardal i'r llall. Mae'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu amrywiadau yn y seilwaith cymorth lleol i deuluoedd a chyflogadwyedd rhwng ardaloedd, yn ogystal â phrofiad blaenorol PaCE a'u dulliau personol o weithio.

[89] Wavehill (2016) Gwerthusiad o Brosesau'r Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE).
[90] Defnyddio terminoleg gweithgynhyrchu i gyfeirio at wella effeithlonrwydd prosesau a lleihau gwastraff.

9.5 Mae’r penodau blaenorol wedi trafod gwahanol agweddau ar gyflawniad y rhaglen yn fanwl. Ein bwriad yma yw canolbwyntio ar agweddau ar weithrediad y rhaglen sy'n haeddu ystyriaeth bellach, a chyflwyno argymhellion lle'r ydyn ni'n teimlo y gellid gwneud gwelliannau.

9.6 Gwnaed ymdrechion i alinio PaCE â'r saernïaeth cymorth i deuluoedd ehangach ar draws Cymru i ddarparu gwasanaeth integredig a di-dor ar gyfer rhieni. Mewn rhai ardaloedd, mae cynghorwyr PaCE yn cydweithio'n agos â thimau FIS ac â phobl eraill sy'n gweithio ym maes gwasanaethau i deuluoedd, fel ymwelwyr iechyd. Ar y cyfan, fodd bynnag, mae integreiddio wedi bod yn fwy o her na'r disgwyl, ac mae graddfa'r aliniad yn amrywio o un ardal i'r llall. Gellir priodoli hyn yn rhannol i ffocws y gwasanaethau cymorth i deuluoedd ar gymunedau mwy difreintiedig sy'n cael eu gwasanaethu gan CaW yn hytrach na PaCE. Ffactor arall sydd wedi ei gwneud hi'n anos na'r disgwyl i PaCE ddod yn rhan o'r dirwedd cymorth i deuluoedd lleol yw ailstrwythuro neu leihau timau gwasanaethau cymorth i deuluoedd mewn rhai ardaloedd.

9.7 Fodd bynnag, mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn ffynhonnell cyfeirio pwysig i PaCE, ac yn enwedig yn nhermau'r unigolion nad ydynt yn derbyn budd-daliadau diweithdra.

9.8 Mae yna gwmpas i gryfhau'r cysylltiadau â gwasanaethau cymorth i deuluoedd lleol, ac yn hynny o beth, cynyddu amlygrwydd PaCE gyda thimau cymorth i deuluoedd. Fodd bynnag, ni ellir gwneud hyn ar lefel leol yn unig, a bydd angen mewnbwn gan reolwyr a gweinyddwyr y rhaglen yn ogystal â staff cyflawni'r rheng flaen.

Argymhelliad 2

Dylid cynhyrchu diweddariadau chwe misol ar berfformiad ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, yn gyson â'r dull gweithredu a amlinellir yn y Cynllun Cyflogadwyedd, er mwyn gwella'r dulliau o fonitro a chydlynu cyflawniad lleol. Dylai'r rhain ddarparu gwybodaeth pennawd am gysylltiadau a deilliannau (wedi ei chynhyrchu'n ganolog), yn ogystal ag adborth ansoddol ar, er enghraifft, yr anawsterau a brofwyd wrth ddod o hyd i ofal plant, y darparwyr gofal plant a ddefnyddiwyd, a chyfrif o sut y mae'r

wybodaeth y mae FIS yn ei darparu wedi cael ei defnyddio (wedi ei chynhyrchu gan reolwyr cyflawni a chynghorwyr).

Argymhelliad 3

Dylai rheolwyr cyfrif Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â rheolwyr cyflawni DWP a chynghorwyr PaCE, anelu at gyfarfod â thimau gwasanaethau i deuluoedd awdurdodau lleol yn flynyddol er mwyn trafod gweithrediad y rhaglen ac archwilio beth y gellid ei wneud i sicrhau bod PaCE yn cael ei integreiddio'n well i'r dirwedd gwasanaethau i deuluoedd yn lleol.

9.9 Mae'r ffaith nad yw PaCE wedi ei alinio mor agos ag a fwriadwyd â rhai gwasanaethau cymorth i deuluoedd ehangach yn golygu bod y cynghorwyr yn gwneud llai o ddefnydd o leoliadau gwasanaethau cymorth i deuluoedd fel canolfannau Dechau'n Deg a Chanolfannau Gofal Plant Integredig nag a ragwelwyd wrth gyfarfod â chleientiaid a gweithio gyda nhw. Yn hytrach, defnyddir safleoedd JCP yn fwy nag a fwriadwyd, ac mae hyn wedi bytholi'r safbwynt ymysg cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod PaCE yn rhaglen 'lles' yn hytrach na bod yn rhan o'r cymysgedd cymorth i deuluoedd.

9.10 Mae yna fanteision i'r ffaith fod cynghorwyr yn gweithio o safleoedd JCP, a byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod cyfranogwyr sydd wedi arfer ag ymweld â'r safleoedd hyn fel rheol yn teimlo bod swyddfeydd JCP yn lleoedd cyfleus i gyfarfod (er nad pob tro). Roedd eraill, ac yn arbennig pobl nad oeddent yn hawlio Cymhorthdal Incwm, yn gyndyn i ymweld â safleoedd JCP. Er bod sawl cynghorydd arall yn gwneud defnydd helaeth o safleoedd yn y gymuned fel llyfrgelloedd a hybiau cymunedol i gyfarfod â chleientiaid, mae rhai i'w gweld yn fwy cyffyrddus yn gweithio o safleoedd JCP yn bennaf.

9.11 O ystyried y bwriad clir a bennwyd yng Nghynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru i 'gynorthwyo'r bobl hynny sy'n economaidd anweithgar ond sydd am weithio'[91] yn ogystal â phobl sy'n ddi-waith, mae yna ddadl gref dros ehangu faint o waith a wneir 'yn y gymuned' mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, dylai'r cynghorwyr barhau i ddefnyddio swyddfeydd JCP (i gyfarfod â

[91] Llywodraeth Cymru (2018), Cynllun Cyflogadwyedd, t.13

chleientiaid, i hyrwyddo PaCE ymysg hyfforddwyr gwaith ac i gyrchu cronfeydd data DWP a chyfleusterau TGCh) yn rhan o ddull gweithredu cyfunol, wedi ei ogwyddo ychydig bach yn fwy tua gwaith yn y gymuned na heddiw.

Argymhelliad 4

Dylai’r rheolwyr cyflawni adolygu cynlluniau cysylltu lleol ar gyfer yr ardaloedd y maent yn eu goruchwylio, ac ystyried a oes yna gwmpas ar gyfer manteisio'n llawnach ar gyfleoedd allan yn y gymuned i gyrraedd unigolion sy'n economaidd anweithgar nad ydynt yn dod i gysylltiad â'r JCP yn draddodiadol.

9.12 Mae rhai cynghorwyr wedi gwneud defnydd da o gronfeydd data hawlwyr DWP i glustnodi darpar-gleientiaid. Yn wir, gellid dadlau bod y gallu i gyrchu cofnodion DWP yn un o gryfderau allweddol y rhaglen PaCE, gan ei osod ar wahân i ymyraethau eraill yr ESF. Mae yna bryder digon dilys ymysg cynghorwyr, felly, na fydd modd iddynt gyrchu cofnodion DWP mwyach wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno yn lle Cymhorthdal Incwm a budd-daliadau eraill.

Argymhelliad 5

Dylai'r DWP sicrhau nad yw gallu'r cynghorwyr i gyrchu cofnodion unigolion sydd allan o waith ac a allai fanteisio o gymryd rhan yn PaCE yn cael ei gyfaddawdu gan gyflwyniad y Credyd Cynhwysol.

9.13 Weithiau mae cynghorwyr yn cyfarfod â chyfranogwyr mewn caffis am eu bod yn lleoliadau niwtral hygyrch ac anffurfiol lle mae'r cleientiaid yn teimlo'n gyffyrddus yn 'sgwrsio dros baned'. Mae hyn yn gallu golygu bod y cynghorwyr ar eu colled am eu bod nhw'n prynu diodydd ar gyfer y cyfranogwyr, ac mae hyn i'w gweld yn hollol amhriodol.

Argymhelliad 6

Dylid talu lwfans i gynghorwyr i brynu diodydd pan fyddant yn cyfarfod â

chleientiaid mewn caffis. Dylid cadw'r fiwrocratiaeth o gylch cyflwyno hawliadau am ad-dalu treuliau o'r fath i'r lefel isaf bosibl.

9.14 Ar lefel Cymru-eang, mae PaCE i'w gweld yn cyd-fynd yn dda â rhaglenni cyflogadwyedd eraill fel Rhaglen Gwaith ac Iechyd y DWP a CaW. Roedd yna dystiolaeth hefyd o PaCE yn gweithio ochr yn ochr â phrosiectau ESF eraill mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, roedd yna ganfyddiad bod yna amrywiaeth ddryslyd o raglenni cyflogadwyedd, a bod hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd i asiantaethau partner gyfeirio cleientiaid at y lle mwyaf priodol am gymorth.

9.15 Mae Cynllun Cyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru'n pwyntio i gyfeiriad aliniad agosach rhwng rhaglenni cymorth cyflogadwyedd, yn ogystal â chroesgyfeirio rhwng ymyraethau lle bo hynny'n briodol. Bydd cyflwyniad y Porth Cyngor Cyflogaeth yn ddatblygiad pwysig i PaCE, ac mae hi'n hanfodol bod rheolwyr y rhaglen yn chwarae rhan ymarferol wrth sefydlu'r trefniadau gweithio.

Argymhelliad 7

Mae angen i reolwyr PaCE gydweithio'n agos â'r rhai sydd ynghlwm wrth weithrediad Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru a chysylltu â'r cydweithwyr sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Porth Cyngor Cyflogaeth er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n darparu'r gwasanaeth yn ei ddeall, a bod y broses o gyfeirio cleientiaid at PaCE mor syml â phosibl.

Dylai rheolwyr PaCE rhoi ystyriaeth deg i ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad Llywodraeth Cymru o gydraddoldebau, fel y'u hamlinellir yn y Cynllun Cyflogadwyedd.

9.16 Digon tawel fu’r dulliau o hyrwyddo PaCE hyd yn hyn, ac oherwydd hynny, mae gwelededd y rhaglen yn dal i fod yn gyfyngedig ymysg darpar-gleientiaid a sefydliadau partner. Heb os, mae hyn yn effeithio ar allu'r rhaglen i gyrraedd darpar-gyfranogwyr, ac mae'r ffigurau cysylltu sy'n is na'r bwriad ar draws

pawb ond y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn Nwyrain Cymru yn adlewyrchu hyn.

9.17 Er mwyn i'r rhaglen gau'r bwlch sy'n bodoli rhwng y ffigurau targed a'r gwir ffigurau cysylltu, mae angen i fwy o bobl, gan gynnwys rhieni economaidd anweithgar, fod yn ymwybodol o fodolaeth PaCE a beth y mae'r rhaglen yn ei wneud.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei strategaeth gyfathrebu/ marchnata. Ymhlith pethau eraill, dylai'r strategaeth:

- glustnodi 'segmentau' o rieni yn ôl oedran eu plentyn lleiaf a'u rhesymau dros beidio â gweithio (e.e. dewis, diffyg sgiliau/hanes gwaith)
- clustnodi'r negeseuon allweddol i'w targedu at wahanol segmentau o rieni ar wahanol adegau. Dylai'r negeseuon ddangos yn glir fanteision ariannol ac anariannol rhieni'n gweithio
- pennu rhaglen ar gyfer cyfleu'r negeseuon allweddol.

Dylai Llywodraeth Cymru lansio gwefan benodol ar gyfer PaCE. Dylai'r wefan nodi'n glir natur y cymorth sydd ar gael, a darparu esiamplau 'astudiaeth achos' o bobl sydd wedi cymryd rhan yn PaCE er mwyn dod â'r negeseuon hyrwyddo'n fyw. Dylai'r wefan nodi'n glir hefyd sut mae mynd ati i gysylltu â thimau PaCE lleol.

Ochr yn ochr â hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu negeseuon hyrwyddo a deunyddiau 'astudiaeth achos' ar gyfer sefydliadau partner i'w clustnodi gan dimau lleol. Dylid rhyddhau'r rhain mewn fformat a fyddai'n caniatáu i sefydliadau partner eu llwytho ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol yn eu cymunedau (gwefannau, tudalennau Facebook, porthiant Twitter ac ati).

9.18 Fel y nodwyd uchod, mae nifer y cyfranogwyr sydd wedi ymgysylltu â’r rhaglen wedi bod dipyn yn brin o'r disgwyliadau, er nad yw staff y rhaglen yn poeni'n ormodol am hyn am fod perfformiad o ran deilliannau swyddi wedi rhagori'n sylweddol ar y disgwyliadau. Fodd bynnag, mae yna wahaniaethau amlwg o ran niferoedd y cyfranogwyr sy'n cysylltu rhwng un ardal a'r llall ac ni ellir esbonio'r newidiadau hyn yn llwyr ar sail y gwahaniaethau o ran am ba hyd y mae PaCE wedi bod yn rhedeg, neu ar sail proffil cymdeithasol economaidd yr ardaloedd unigol. Mae hi'n bosibl bod y gwahaniaethau hyn oherwydd llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, cynghorwyr unigol wrth feithrin cysylltiadau â hyfforddwyr gwaith JCP (o ystyried taw JCP yw prif ffynhonnell cyfeiriadau at PaCE o hyd) ac wrth ddarbwyllo darpar gleientiaid am fanteision cyfranogaeth yn y rhaglen.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflawni adolygiad manwl o arferion yn yr ardaloedd sy'n perfformio'n dda a'r ardaloedd nad ydynt yn perfformio cystal yn nhermau cysylltu cleientiaid. Dylai adolygiad o'r fath ganolbwyntio ar y ffordd y mae cynghorwyr unigol yn gweithio gyda sefydliadau partner a gyda chleientiaid. Dylid defnyddio canfyddiadau'r adolygiad manwl fel sail ar gyfer deunyddiau arfer da a chywreinio'r canllawiau i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd.

9.19 Rhieni â phlant pedair i bump oed a'r rhai â phlant dwy i dair oed sydd i gyfrif am y mwyafrif o'r cyfranogwyr a gysylltwyd. Mae hi'n debygol y gellir priodoli hyn i'r ffaith fod hawlwyr Cymhorthdal Incwm yn wynebu'r tebygolrwydd o gael eu trosglwyddo i JSA pan fydd eu plentyn lleiaf yn troi'n bump oed, ac i allu'r rhieni i gyrchu'r 10 awr o addysg cynnar dan y Cyfnod Sylfaen pan fo'r plentyn yn troi'n dair oed. Beth bynnag fo’r sbardun, mae'n debyg bod y rhieni'n fwy agored i gysylltu ag ymyraethau fel PaCE ar adegau penodol ym mywydau eu plant, a dylid gwneud ymdrechion i dargedu rhieni yn y 'pêr-gyfnodau' hyn.

Argymhelliad 10

Awgrymwyd eisoes y dylai Llywodraeth Cymru glustnodi 'segmentau' o rieni, ac rydym yn argymell ymhellach defnyddio cronfeydd data DWP i glustnodi hawlwyr Cymhorthdal Incwm â phlant sy'n nesáu at dair a phump oed[92].

Wedyn dylid targedu'r unigolion a glustnodir gyda negeseuon wedi eu teilwra at eu sefyllfaoedd penodol. Dylid arddel dull strategol o fynd ati i wneud hyn, gyda'r DWP yn arwain ac yn cydgysylltu â'r rheolwyr cyflawni sy'n gyfrifol am bob ardal er mwyn sicrhau nad yw'r cynghorwyr wedi eu gorlethu.

9.20 Mae gwariant ar ofal plant wedi bod yn is na'r disgwyl. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol, lefelau is na'r disgwyl o gysylltiadau, ond mae'n ddyledus i ryw raddau hefyd i'r ffaith fod unigolion yn llwyddo i gydblethu cyfranogaeth neu waith ag oriau ysgol neu feithrin, neu i fanteisio ar gymorth perthnasau a ffrindiau (gofal plant anffurfiol). Er y gwelwyd twf bach yn y niferoedd sy'n manteisio ar gymorth gofal plant dros amser, mae'n edrych yn annhebygol y bydd angen y gyllideb a bennwyd ar gyfer gofal plant yn ei chyfanrwydd. Yn wir, gallai cyflwyniad 30 awr y Cynnig Gofal Plant gyfyngu rhagor ar yr angen am i PaCE dalu costau gofal plant y cyfranogwyr.

9.21 Yn y bôn, bwriad PaCE yw hwyluso dychweliad rhieni i'r gwaith trwy gynyddu eu defnydd o ofal plant. Fe'i priodolwyd ar sail y rhagdybiaeth bod methiant i gyrchu gofal plant neu anawsterau wrth gyrchu gofal plant sy'n bodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau yn atal rhieni sydd allan o waith rhag symud i mewn i gyflogaeth.

9.22 Byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod PaCE yn hwyluso dychweliad rhieni i'r gwaith trwy gynyddu eu defnydd o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol. Yn hynny o beth, mae PaCE yn cynorthwyo cyfranogwyr i ddod i delerau â chymhlethdod a sialensiau trefnu a rheoli gofal plant yn nhermau deall:

[92] Fel y mae rhai cynghorwyr eisoes yn ei wneud.

- pa opsiynau gofal plant (ffurfiol ac anffurfiol) sydd ar gael ac yn agored iddynt
- sut mae gwahanol fathau o ofal plant yn gweithio
- beth yw'r gost, pa gymorth ariannol a allai fod ar gael ac a fydd rhywun yn well eu byd yn ariannol yn y gwaith ar ôl talu am ofal plant.

9.23 Mae hyn hyd yn oed yn fwy cymhleth os yw'r unigolion yn aneglur ynghylch yr oriau y gallai fod angen iddynt weithio, ac mae hynny'n anochel pan fyddant yn cychwyn ar eu siwrnai i chwilio am waith. Mae hyn yn golygu bod helpu'r cyfranogwyr i ystyried eu hopsiynau gofal plant, eu hysbysu am y cymorth sydd ar gael, esbonio goblygiadau ariannol pontio i waith a ffeindio ffordd trwy'r camau ymarferol o ddod o hyd i ofal plant addas a phontio i gyflogaeth yn rhan allweddol o waith y cynghorwyr.

9.24 Mae ein gwaith maes yn dangos yn glir hefyd, er bod argaeledd gofal plant (pan fo plant yn cyrraedd tair oed) a disgwyliadau i weithio (pan fo plant yn cyrraedd pump oed) yn gweithredu fel y prif sbardunau dros gyfeirio at a chysylltu â PaCE, prin iawn y gwelir taw gofal plant yw'r unig rwystr, neu hyd yn oed y prif rwystr sy'n atal y rhai sy'n cysylltu â PaCE rhag dechrau gwaith.

9.25 Rhwystrau allweddol eraill i gyfranogwyr PaCE yw diffyg cymwysterau, sgiliau a phrofiad gwaith perthnasol diweddar. Mae'r bobl hynny sy'n cymryd rhan yn PaCE wedi cyflawni amrywiaeth o ddarpariaeth hyfforddiant, ac ar y cyfan roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod yr hyfforddiant a gawsant o safon dda a'i fod yn berthnasol i'w huchelgeisiau gwaith. Fodd bynnag, roedd yna amrywiaeth sylweddol yn nifer y bobl a oedd yn elwa ar yr hyfforddiant ar draws Cymru. Nid oedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a gyflawnwyd yn denu achrediad, neu roedd yn arwain at gymwysterau lefel 2 neu'n is, sy'n adlewyrchu'n rhannol ganllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r hyfforddiant y mae ei ddarparydd yn ei gynnig. Mae hi'n glir hefyd nad yw nifer gyffredinol y cyfranogwyr a oedd yn cyflawni hyfforddiant mor uchel ag y gallai fod, ac yn enwedig uwch lefel 2, sef y meincnod a fabwysiadwyd ar gyfer bod yn fedrus. Roedd hyn i'w briodoli'n rhannol i'r sialensiau yr oedd darparydd Llywodraeth Cymru'n eu hwynebu wrth gynnig darpariaeth hyfyw ar gyfer grwpiau bychain, yn enwedig y tu hwnt i dde a gorllewin Cymru.

Argymhelliad 11

Dylai'r cynghorwyr gynnal ymwybyddiaeth gyfoes o'r ddarpariaeth dysgu sydd ar gael yn lleol, a chydgysylltu'n rhagweithiol â darparwyr lleol er mwyn helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i gyrsiau addas.

Lle nad oes mathau penodol o ddarpariaeth ar gael yn lleol, dylai'r cynghorwyr ddwysáu eu hymdrechion i dynnu grwpiau o gyfranogwyr ag anghenion hyfforddi tebyg ynghyd er mwyn caniatáu i ddarparydd Llywodraeth Cymru drefnu darpariaeth. Yn hynny o beth, dylai'r cynghorwyr weithio gyda'u cydweithwyr yn CaW ac â chynghorwyr PaCE mewn ardaloedd cyfagos.

9.26 O ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar ei gymorth ar gyfer hyfforddiant lefel 3 ac uwch, mae hi'n bosibl nad yw PaCE yn helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith a'i gynnal cystal ag y gallai. Mae hi'n debyg bod polisi Llywodraeth Cymru yn hyn o beth yn groes i'r syniad o uwchsgilio pobl a'u symud i mewn i gyflogaeth gynaliadwy, o ystyried taw'r diffiniad a fabwysiadwyd ar gyfer 'person â sgiliau isel' yw unigolyn heb gymwysterau 'uwch lefel 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)'[93].

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ailddyrannu rhan o'r gyllideb a neilltuwyd i dalu costau gofal plant (sy'n debygol o gael ei danddefnyddio) i ariannu rhagor o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant lefel 3 ac uwch. Fodd bynnag, wrth dalu am ddarpariaeth lefel uwch, dylai'r cynghorwyr bledio'r achos gan ddangos pam fod angen hyfforddiant lefel uwch er mwyn diogelu cyflogaeth fwy cynaliadwy.

[93] Canllawiau Gweithredol PaCE (2016) t.19

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o ddyrannu cyllidebau hyfforddiant lleol i reolwyr cyflawni PaCE er mwyn caniatáu i'r cyfranogwyr gyrchu cyrsiau'r brif ffrwd lle nad oes hyfforddiant o'r fath ar gael yn rhad ac am ddim, a lle na all darparydd Llywodraeth Cymru ddarparu'r hyfforddiant.

Yn hynny o beth, dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio prosesau caffael symlach.

9.27 Gwnaeth y lleoliadau profiad gwaith a gwirfoddoli gryn argraff ar y cyfranogwyr a oedd wedi eu cyflawni, ac roedd hi'n glir eu bod yn chwarae rhan wrth helpu rhai i ddiogelu cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw’r gronfa ddata o gyfranogwyr yn adrodd ar yr holl leoliadau gwirfoddoli a gyflawnwyd. Mae hyn yn golygu nad yw WEFO’n cael adroddiadau manwl gywir am wir lefel y gwirfoddoli, ac yr un mor bwysig, nad yw'n bosibl defnyddio'r gronfa ddata i gael synnwyr o'r berthynas rhwng gwirfoddoli a deilliannau swyddi.

Argymhelliad 14

Dylai'r cynghorwyr sicrhau bod y lleoliadau gwirfoddoli a gyflawnir yn cael eu cofnodi'n gywir yn y gronfa ddata o gyfranogwyr. Dylid gwneud hyn ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (lle nad yw cwblhau lleoliadau profiad gwaith neu leoliadau gwirfoddoli'n ddeilliant ar gyfer y rhaglen) ac ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (lle maen nhw).

**Perfformiad o ran deilliannau hyd yn hyn**

9.28 Hyd yn hyn, mae perfformiad PaCE o ran deilliannau swyddi wedi rhagori ar y proffiliau, a hynny er gwaetha'r ffaith fod lefelau cysylltu'n is na'r disgwyliadau. Yn wir, mae perfformiad cadarn o ran deilliannau swyddi wedi golygu bod staff y rhaglen wedi poeni'n llai am y lefelau cysylltu nag y gallent. Gwnaed

argymhellion eisoes am hyrwyddo PaCE yn well, a thargedu grwpiau penodol o rieni er mwyn cynyddu lefelau'r cysylltiadau.

9.29 Mae yna amrywiadau nodedig yn y cyfraddau trosiant o gysylltiadau i ddeilliannau swyddi ar draws y gwahanol ardaloedd. Mae hi'n debyg y gellir priodoli hyn yn rhannol i'r anghysondeb yn y ffordd y mae cynghorwyr yn delio â chyfranogwyr cyfredol sy'n annhebygol o symud ymlaen i swyddi, neu nad ydynt yn cysylltu'n rhagweithiol yn y rhaglen. Fodd bynnag, nid yw hyn, na hyd cyfnod y cynghorwyr yn eu swyddi, yn llwyr esbonio'r gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng ardaloedd.

Argymhelliad 15

Dylai rheolwyr cyflawni PaCE sicrhau bod y cynghorwyr yn eu hardaloedd yn gyson yn eu dull o fynd ati i ddatgysylltu cyfranogwyr. Gallai hyn gynnwys cynghorwyr yn ceisio cyfeirio cyfranogwyr nad ydynt yn debygol o symud ymlaen i gyflogaeth gyda chymorth PaCE i sefydliadau eraill sydd mewn sefyllfa well i'w cynorthwyo.

Argymhelliad 16

Dylai rheolwyr cyfrif Llywodraeth Cymru weithio gyda'r rheolwyr cyflawni a'r cynghorwyr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros y gwahaniaethau yn y cyfraddau trosi ar gyfer deilliannau swyddi yn yr ardaloedd hynny sydd i'w gweld yn perfformio cryfaf a'r rhai gwannaf. Lle gwelir bod gwahaniaethau mewn arferion yn effeithio ar berfformiad o ran deilliannau swyddi, dylid rhannu'r gwersi a ddysgwyd, a dylid cywreinio'r canllawiau i adlewyrchu'r gwersi hynny.

9.30 Y tu hwnt i gyfnod penodol, mae'r tebygolrwydd bod cyfranogwyr yn symud i mewn i waith o ganlyniad i gysylltu â PaCE yn gostwng yn sylweddol. Er bod rhai cyfranogwyr yn cyflawni deilliannau swyddi ar ôl mwy na blwyddyn o gysylltiad â PaCE, mae'r niferoedd yn isel mewn gwirionedd. Byddai'n ymddangos, felly, nad yw buddsoddi mewn cyfranogwyr y tu hwnt i flwyddyn

yr un mor gost-effeithiol[94] a gellid defnyddio amser y cynghorwyr yn well. Wedi dweud hynny, cydnabyddir fod gan rai cyfranogwyr anghenion mwy cymhleth, a gallai gymryd yn hirach iddynt symud ymlaen i gyflogaeth nac eraill.

Argymhelliad 17

Dylid gofyn i'r cynghorwyr adolygu'r tebygolrwydd y bydd y cyfranogwyr y maent wedi bod yn gweithio gyda nhw am 12 mis neu ragor yn symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant/addysg. Yn hynny o beth, dylid gofyn i'r cynghorwyr ystyried a fyddai sefydliadau eraill mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion y cyfranogwyr hynny.

Lle ceir bod PaCE yn annhebygol o helpu cyfranogwyr penodol i symud ymlaen, dylid trafod trefniadau ar gyfer eu cyfeirio ymlaen a'u datgysylltu o'r rhaglen gyda'r cyfranogwyr o dan sylw.

9.31 Awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol i PaCE ymgorffori elfen ffurfiol o gymorth yn y gwaith er mwyn caniatáu i'r cynghorwyr gynorthwyo'r cyfranogwyr trwy'r broses o bontio i gyflogaeth, a'u cynorthwyo felly i gynyddu cynaliadwyedd y deilliannau swyddi. Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi bod yn anargyhoeddiadol ynghylch effeithiolrwydd cymorth yn y gwaith[95] fodd bynnag, a gallai fod yna ddadl dros arbrofi gyda chymorth yn y gwaith i gyfranogwyr PaCE mewn ardaloedd dethol.

Argymhelliad 18

Dylid ystyried arbrofi gydag elfen o gymorth yn y gwaith dan derfyn amser mewn pedair ardal awdurdod lleol sydd wedi perfformio'n gymharol gadarn yn nhermau deilliannau swyddi.

Dylai'r cymorth yn y gwaith a gynigir gynnwys cynghorwyr yn cysylltu â chyfranogwyr sydd wedi symud i mewn i gyflogaeth trwy neges destun neu e-bost bythefnos, a mis ar ôl iddynt ddechrau gwaith i ofyn sut mae pethau'n mynd a gofyn a oes angen unrhyw gymorth pellach arnynt. Lle bo cyfranogwyr

[94] Byddwn yn ymchwilio ymhellach i hyn yn ystod cam nesaf y gwerthusiad.
[95] Gweler, er enghraifft, Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2014), *Gwerthusiad o'r Rhaglen Waith: adroddiad ar brofiadau'r cyfranogwyr*

yn gofyn am gymorth pellach, dylai'r cynghorydd archwilio pa gymorth sydd ei angen arnynt ac ai nhw, ynteu gwasanaeth arall (e.e. CaW+) fyddai yn y sefyllfa orau i'w ddarparu. Dylai fod terfyn amser ar unrhyw gymorth yn y gwaith a dylai gael ei leihau'n raddol.

Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r niferoedd sy'n manteisio ar gymorth yn y gwaith yn yr ardaloedd peilot dros gyfnod o ddeuddeg mis ac archwilio a yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth i allu'r cyfranogwyr i gynnal swydd neu i ddatblygu yn y gwaith.

9.32 Mae llai o gyfranogwyr na'r disgwyl wedi diogelu cymwysterau o ganlyniad i gymryd rhan yn PaCE. O ystyried y gwyddom bod diffyg cymwysterau'n rhwystr i gyflogaeth ac nad oes gan y mwyafrif o gyfranogwyr PaCE gymwysterau uwch lefel 2, mae hyn yn siomedig. Gwnaed argymhellion eisoes mewn perthynas â chynyddu niferoedd y cyfranogwyr sy'n dilyn hyfforddiant, ond mae hi'n ymddangos yn annhebygol ar hyn o bryd y cyflawnir y targedau o ran cymwysterau.

9.33 Ychydig iawn o gyfranogwyr sydd wedi symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant, ac mae hi'n ymddangos yn annhebygol y cyflawnir y targedau Blaenoriaeth 3 yn hyn o beth.

**Cywirdeb y Theori Newid**

9.34 Amlinellodd y theori newid a bennwyd yn yr adroddiad Gwerthuso Prosesau yn 2016 y rhagdybiaethau a fwydodd ddyluniad PaCE. Pennir y rhain yn Nhabl 9.1, ynghyd ag asesiad o i ba raddau y mae pob rhagdybiaeth wedi cael ei gwireddu yng ngoleuni profiad.

Tabl 9.1: Asesiad o gywirdeb rhagdybiaethau'r Theori Newid

| **Rhagdybiaethau** | **Cywirdeb** |
| --- | --- |
| **Mewnbwn i'r Rhagdybiaethau Gweithgarwch** | |
| 1. Mae'r buddiolwyr a fwriadwyd yn bodoli, a gellir dod o hyd iddynt/cysylltu â nhw | Mae'r cysylltiadau wedi bod yn sylweddol is na'r disgwyl, a allai awgrymu y goramcangyfrifwyd niferoedd posibl y cyfranogwyr. Fodd bynnag, nid yw PaCE wedi cael ei hyrwyddo'n systemataidd y tu hwnt i JCP a rhai gwasanaethau cymorth i deuluoedd, ac mae PaCE dal i fod yn anweledig i raddau helaeth i rai sefydliadau partner a'r cyhoedd ar led.<br><br>Er bod yr unigolion y bwriadwyd PaCE ar eu cyfer yn bodoli'n fwy na thebyg, gellid cwestiynu a oes modd eu cyrraedd yn y niferoedd a ragwelwyd heb ganolbwyntio'n agosach ar gysylltiadau ac ar ehangu gweithgareddau allgymorth y cynghorwyr. |
| 2. Mae'r safleoedd, yr offer TG a'r lleoliadau oll yn addas i gyflwyno'r gwasanaeth | Nid yw PaCE wedi cael ei ymestyn i ganolfannau i deuluoedd/yn y gymuned i'r graddau a ddisgwyliwyd, a hynny am eu bod yn dueddol o fod wedi eu lleoli mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac am nad yw'r perthnasau ag awdurdodau lleol wedi datblygu i'r graddau a fwriadwyd.<br><br>Er bod yr offer TG y mae'r cynghorwyr yn ei ddefnyddio'n gweithio'n dda fel rheol, nid yw'n bosibl defnyddio'r offer hyd eithaf ei botensial bob tro wrth weithio o leoliadau yn y gymuned. Mae hyn oherwydd cysylltiadau rhyngrwyd gwael, a chyfyngiadau diogelwch yn atal cyrchu systemau'r DWP o bell. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r cynghorwyr i weithio gyda'r cleientiaid mewn 'amser real'. |
| 3. Mae'r systemau monitro'n casglu manylion buddiolwyr yn ddigonol | Dyluniwyd y systemau monitro i gasglu data i fodloni anghenion WEFO yn hytrach na rheoli'r rhaglen. Fodd bynnag, cesglir rhywfaint o ddata ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen ar WEFO.<br><br>Mae'n debyg nad yw data am ddeilliannau gwirfoddoli'n cael ei gasglu'n gyflawn ar |

| | |
|---|---|
| | y gronfa ddata<br><br>Gellid defnyddio 'straeon newyddion da'/deunyddiau astudiaethau achos a gesglir gan y cynghorwyr yn well i gael gwell dealltwriaeth am siwrneiau cyfranogwyr unigol trwy PaCE. |
| 4. Gellir recriwtio a hyfforddi staff DWP a chyflawni archwiliadau diogelwch arnynt | Mae carfan gyflawn o staff yn eu lle, ac mae gweithlu PaCE i'w weld yn weddol sefydlog. |
| 5. Mae hyfforddiant y staff yn ddigonol | Mae hyfforddiant cychwynnol a pharhaus yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar staff i gyflawni eu swyddi. |
| 6. Nid yw'r buddiolwyr yn cael eu hatal rhag cyrchu'r gwasanaethau | Ychydig o dystiolaeth sydd yna o ddarpar gleientiaid yn cael eu hatal rhag cyrchu’r gwasanaeth, er nad yw ymwybyddiaeth am PaCE cystal ag y dylai fod. |
| 7. Mae'r ddarpariaeth yr un mor hygyrch ar draws Cymru | Mae gwasanaethau cynghorwyr ar gael yn gyfartal ar draws yr ardaloedd lle mae'r rhaglen yn gweithredu, ond mae ardaloedd yn y de-orllewin yn cael eu gwasanaethu'n well na rhannau eraill o Gymru yn nhermau'r ddarpariaeth hyfforddiant. |
| **Rhagdybiaethau Gweithgarwch i Allbwn** | |
| 8. Mae gan staff DWP wybodaeth ac arbenigedd digonol | Mae'r cynghorwyr yn dod o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd proffesiynol ac maent yn dod â gwahanol lefelau o wybodaeth am fudd-daliadau lles a'r system budd-daliadau i PaCE. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae gan y rhan fwyaf o gynghorwyr wybodaeth ac arbenigedd digonol i gynorthwyo'r cyfranogwyr. |
| 9. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth | Ar y cyfan, mae'r cynghorwyr yn gwneud defnydd da o FIS, er bod dyfnder ac |

| | |
|---|---|
| i Deuluoedd a chymorth awdurdodau lleol yn fuddiol ac yn hygyrch | ansawdd y perthnasau rhwng PaCE a'r timau cymorth i deuluoedd ehangach yn amrywio o un ardal i'r llall. Mae'r timau FIS wedi contractio mewn rhai ardaloedd yn ddiweddar a chawn weld pa effaith y caiff hyn ar PaCE. |
| 10. Gellir meithrin cysylltiadau â chyflogwyr<br>a. Mae llwybrau cyfredol ar gael trwy DWP<br>b. Nid yw PaCE yn gosod unrhyw faich ychwanegol ar gyflogwyr | Mae cynghorwyr yn meithrin cysylltiadau â chyflogwyr, naill ai'n uniongyrchol neu trwy Gynghorwyr Cyflogwyr JCP. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cynghorwyr yn ychwanegu at faich cyflogwyr. |
| 11. Mae buddiolwyr yn cysylltu â'r gwasanaeth cynghori | Y cymorth y mae'r cynghorydd yn ei gynnig sydd wrth graidd gwasanaeth PaCE. Gall amrywiaeth o faterion personol effeithio ar barodrwydd a gallu cyfranogwyr i gysylltu, ac mae rhai'n cysylltu'n llawnach nag eraill. |
| 12. Mae rhieni'n awyddus i ddiogelu cyflogaeth ac maent yn fodlon cysylltu â PaCE o'u gwirfodd | Ar y cyfan mae gan y rhai sy'n cysylltu â PaCE ddiddordeb dod o hyd i waith, er y gall ffactorau personol a ffactorau allanol effeithio ar eu gallu i gysylltu â'r rhaglen. |
| 13. Mae rhieni am i'w plant fod mewn gofal plant | Ychydig sy'n gwrthwynebu bod eu plant yn cael profiad o ofal plant, ond mae'r cyfranogwyr yn dueddol o ddefnyddio gofal plant ffurfiol y maent yn talu amdano i raddfa lai nag a ddisgwyliwyd. Yn ymarferol, mae'r cyfranogwyr yn defnyddio cymysgedd o ofal meithrin/ysgol, perthnasau/ffrindiau a gofal plant ffurfiol i'w galluogi i gymryd rhan yn PaCE a chychwyn cyflogaeth. Mae gofal plant anffurfiol yn amlycach na'r disgwyl, er bod cynghorwyr yn aml yn chwarae rhan allweddol wrth helpu'r cyfranogwyr i ddod at drefniadau gofal plant anffurfiol. |

| | |
|---|---|
| 14. Mae'r gwaith hyrwyddo'n codi ymwybyddiaeth ac yn cynyddu cysylltiadau â PaCE | Ar lefel genedlaethol, bach iawn o waith sydd wedi cael ei wneud i hyrwyddo PaCE, ac mae hi'n debygol bod hyn wedi effeithio ar y niferoedd sy'n cysylltu. Ar lefel leol, mae'r gwaith hyrwyddo sy'n cael ei wneud gan gynghorwyr unigol i'w gweld yn cynhyrchu cysylltiadau, ond nid yw hyn yn ddigonol ar ei ben ei hun. |
| **Rhagdybiaethau o ran Allbwn i Ddeilliannau** | |
| 15. Mae yna ddigon o gyllid i dalu'r costau | Mae cyllid y rhaglen wedi bod yn ddigonol, ac o bosib eithrio'r cyllid ar gyfer hyfforddiant o bosibl. |
| 16. Gellir goresgyn rhwystrau i gyflogadwyedd | Nid argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant ei hun yw'r unig rwystr fel rheol. Mae'r anhawster i ddeall y 'farchnad' gofal plant, a phennu eu hunion anghenion o ran gofal plant yn rhwystr i rieni hefyd. Mae'r cynghorwyr yn allweddol i lawer o gyfranogwyr wrth eu cynorthwyo i oresgyn y sialensiau sydd ynghlwm wrth ddod o hyd i drefniadau gofal plant.<br><br>Gellir goresgyn rhwystrau eraill i gyflogaeth hefyd, er enghraifft trwy ddilyn hyfforddiant i ennill cymwysterau neu trwy gyflawni lleoliadau gwirfoddoli i ennill profiad gwaith.<br><br>Gellir goresgyn cyfyngiadau o du'r unigolyn, fel diffyg hyder neu bryderon ariannol gyda chymorth PaCE hefyd. |
| 17. Mae yna gynlluniau gweithredu ar gyflogaeth effeithiol | Camenw yw'r term 'cynllun gweithredu ar gyflogaeth' a dweud y gwir, am nad yw'r cyfranogwyr yn aml yn ymwybodol bod y cynlluniau'n bodoli. Cofnod o sgyrsiau yw portffolios y cyfranogwyr ar y cyfan yn hytrach na 'chynlluniau gweithredu'. |
| 18. Mae cysylltiadau â chyflogwyr yn ddefnyddiol | Cyfyngedig yw'r rhyngweithio rhwng cynghorwyr a chyflogwyr, ac mae cynghorwyr cyflogaeth y DWP yn gweithredu fel dolen gyswllt yn aml. Fodd bynnag, mae'r |

| | |
|---|---|
| | cysylltiadau hyn yn ddefnyddiol wrth drefnu cyfleoedd gwirfoddoli a gwaith. |
| 19. Mae cyngor y DWP yn hyrwyddo cyflogadwyedd | Mae JCP yn ffynhonnell cyfeiriadau allweddol at PaCE. |
| 20. Mae gofal plant ar gael ac yn hygyrch neu gellir dod o hyd i atebion i ddarparu mynediad | Mae gofal plant ar gael ac yn hygyrch fel rheol, dim ond ambell i eithriad a nodwyd hyd yn hyn. |
| 21. Mae awdurdodau lleol yn ymateb i gyngor | Yn anaml y mae PaCE yn cynnig 'cyngor' i awdurdodau lleol. |
| 22. Mae cyfleoedd am hyfforddiant a phrofiad gwaith ar gael ac yn hygyrch | Nid yw cyfleoedd am hyfforddiant yr un mor agored neu hygyrch i bawb ar draws Cymru, er bod y sefyllfa wedi gwella ers lansio'r rhaglen.<br><br>Er y byddai'r gronfa ddata o gyfranogwyr yn awgrymu taw cyfyngedig yw’r niferoedd sy'n elwa ar brofiad gwaith a chyfleoedd i wirfoddoli, byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod rhyw un o bob pump o'r cyfranogwyr wedi cyflawni o leiaf rhywfaint o waith digyflog/gweithgarwch gwirfoddol. |
| 23. Mae darparwyr gofal plant yn darparu cymorth hyblyg a defnyddiol | Mae'r ddarpariaeth gofal plant yn hyblyg ar y cyfan, er bod yna fylchau yn nhermau darpariaeth gyda'r nos ac ar benwythnosau |
| 24. Mae yna gyfleoedd i gychwyn cyflogaeth gynaliadwy/sicr | Mae yna gyfleoedd am swyddi yn y rhan fwyaf o ardaloedd. |

9.33. I grynhoi, mae'r theori newid sydd wrth wraidd PaCE yn gadarn yn ei hanfod. Gydag ambell i eithriad, ac yn fwyaf nodedig integreiddiad â gwasanaethau cymorth i deuluoedd awdurdodau lleol a gwaith hyrwyddo, mae PaCE wedi cael ei roi ar waith yn ôl y bwriad, ac mae'r rhaglen yn hwyluso dychweliad rhieni i'r gwaith trwy gynyddu eu defnydd o ofal plant. Fodd bynnag, mae'r rhan yma o'r gwerthusiad yn dangos pa mor gymhleth yw'r materion o ran gofal plant y mae PaCE yn mynd i'r afael â nhw, a'r ddibyniaeth drymach at atebion gofal plant anffurfiol nag a ragwelwyd yn wreiddiol. At hynny, wrth dynnu sylw at gatalyddion sy'n gysylltiedig â gofal plant ar gyfer rhieni sy'n cysylltu â PaCE (argaeledd y Cynnig Gofal Plant a phlant yn dechrau ysgol yn bennaf), mae'r gwerthusiad yn awgrymu taw prin iawn yw'r achosion lle gofal plant yw'r unig rwystr i ddychwelyd i'r gwaith, na'r prif rwystr y mae rhieni'n ei wynebu.

**Themâu Trawsbynciol**

9.34. Fel rhaglen sy'n cael ei hariannu trwy'r ESF, y disgwyl yw y bydd PaCE yn cyfrannu at dair thema drawsbynciol yr ESF, sef cyfleoedd cyfartal a prif-ffrydio rhywiol; datblygu cynaliadwy; a threchu tlodi a dieithrwch cymdeithasol. I bob pwrpas, mae PaCE yn bodoli i fynd i'r afael â'r thema drawsbynciol gyntaf a'r drydedd (sy'n aml yn gydgysylltiedig) o ran ei bod yn anelu'n benodol at gynorthwyo pobl sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith tymor hir, a phobl ifanc sy'n NEET i gysylltu â'r farchnad lafur a symud allan o dlodi. O ystyried pwrpas sylfaenol PaCE, mae'r adroddiad hwn wedi ystyried yn fanwl y cynnydd a wnaed tuag at fynd i'r afael ag agweddau ar y themâu trawsbynciol hyn.

9.35. Calonogol yw dweud bod yr adroddiad wedi dangos bod PaCE yn cyrraedd y grwpiau a fwriadwyd (er nad o reidrwydd yn y niferoedd a ragwelwyd) a'i bod yn darparu mathau perthnasol gymorth ar eu cyfer. Er enghraifft:

- Mae'r mwyafrif llethol o gyfranogwyr PaCE wedi bod yn fenywod.
- Mae'r mwyafrif o'r cyfranogwyr o aelwydydd un oedolyn, gyda'r mwyafrif yn ddibynnol ar Gymhorthdal Incwm a budd-daliadau lles eraill.

- Mae gan nifer anghymesur o gyfranogwyr PaCE salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- Mae gan y mwyafrif o'r cyfranogwyr lefel isel o sgiliau, ac felly maent mewn mwy o berygl o dlodi.
- Mae traean o'r holl gyfranogwyr (menywod yn bennaf) wedi symud i mewn i gyflogaeth.
- Mae PaCE wedi darparu'r cymorth ariannol sydd ei angen ar rai i bontio'r bwlch rhwng eu diwrnod cyntaf yn y gwaith a'u taliad cyflog cyntaf, ond mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y cymorth yma wedi bod yn is na'r disgwyl.

9.36. Ar nodyn llai cadarnhaol efallai, mae'r adroddiad wedi nodi hefyd:

- Bod unigolion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gyfrif am nifer anghymesur o isel o gyfranogwyr, sy'n awgrymu hwyrach nad yw PaCE yn cyrraedd unigolion o rai grwpiau ethnig.
- Er y gwelwyd esiamplau o gyfranogwyr benywaidd yn symud ymlaen i swyddi mewn meysydd galwedigaethol nad ydynt yn rhai traddodiadol, mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n cychwyn cyflogaeth wedi mynd i mewn i swyddi mewn galwedigaethau sydd wedi tueddu i gyflogi menywod yn draddodiadol ('gofal, hamdden a gwasanaethau eraill, 'gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid' a 'gweinyddol ac ysgrifenyddol'), sy'n awgrymu, o bosibl, bod effeithiau PaCE yn nhermau prif ffrydio'r rhywiau'n gyfyngedig.
- Mae PaCE wedi gweld rhywfaint o lwyddiant wrth helpu pobl â lefel isel o sgiliau i ennill cymwysterau uwch lefel 2 a chynyddu eu cyfleoedd i ddiogelu a datblygu yn eu cyflogaeth trwy hynny.

**Atodiad 1: Targedau'r Cynlluniau Busnes Gwreiddiol a Diwygiedig o ran Cysylltiadau a Deilliannau**[96]

| Cyfanswm PaCE (B1 a B3) | Y Cynllun Busnes Gwreiddiol Gorffennaf 2015 | Y Cynllun Busnes Diwygiedig Hydref 2016 |
|---|---|---|
| Cysylltiadau | 7884 | 8278 |
| Cychwyn swyddi | 1577 | 1655 |
| Chwilio am swyddi (B1 yn unig) | 1611 | 1691 |
| Cymhwyster/tystysgrif | 1971 | 2069 |
| wedi cwblhau profiad gwaith (B1 yn unig) | 1933 | 2030 |
| i mewn i addysg/hyfforddiant (B3 yn unig) | 432 | 454 |

[96] Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Strategol, Ebrill 2017, Eitem 6. t.3